Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2013-14

HC 154
SG/2014/87

Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14

Un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 1(4) o Ddeddf Llysoedd 2003 ac Adran 39(3) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi.

Cyfrifon y Panel Apeliadau Digolledu am Anafiadau Troseddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 24 Mehefin 2014.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban ar 24 Mehefin 2014.

HC 154
SG/2014/87

OGL

© Hawlfraint y Goron 2014

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw fformat neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2 neu anfonwch ebost PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os nodir bod deunyddiau'n eiddo i drydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y sawl biau'r hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Y Tîm Cyfathrebu
Llawr 1af, 1.13
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

E-bost: GLITEM. Communications@HMCTS.Communications@hmcts.gsi.gov.uk

Gallwch lwytho'r cyhoeddiad hwn oddi ar y wefan www.justice.gov.uk/publications/corporate-reports/hmcts

Fersiwn wedi'i hargraffu ISBN 9781474107297
Fersiwn ar y we ISBN 9781474107303

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID: 17061413 06/14

Argraffwyd y ddogfen ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


**Cynnwys** 1

**1. Cyflwyniad** 3

**2. Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** 4

**3. Amdanom ni** 6

Ein gweledigaeth 6

Amcanion 6

Blaenoriaethau busnes 6

Ein gwaith 7

Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd 11

**4. Ein perfformiad** 13

Ein llwyddiannau 13

Ein cynnydd o'i gymharu â blaenoriaethau'r busnes 15

Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau. 15

Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder i wella perfformiad. 22

Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth ac i Reolau'r Weithdrefn. 24

Ein sefyllfa ariannol 26

Busnes hyfyw 27

Rhoddion elusennol 27

Taliadau 28

Strwythur cyfalaf 28

Archwilydd 28

Prif risgiau ac ansicrwydd 28

Datblygiadau yn y dyfodol 28

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd. 28

Ein staff 29

Cydraddoldeb ac amrywiaeth 30

**5. Adroddiad Cynaliadwyedd** 31

Cyflwyniad 31

Cwmpas, eithriadau ac amcangyfrifon 31

Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol. 31

Ymrwymiadau'r Cynllun Busnes 31

Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol 33

Yr Ymrwymiad Lleihau Carbon 33

Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd 33

Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth 34

Prawfesur gwledig 34
Cynllun Rheoli Carbon 34
Adeiladu cynaliadwy 34
Perfformiad 2013-14 Allbwn Datblygu Cynaliadwy 35

**6. Adroddiad am Daliadau 40**

**7. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo 46**

**8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 47**
1 Cyflwyniad 47
2 Y fframwaith llywodraethu a'r strwythur rheoli 47
3 Rheoli Risg 50
4 Goruchwylio a sicrwydd 56
5 Casgliad 58
Presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2013-14 59

**Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 61**

**9. Cyfrifon 63**

**Nodiadau am y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2014 68**

**Atodiadau 118**

# 1. Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi cymorth gweinyddol i nifer fawr o lysoedd a thribiwnlysoedd sy'n cyflawni amrywiaeth helaeth o swyddogaethau. Yr hyn sydd wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf mor eithriadol, serch hynny, yw iddi fod yn flwyddyn o newid sylweddol iawn yn yr holl wahanol awdurdodaethau a bod staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r barnwyr, drwy gydweithio'n ddiffuant, wedi ymdopi gystal â'r newid hwn.

Drwy eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'u gwaith caled, llwyddwyd i gynnal gwasanaethau o safon i'r cyhoedd gan roi llu o newidiadau a diwygiadau ar waith ar yr un pryd.


Yn yr awdurdodaeth droseddol, rhai o'r newidiadau oedd dileu achosion traddodi, rhagor o ddigideiddio a'r ymgyrch barhaus i reoli achosion yn well. Yn yr awdurdodaeth sifil, cyflwynwyd 'diwygiadau Jackson' er mwyn gostwng costau cyfreitha. Y newid mwyaf un oedd yn awdurdodaeth y llysoedd teulu, lle, drwy fod yn hollol benderfynol o wella'r perfformiad cyn cyflwyno newidiadau deddfwriaethol, y llwyddwyd i gwblhau'n gyflymach lawer o achosion sy'n ymwneud â phlant yn y system ofal. Mae'r tribiwnlysoedd hwythau wedi ymdopi ag amrywiadau mawr yn y llwyth gwaith a ragwelwyd ar eu cyfer ond mae ymateb cadarnhaol y staff a'r farnwriaeth wedi golygu bod y system yn delio â mwy o achosion nag erioed.

Ar draws pob awdurdodaeth, ym maes technoleg gwybodaeth, gwelwyd gwelliannau'n cael eu cyflwyno neu'n cael eu datblygu, neu'r ddau. Dechreuwyd darlledu o'r Llys Apêl ym mis Hydref 2013. Cafodd gwaith paratoi ei wneud ar gyfer cyflwyno'r Un Llys Sirol a'r Un Llys Teulu o fis Ebrill 2014 ymlaen. Drwy'r amser, yn y cefndir, roedd gan y rheolwyr a'r staff ymrwymiad parhaus i sicrhau bod y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio a'r gwasanaeth y mae'n ei roi i'w ddefnyddwyr i gyd yn gwella o hyd.


Felly, rydym wrth ein bodd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer 2013-14, gan ei fod yn rhoi llawer mwy o fanylion am yr hyn a gyflawnwyd. Drwy gydweithio â'r barnwyr, a chyda chydweithrediad defnyddwyr ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, mae ein staff wedi gwneud camau breision tuag at greu gweinyddiaeth fwy effeithiol ac effeithlon i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Ni allai dim o hyn fod wedi digwydd heb gymorth diflino ac adeiladol holl staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ac rydym am ddiolch iddynt o waelod calon. Mae ein dyled yn fawr iddynt i gyd.



Y Gwir Anrh.
Chris Grayling AS
Yr Arglwydd Ganghellor
a'r Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder



Y Gwir Anrh
Yr Arglwydd Thomas
o Gwmgïedd
Arglwydd Brif Ustus
Cymru a Lloegr



Y Gwir Anrh
Syr Jeremy Sullivan
Uwch Lywydd y
Tribiwnlysoedd

## 2. Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

### Rhagair gan y Cadeirydd

Mae a wnelo'r adroddiad hwn â thrydedd flwyddyn weithredu gyflawn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Drwy gydol eleni, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi parhau â llwyddiannau'r ddwy flynedd flaenorol drwy wella'i berfformiad a gostwng ei gostau gweithredu ar yr un pryd. Roedd y rhain £200m yn is yn 2013-14 nag yr oeddent yn 2011-12 er bod y llwyth gwaith wedi cynyddu mewn ambell faes allweddol.

Rwy'n arbennig o falch o weld bod achosion cyfraith teulu gyhoeddus bellach yn cael gwrandawiad yn gynt o lawer a'u bod yn cael eu cwblhau'n gyflymach. Llwyddwyd i wneud hyn drwy ymroddiad a chydweithrediad effeithiol rhwng y farnwriaeth sy'n ymwneud â chyfraith teulu a staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Serch hynny, mae llawer rhagor i'w wneud a mwy o newidiadau i'w cyflwyno er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n addas ar gyfer yr 21fed ganrif ac sy'n gallu cyflawni'r nodau y mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wedi'u gosod ar ein cyfer. Yn ystod y flwyddyn, gwahoddodd Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus i ystyried a ddylid buddsoddi yn y gwasanaeth, gyda'r nod o ddarparu system fwy hygyrch sy'n fodern ac yn ymatebol, sy'n darparu gwell gwerth am arian i'r trethdalwr ac sy'n gymorth i'r farchnad gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig dyfu. Rwy'n falch o ddweud eu bod ill dau wedi cytuno. Pen draw hyn oedd sicrhau pecyn buddsoddi sylweddol gan Drysorlys EM ym mis Mawrth 2014 i roi rhaglen ddiwygio fawr ar waith nas gwelwyd ei thebyg erioed o'r blaen. Bydd y pecyn buddsoddi untro hwn yn werth ar gyfartaledd £75 miliwn bob blwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd o 2015-16 ymlaen a bydd yn sicrhau dros £100 miliwn o arbedion bob blwyddyn erbyn 2019-20.

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wedi gofyn i Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM oruchwylio'r rhaglen newid a fydd yn defnyddio'r buddsoddiad hwn i sicrhau trawsnewid radical a gwelliannau sylweddol yn y gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu ar gyfer ein holl ddefnyddwyr. Dywedaf ragor am hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Ni allem fod wedi cyflawni dim o'r hyn sydd wedi'i wneud hyd yn hyn heb broffesiynoldeb ac ymrwymiad Peter Handcock a'i gydweithwyr, a rhoddaf deyrnged iddynt. Ni allem fod wedi gwneud hyn ychwaith heb gyfraniad gwerthfawr fy nghydweithwyr sy'n cyd-wasanaethu gyda mi ar y Bwrdd. Yn anad dim, fodd bynnag, ni fyddem wedi gallu cyflawni'r hyn a wnaethom heb waith ac ymroddiad beunyddiol pob aelod o staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd o amgylch y wlad. Hoffwn ddiolch iddynt oll am eu gwasanaeth.

Ar ddiwedd y flwyddyn, ymddiswyddodd Alison White, un o'm cydweithwyr ar Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ar ôl bod yn ei swydd ers tair blynedd. Hoffwn ddiolch iddi am ei chyfraniadau cadarn at waith y Bwrdd a Phwyllgorau eraill yr oedd yn aelod ohonynt, ac am bopeth a wnaeth yn ystod ei chyfnod gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.



**Robert Ayling**
Cadeirydd

## Rhagair gan y Prif Weithredwr

Rwy'n falch iawn o gyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cael blwyddyn heriol ond llwyddiannus arall gan gynnal lefel y perfformiad neu ragori arni a pharhau i ostwng ein costau ar yr un pryd. Drwy gydweithio â'r farnwriaeth a'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teulu, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar wella'r perfformiad yn y maes hwn yn yr achosion cyfraith gyhoeddus a ddygir gan awdurdodau lleol i ddiogelu plant agored i niwed. Ar ôl bron 20 mlynedd o ddirywiad yn y perfformiad ar draws y system cyfiawnder teulu, mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd bellach yn cwblhau ceisiadau gofal a goruchwylio wedi gostwng yn sylweddol: yn chwarter olaf 2013-14, gwelwyd y cyfnod cwblhau achosion ar gyfartaledd yn gostwng i 32 wythnos o'i gymharu â'r llinell sylfaen a nodwyd yn yr Adolygiad o Gyfiawnder Teulu ym mis Tachwedd 2011, sef 56 wythnos. Dros y flwyddyn gron, ar gyfartaledd, llwyddwyd i gwblhau achosion mewn 36.5 wythnos, sydd bron iawn yn rhagori ar nod y Bwrdd Cyfiawnder Teulu ar gyfer y flwyddyn, sef 36-40 wythnos. Mae hyn yn newid byd i aelodau agored i niwed ein cymdeithas, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith y mae ein staff wedi'i wneud ar y cyd â'r farnwriaeth.

Eleni hefyd, gwelwyd y perfformiad gorau erioed yn ein tribiwnlysoedd. Roedd nifer yr achosion a gliriwyd yn fwy na'r nifer a dderbyniwyd a hyn am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Cwblhawyd 12% yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae pethau i'w gweld yn gwella ym mhob un o brif awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys cwblhau 22% yn fwy o apeliadau yn y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant nag a gwblhawyd y llynedd, a chynnydd o 11% yn yr achosion a gwblhawyd yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Drwyddi draw, eleni, gwelwyd perfformiad gwell nag erioed a hynny ar gefndir o ddiwygio helaeth.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu defnyddio fideo ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig defnyddio cysylltiad fideo rhwng y carchar a'r llys. Ar hyn o bryd, mae gan 90% o'r llysoedd ynadon a phob un o safleoedd Llys y Goron gysylltiad fideo i'w ddefnyddio rhwng y carchardai a'r llysoedd ac ar gyfer tystion agored i niwed neu rai sydd wedi'u bygwth.

Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol, Damian Green, y bydd y Llywodraeth yn buddsoddi £44 miliwn yn Rhaglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn creu'r ystafell llys ddigidol. Bydd y rhaglen honno'n cynnwys darparu Wi-Fi yn y llys, gallu rhoi cyflwyniad digidol yn y llysoedd ynadon a storfa ddigidol effeithiol i reoli achosion. Llwyddwyd i gymryd camau breision yn y flwyddyn ddiwethaf wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn. Maent yn dangos bod y llysoedd yn camu i oes ddigidol newydd ac rwy'n edrych ymlaen at weld rhagor o gynnydd.

Fel sydd bob amser yn wir, mae cydweithio a phartneriaeth â'r farnwriaeth yn hollbwysig ym mhopeth a wnawn, a byddwn yn cydweithio'n glos â'n cydweithwyr yn y farnwriaeth ar bob lefel o'r sefydliad, o lefel y Bwrdd i'r staff lleol yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar hyd ac ar led y wlad. Bydd y berthynas gefnogol hon yn dal yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn llwyddo yn y flwyddyn nesaf, yn ogystal â sicrhau llwyddiant y rhaglen ddiwygio a grybwyllwyd gan ein Cadeirydd annibynnol, Robert Ayling, yn ei ragair.

Yn anad dim, rwyf am ddiolch i'n staff ym mhob rhan o'r asiantaeth am eu hymrwymiad i wella ein gwasanaethau. Ein staff yw ein nerth, ac mae'r ffaith eu bod yn benderfynol o ddarparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i'n gwaith beunyddiol a hefyd i'n cynlluniau i wella'r ffordd y byddwn yn cynnal ein busnes. I'w gofal a'u hymroddiad parhaus hwy y mae'r diolch am lwyddiant y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n edrych ymlaen at adeiladu ar ein llwyddiannau er mwyn gwella eto'r gwasanaeth y byddwn yn ei roi i'r cyhoedd yn y flwyddyn sydd o'n blaen

**Peter Handcock CBE**
Prif Weithredwr

# 3. Amdanom ni

Crëwyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2011 yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Partneriaeth yw'r Asiantaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel y nodir yn ein Dogfen Fframwaith.

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, sifil a theuluol a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru ac yn Lloegr ac yn y tribiwnlysoedd hynny yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon sydd heb eu datganoli. Mae'n cefnogi system gyfiawnder sy'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol a honno'n cael ei darparu gan farnwriaeth annibynnol.

Un o bedair cangen cyflawni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ydym ni. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw un o adrannau mwyaf y llywodraeth sy'n dwyn ynghyd y meysydd sy'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd, y tribiwnlysoedd, cymorth cyfreithiol, polisïau dedfrydu, y carchardai, rheoli troseddwyr a materion sy'n ymwneud â chyfreithiau a hawliau.

## Ein gweledigaeth

Cynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol, sy’n sicrhau bod modd cynnal cyfraith gwlad a bod drws cyfiawnder ar agor i bawb.

Cyhoeddwyd ein hamcanion a blaenoriaethau ein busnes am gyfnod o bedair blynedd Adolygiad o Wariant 2010 y llywodraeth yng Nghynllun Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2011-15 sef:

## Amcanion

- Darparu’r weinyddiaeth i gynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd deg, effeithlon a hygyrch.
- Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder.
- Sbarduno gwelliannau parhaus o ran perfformiad ac effeithlonrwydd ym mhob agwedd ar weinyddu’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd.
- Cydweithio'n effeithiol â chyrff ac asiantaethau cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, er mwyn hwyluso'r llwybr at gyfiawnder.
- Gweithio gydag adrannau ac asiantaethau’r llywodraeth, fel sy’n briodol, i wella ansawdd a phrydlondeb gwneud penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy’n dod gerbron tribiwnlysoedd a llysoedd.

## Blaenoriaethau busnes

- Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor.
- Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder i wella perfformiad.

## Ein gwaith

**Crynodeb o'r llwyth gwaith a'r perfformiad**

| Y Llwyth Gwaith a Ragwelwyd | Dangosyddion Mewnbwn[1 2] | Dangosyddion Effaith |
|---|---|---|
| **Llys y Goron** | | |
| Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14 - pob achos: 129,214<br>Derbyniadau yn ystod 2013-14 - pob achos:<br>142,670<br>Derbyniadau yn ystod 2012-13 - pob achos: 130,143 | Costau cyfartalog staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd yn Llys y Goron:<br><br>2013-14<br>Costau barnwrol £981<br>Costau staff £541<br><br>2012-13<br>Costau barnwrol £988<br>Costau staff £540 | Nifer gyfartalog yr wythnosau i ddechrau[3] achosion treial o'r adeg y'u derbynnir yn Llys y Goron -<br>2013-14: 14.6 wythnos<br>2012-13: 14.3 wythnos |
| Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14 - achosion treial: 77,712<br>Derbyniadau yn ystod 2013-14 - achosion treial: 96,088<br>Derbyniadau yn ystod 2012-13 - achosion treial: 79,685 | | |
| **Llys Ynadon** | | |
| Achosion troseddol y rhagwelwyd eu cwblhau (pob achos) 2013-14: 1,465,887<br>Achosion troseddol a gwblhawyd yn ystod 2013-14: 1,607,109<br>Achosion troseddol a gwblhawyd yn ystod 2012-13: 1,634,745 | Costau cyfartalog staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd yn y llysoedd ynadon:<br>2013-14<br>Costau barnwrol £130<br>Costau staff £981<br><br>2012-13<br>Costau barnwrol £119<br>Costau staff £1,005 | Nifer gyfartalog yr wythnosau i gwblhau[4] pob achos o'r adeg y'i rhestrir gyntaf -<br>2013-14: 2.9 wythnos<br>2012-13: 3.2 wythnos |
| Achosion ditiadwy a threialadwy naill ffordd i oedolion y rhagwelwyd eu cwblhau 2013-14: 381,338<br>Achosion ditiadwy a threialadwy naill ffordd i oedolion a gwblhawyd yn 2013-14: 397,378<br>Achosion ditiadwy a threialadwy naill ffordd i oedolion a gwblhawyd yn 2012-13: 347,054 | | Nifer gyfartalog y diwrnodau gwaith i sicrhau canlyniad yng nghofrestrau'r llys -<br>2013-14: 1.3 diwrnod<br>2012-13: 1.6 diwrnod |

[1]Seilir y gwariant ar staff a'r farnwriaeth ar ddadansoddi'r awdurdodaethau. Bydd costau barnwrol a delir yn ganolog drwy'r gronfa gyfunol yn cael eu dosrannu ar sail diwrnodau eistedd. Rhennir y costau ag union nifer y diwrnodau eistedd ym mhob awdurdodaeth er mwyn cyfrifo'r gost fesul diwrnod eistedd.

[2]Nid oes modd cymharu'r canlyniadau ar gyfer y gwahanol awdurdodaethau. Bydd llawer o achosion yn cael eu cwblhau drwy ddulliau ar wahân i wrandawiad, yn enwedig yn y llysoedd sifil. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn yn cael eu cadw o fewn y costau staff a barnwrol cyffredinol a ddangosir. Oherwydd y bydd cyfran y gwaith nad yw'n gysylltiedig â gwrandawiadau'n amrywio, nid oes modd cymharu'r costau.

[3] Bydd achos yn cychwyn ar ddechrau'r prif wrandawiad cyntaf yn Llys y Goron. Prif wrandawiad yw pan fydd y diffynnydd yn pledio i bob cyhuddiad neu pan fydd y rheithgor yn tyngu llw.

[4] Bydd achos yn cael ei gwblhau yn y llysoedd ynadon naill ai pan fydd yn cael ei waredu neu'n cael ei drosglwyddo i Lys y Goron.

| Y Llwyth Gwaith a Ragwelwyd | Dangosyddion Mewnbwn[1 2] | Dangosyddion Effaith |
|---|---|---|
| Nifer yr achosion diannod y rhagwelwyd eu cwblhau 2013-14: 1,084,549<br>Achosion diannod a gwblhawyd yn 2013-14: 1,059,364<br>Achosion diannod a gwblhawyd yn 2012-13: 1,105,997 | | Cosbau ariannol:<br>Cyfanswm yr arian a gasglwyd -<br>2013-14: £290.3 miliwn<br>2012-13: £284.5 miliwn<br>Cyfanswm y balans yn ddyledus ddiwedd -<br>Mawrth 14: £548.8 miliwn<br>Mawrth 13: £575.5 miliwn<br>Balans yn ôl-ddyledus ddiwedd -<br>Mawrth 14: £271.9 miliwn<br>Mawrth 13: £337.0 miliwn<br>Canran y cyfrifon a gaewyd neu a oedd wedi cydymffurfio cyn pen 12 mis i'w gorfodi[5]:<br>2013-14: 69.5%<br>2012-13: 64.6% |

**Tribiwnlysoedd**

| | | |
|---|---|---|
| Pob tribiwnlys:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 921,360<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 691,948<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 881,388 | Costau cyfartalog staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd yn y tribiwnlysoedd:<br><br>2013-14<br>Costau barnwrol £891<br>Costau staff £327<br><br>2012-13<br>Costau barnwrol £771<br>Costau staff £299<br><br>Cyfanswm costau'r tribiwnlysoedd:<br>2013-14<br>£401.7 miliwn<br>2012-13:<br>£377.3 miliwn | |
| Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 593,166<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 401,917<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 507,131 | | Nifer yr wythnosau i waredu achosion yn y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant drwyddo draw -<br>2013-14: 20 wythnos<br>2012-13: 18 wythnos |
| Cyflogaeth:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 177,389<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 105,803<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 191,541 | | Nifer yr wythnosau i waredu achosion yn y Tribiwnlys Cyflogaeth -<br>2013-14: 135 wythnos<br>2012-13: 80 wythnos |

[5]Cyfrifon a gaewyd neu a oedd wedi cydymffurfio erbyn diwedd yr un mis y flwyddyn ganlynol, e.e. y rheini a orfodwyd ym mis Ebrill 2012 ac a gaewyd neu a oedd wedi cydymffurfio erbyn diwedd Ebrill 2013.

| Y Llwyth Gwaith a Ragwelwyd | Dangosyddion Mewnbwn[1 2] | Dangosyddion Effaith |
|---|---|---|
| Mewnfudo a Lloches, haen gyntaf:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 74,360<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 104,980<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 103,923 | | Nifer yr wythnosau i waredu achosion yn y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches, haen gyntaf.<br>2013-14: 26 wythnos<br>2012-13: 20 wythnos |
| Iechyd Meddwl:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 31,949<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 30,701<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 28,969 | | Nifer yr wythnosau i waredu achosion Adran 2 yn y Tribiwnlys Iechyd Meddwl -<br>2013-14: 1 wythnos<br>2012-13: 1 wythnos |
| Eraill (gan gynnwys UTIAC):<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 44,496<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 46,884<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 47,528 | | |

**Cyfiawnder Sifil a Theulu**

| | | |
|---|---|---|
| **Llysoedd sifil -**<br>Yr holl achosion a dderbyniwyd:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 1,441,483<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 1,512,424<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 1,391,867 | Costau cyfartalog staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd yn y llysoedd sirol:<br>2013-14<br>Costau barnwrol £837<br>Costau staff £695<br><br>2012-13<br>Costau barnwrol £802<br>Costau staff £679 | Sifil - Nifer gyfartalog yr wythnosau i wrando achosion ar ôl derbyn yr hawliad yn y llys (Amser cyfartalog rhwng codi'r cais a'r gwrandawiad (wythnosau)<br><br>**Hawliadau bychain:**<br>2013-14: 31.1 wythnos<br>2012-13: 30.0 wythnos |
| Hawliadau arian:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 1,080,162<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 1,170,170<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 1,065,766 | | |
| Adfeddiannu:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 214,085<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 227,145<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 212,243 | | |

| Y Llwyth Gwaith a Ragwelwyd | Dangosyddion Mewnbwn[1 2] | Dangosyddion Effaith |
|---|---|---|
| Ansolfedd (dychwelyd nwyddau):<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 30,288<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 5,091<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 5,452 | | |
| Materion eraill:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 116,948<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 110,018<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 108.406 | | |
| **Llysoedd teulu -**<br>Pob achos:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 201,445<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 262,191<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 263,896 | | Teulu[6] - Nifer gyfartalog yr wythnosau i sicrhau canlyniad terfynol i'r plentyn mewn achosion gofal a goruchwylio -<br><br>2013-14: 36 wythnos<br>2012-13: 47 wythnos |
| Mabwysiadu:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 11,109<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 14,643<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 13,481 | | |
| Derbyniadau cyfraith gyhoeddus:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 14,897<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 14,971<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 15,411 | | |
| Derbyniadau cyfraith breifat:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 44,784<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 55,386<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 52,961 | | |

[6] Mae'r dulliau mesur hyn, ynghyd â rhai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), yn rhan o fframwaith mesur sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y system

| Y Llwyth Gwaith a Ragwelwyd | Dangosyddion Mewnbwn[1 2] | Dangosyddion Effaith |
|---|---|---|
| Derbyniadau o dan y Ddeddf Cyfraith Teulu (Trais domestig)<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 15,500<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 20,204<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 17,575 | | |
| Achosion Ysgaru:<br>Derbyniadau a ragwelwyd 2013-14: 115,155<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2013-14: 115,146<br>Achosion a dderbyniwyd yn 2012-13: 121,640 | | |

**Dangosyddion corfforaethol a dangosyddion ariannol eraill**

| |
|---|
| • Nifer y cwynion a gofnodwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: 15,272[7] |
| • Canran y cwynion a gwblhawyd gan yr haen gyntaf yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: 93% |
| • Nifer gyfartalog y diwrnodau i gwblhau'r ymateb i gŵyn: 9.9 diwrnod gwaith[8] |
| • Yr holl wariant a'r contractau dros £25,000: Bydd manylion yr holl wariant a'r contractau dros £25,000 i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder drwyddi draw'n cael eu cyhoeddi yn: https://www.gov.uk/government/publications/hmcts-spend-over-25000-2014 |

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd

Bydd yr Ombwdsman Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd yn ymchwilio i gwynion gan unigolion sydd wedi cael eu trin yn annheg neu wedi cael gwasanaeth gwael gan adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill a'r GIG yn Lloegr. Mae ganddo'r pŵer, yn ôl y gyfraith, i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus ar ran unigolion a gwneud y penderfyniad terfynol yn eu cylch. Gall hefyd argymell sut i gywiro camgymeriadau a gofyn i sefydliadau gyhoeddi cynlluniau gweithredu i ddangos sut y byddant yn rhoi'r camau hynny ar waith.

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Ombwdsmon wedi newid ei ddull o ymdrin â chwynion. Roedd hyn yn golygu ei fod yn dechrau ymchwilio i ragor ohonynt.

Yn Natganiad Blynyddol yr Ombwdsmon ynghylch y cwynion a gafodd am y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer blwyddyn galendr 2013, dywedwyd ei fod wedi cael 663 o gwynion am Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a derbyniwyd 60 o gwynion i ymchwilio iddynt. O blith y rhain, cwblhawyd 30 yn 2013.

[7] Nifer y cwynion a gofnodwyd yw cyfanswm y cwynion a gafwyd ynglŷn â'r cysylltiad cyntaf, adolygiad ac apêl.
[8] Nid yw nifer gyfartalog y diwrnodau yn cynnwys pob cwyn yn ystod y cam apêl.

Dyma ganlyniadau'r ymchwiliadau hyn:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd | 30 |
| Cwynion yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gadarnhawyd | 8 (26.7%) |
| Cwynion a gadarnhawyd yn rhannol | 10 (33.3%) |
| Cwynion yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM nas cadarnhawyd | 12 (40%) |

O blith y 38 argymhelliad a ddeilliodd o'r ymchwiliadau hyn, cydymffurfiwyd â 36 o fewn yr amserlenni a bennwyd gan yr Ombwdsmon. Roedd dau heb eu cwblhau o fewn yr amserlen ond cwblhawyd y naill a'r llall o fewn wythnos i'r dyddiad a bennwyd gan yr Ombwdsmon.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cymryd pob cwyn o ddifrif ac mae'n benderfynol o ddefnyddio'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau'r Ombwdsmon i wella'i wasanaethau. Rydym yn benderfynol o leihau nifer y cwynion sy'n arwain at ymchwiliad gan yr Ombwdsmon. Rydym wedi cymryd camau i wella'r canllawiau sydd ar gael i staff y llys sy'n ymdrin â chwynion yn y lle cyntaf ac i sicrhau eu bod yn ystyried yr anhwylustod a'r rhwystredigaeth a achosir i'n cwsmeriaid pan fydd gweinyddiaeth y llysoedd neu'r tribiwnlysoedd yn gwneud camgymeriadau.

Pan fydd cwsmeriaid yn dal yn anfodlon ar yr ymateb, bydd uwch reolwyr yn adolygu'r cwynion a bydd llysoedd a thribiwnlysoedd hefyd yn gwneud hynny er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn eu sgîl a bod camgymeriadau'n cael eu hosgoi yn y dyfodol.

# 4. Ein perfformiad

## Ein llwyddiannau


Rhai o'r llwyddiannau y dylid tynnu sylw arbennig atynt ac y cyfeirir atynt isod yw'r hyn a gyflawnwyd ym maes cyfiawnder teulu a'r tribiwnlysoedd.

### Cyfiawnder teulu

Uchafbwynt y flwyddyn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM oedd y trawsnewid a welwyd ym mherfformiad cyfiawnder teulu. Drwy ganolbwyntio'n ofalus ar wella'r perfformiad mewn achosion cyfraith gyhoeddus (y rheini a ddygir gan awdurdodau lleol i amddiffyn y plentyn a sicrhau ei fod yn cael y gofal sydd ei angen arno) llwyddwyd i gyflymu'r broses yn aruthrol. Daeth y gwelliant hwn ar ôl bron 20 mlynedd o weld y perfformiad yn dirywio drwy'r system cyfiawnder teulu.

Bellach, mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd yn cwblhau ceisiadau gofal a goruchwylio wedi gostwng yn sylweddol: mae'r ystadegau ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2014 yn dangos bod y perfformiad o ran cwblhau'n brydlon ar gyfartaledd wedi gostwng i 32 wythnos o'i gymharu â'r llinell sylfaen, sef 56 wythnos a nodwyd yn yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu ym mis Tachwedd 2011. Ar gyfer blwyddyn gron 2013-14, y cyfnod cwblhau ar gyfartaledd oedd 36.5 wythnos, sydd bron iawn yn rhagori ar uchelgais y Bwrdd Cyfiawnder Teulu ar gyfer y flwyddyn sef 36-40 wythnos.

**Cwblhau achosion gofal a goruchwylio, Ionawr-Mawrth 2011 tan Ionawr-Mawrth 2014**




O fewn yr ystadegau cenedlaethol, gwelir nifer o lwyddiannau lleol mwy nodedig byth. Mae ein gwybodaeth reoli yn dweud wrthym fod rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn ystod y cyfnod Ionawr-Mawrth 2014, wedi gostwng yr amser a gymerodd i gwblhau achosion gofal a goruchwylio ar gyfartaledd 33 wythnos o'i gymharu â'r cyfnod a gymerai pan gyhoeddwyd yr Adolygiad. Llwyddodd pedwar rhanbarth arall

i gwtogi eu cyfnodau cwblhau 20 wythnos a mwy yn ystod yr un cyfnod. Yn ystod yr un cyfnod, llwyddodd ardal Barnwr Teulu Dynodedig Casnewydd i wella'i chyfnod cwblhau 51 wythnos ar gyfartaledd a gwelwyd 14 ardal arall yn gwella'u cyfnodau cwblhau hwythau 30 wythnos a mwy ar gyfartaledd. Yn y cyfamser, oherwydd effaith gadarnhaol y ffaith bod y llysoedd yn ymdrin ag achosion yn gyflymach, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd yn rhan o achosion gofal a goruchwylio ar unrhyw un adeg. Gwelwyd y nifer hon yn gostwng o 13,800 i 9,900 (gostyngiad o fwy na chwarter) rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Mawrth 2014.

Mae'r gwelliant hwn yn arbennig o dda a chofio bod y llysoedd wedi bod yn canolbwyntio'n barhaus yn 2013-14 ar glirio achosion hŷn a oedd yn cronni yn y system. Mae clirio'r achosion hyn yn dylanwadu ar y data cwblhau, felly mae'r perfformiad cryf a gofnodir yma'n well byth pan ystyrir yr achosion hynny a ddechreuodd yn 2013. Hefyd, digwyddodd y gwelliannau hyn yn ystod y flwyddyn pan lwyddwyd i gynnal lefelau perfformiad ym maes cyfraith breifat ar yr un pryd (yn ei hanfod, rhieni sy'n gwahanu ac sy'n dymuno gwneud trefniadau ar gyfer eu plant), er gwaethaf yr anawsterau a grëwyd yn sgîl newidiadau i gymorth cyfreithiol sydd wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n eu cynrychioli eu hunain.

Mae'r gwelliannau hyn o ran cyfnodau cwblhau yn gosod sylfaen gadarn i'r Asiantaeth chwarae ei rhan yn cyflawni disgwyliadau Gweinidogion y bydd y rhan fwyaf helaeth o'r achosion gofal a goruchwylio, yn ystod 2014-15, yn cael eu cwblhau o fewn 26 wythnos. Adeg yr Adolygiad, roedd 14% o'r achosion hyn yn cael eu cwblhau o fewn 26 wythnos. Erbyn y cyfnod Ionawr-Mawrth 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 49%.

Dyrannwyd adnoddau ychwanegol unwaith eto i'r llysoedd teulu ar gyfer 2013-14; gwelwyd y systemau Gwybodaeth Reoli yn gwella'n sylweddol, yn unol ag argymhellion yr Adolygiad; a gwelwyd y rheolwyr yn canolbwyntio ar fonitro'r perfformiad rhanbarthol. Cymerwyd y camau hyn ochr yn ochr â rhaglen sylweddol o foderneiddio'r farnwriaeth, newid diwylliant a hyfforddiant. Ac, yn hanfodol, chwaraeodd staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ran arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder o fewn trefn lywodraethu draws-asiantaeth y Bwrdd Cyfiawnder Teulu. Mae'r Asiantaeth yn aelod gweithgar o'r Bwrdd ei hun a bydd un o Gadeiryddion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cadeirio'i his-grŵp Gwella Perfformiad. Llwyddwyd i ail-greu'r trefniadau partneriaeth hyn ar lefel leol drwy greu 45 o Fyrddau lleol Cyfiawnder Teulu, gan fynd i'r afael ag un o themâu pwysig eraill yr Adolygiad - yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chyfiawnder teulu yn sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y maent yn cydweithio er mwyn gwella'r system o'i chwr i'r plant hynny y bwriedir iddi eu gwasanaethu.

### Tribiwnlysoedd

2013-14 oedd flwyddyn pan welwyd y perfformiad gorau erioed yn ein tribiwnlysoedd. Cliriwyd nifer fwy o achosion na'r nifer a dderbyniwyd am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Gwaredwyd 17% yn fwy o achosion drwy system y Tribiwnlysoedd o'i gymharu ag yn 2012-13. Drwy ganolbwyntio'n barhaus ar wella'r perfformiad yn y tribiwnlysoedd drwyddynt draw, llwyddwyd i ostwng yn sylweddol nifer yr achosion a oedd yn cronni, ac mae nifer yr achosion hyn bellach ar ei hisaf mewn sawl tribiwnlys ers dwyn y tribiwnlysoedd ynghyd yn un asiantaeth ddechrau'r degawd diwethaf. Mae nifer o lwyddiannau nodedig wedi bod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant wedi cwblhau 36% yn fwy o apeliadau nag a dderbyniwyd ganddo, gan gynyddu nifer yr achosion a waredwyd 17% o'i gymharu ag yn 2012-13. Ar ddechrau 2013 -14, roedd gan y Tribiwnlys hwn 204,300 o achosion yn cronni, ac roedd y nifer wedi codi i 222,000 o achosion yn erbyn mis Mehefin 2013. Serch hynny drwy barhau i ganolbwyntio ar gynyddu capasiti a gwella perfformiad y tribiwnlysoedd, llwyddwyd i berfformio'n well nag erioed o'r blaen. Wrth i'r llwyth gwaith ostwng yn ystod ail hanner y flwyddyn, gwelwyd y llwyth achosion a oedd yn cronni'n gostwng i 78,000 erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Mae tribiwnlysoedd eraill hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar gefndir o ddiwygio a newid ar ôl symleiddio rheolau'r weithdrefn a ffioedd y tribiwnlysoedd, mae'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth wedi gwaredu 38% yn fwy o hawliadau o'i gymharu ag yn 2012-13. Mae hyn wedi arwain at y lefel isaf o hawliadau unigol sy'n cronni er 2007-08. Mae nifer fawr o'r hawliadau lluosog sy'n cronni yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gwaredu gan y tribiwnlys ar hyn o bryd. Bydd hyn yn gostwng cyfanswm lefel yr achosion sy'n cronni yn y Tribiwnlysoedd i'w lefel isaf ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl wedi gweld nifer yr achosion a dderbyniwyd ganddo'n cynyddu 6% ond mae wedi parhau i ymateb i'r cynnydd yn y llwyth gwaith drwy berfformio'n well nag erioed a chlirio 8% yn fwy o achosion yn 2013-14 o'i gymharu ag yn 2012-13. Drwyddi draw, mae lefelau perfformiad 2013-14 wedi bod yn well nag erioed yn y tribiwnlysoedd ar gefndir o ddiwygio helaeth a newid eu gweithdrefnau a'u dulliau gweithio.

## Ein cynnydd o'i gymharu â blaenoriaethau'r busnes

### Sefydlu ein gweledigaeth hirdymor

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i ddatblygu ei weledigaeth tymor hir a'i strategaeth gyflawni yn dilyn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan yr Arglwydd Ganghellor yn 2013. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ardderchog, gan sicrhau cysondeb a hygyrchedd, a darparu gwerth am arian. Anghenion defnyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sydd wrth wraidd y gwaith hwn, a bydd y ddarpariaeth yn y dyfodol yn dilyn egwyddorion gwella Main a pharhaus.

Bydd cost-effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn gwella wrth inni wella'r ffordd y defnyddir asedau presennol Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ei gweithdrefnau gweithredu a thechnolegau newydd.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd raglen ddiwygio i ddarparu - drwy ddefnyddio technoleg fodern, ystâd well a moderneiddio'r arferion gweithio presennol - gweinyddiaeth effeithiol, effeithlon sy'n perfformio'n dda yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a fydd yn gwella'r gwasanaethau a roddir i'r cyhoedd, a hynny am gost sylweddol is.

Menter ar y cyd fydd Rhaglen Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM cryfach a fydd yn arwain hyn ac yn rhoi'r rhaglen ar waith gan fanteisio ar arweiniad ac arbenigedd er mwyn gwireddu'r diwygiadau. Bydd Rhaglen Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn darparu pecyn diwygio integredig i weddnewid gwasanaeth ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd i'r cyhoedd ac i weinyddu cyfiawnder sydd â seilwaith gynaliadwy, fforddiadwy ac addas at y diben i'r dyfodol.

Galluogir y diwygio drwy gyfrwng pecyn buddsoddi untro newydd, a fydd yn werth hyd at £75 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod o bum mlynedd o 2015-16 ymlaen. Rhagwelwn y bydd y newidiadau sylweddol a ddaw yn sgîl y rhaglen hon yn sicrhau arbedion cyson blynyddol sylweddol sy'n fwy na £100 miliwn bob blwyddyn erbyn blwyddyn ariannol 2019-20.

## Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau.

### Sicrhau bod gwelliannau parhaus yn bwrw gwreiddiau

Gweledigaeth tymor hir Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw sicrhau bod gwella parhaus yn bwrw gwreiddiau a'i fod wrth wraidd y ffordd y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rheoli ei waith; gweledigaeth uchelgeisiol a thrawsnewidiol sy'n rhoi'r cwsmer a'i anghenion flaenaf wrth ddarparu a chynllunio gwasanaethau. Mae'r staff wedi gweithio'n galed yn ystod 2013-14 i sbarduno, hyfforddi, a chefnogi eu cydweithwyr wrth iddynt sicrhau diwylliant o wella parhaus sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau.

- Rydym yn parhau i ymgynghori ac i ddatblygu camau sy'n rhoi dymuniadau'r cwsmer flaenaf yn ein gwaith.
- Crëwyd 'Ffordd GLITEM' er mwyn sicrhau bod ein pobl i gyd yn gwireddu gwerthoedd ein sefydliad.
- Mae'r timau barnwrol wedi ymrwymo i ddefnyddio arfau Gwella Parhaus i ddangos eu llif gwaith ac effaith newidiadau ar gwsmeriaid mewn ffordd weledol.
- Hyrwyddwyd 'Rhwydweithiau Dysgu' i ddatblygu a gwella dysgu ynghylch Gwella Parhaus, i wella gallu ein pobl ac i sicrhau bod dysgu'n bwrw gwreiddiau yn y busnes.
- Lansiwyd system sefydliad-cyfan gan y timau barnwrol er mwyn sicrhau bod canlyniadau o safon yn cael eu cyflawni'n gyson i'r cwsmer drwy'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a'r Cardiau Swyddi.
- Mae gennym system gyfathrebu well rhwng Byrddau Gwybodaeth y Timau a Chanolbwyntiau sy'n golygu bod modd trosglwyddo problemau a llwyddiannau i'r lefel briodol.
- Darparwyd pecyn asesu aeddfedrwydd sy'n golygu bod pob un o feysydd y busnes yn gallu asesu aeddfedrwydd y Gwella Parhaus, i bobl annog ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn gwella.

Mae gwireddu'r strategaeth wedi bod yn llwyddiant enfawr ynddo'i hun, ac mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu gweld yn glir sut mae'r systemau a'r ymddygiadau cywir yn dechrau bwrw gwreiddiau ym mhob rhan o'r Asiantaeth er mwyn i bob aelod o'r staff allu ychwanegu gwerth i'r cwsmer yn ei rôl. Yng ngwir ysbryd Gwella Parhaus, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gwerthuso'r cynnydd o hyd, yn erbyn y llinynnau unigol ac ar draws y strategaeth yn ei chyfanrwydd gan sylweddoli bod angen gosod un set glir a chryno o ddisgwyliadau i'r sefydliad ar sail yr hyn y mae'n ei wneud o ran arweinyddiaeth. Ar yr un pryd, mae'r Asiantaeth yn coleddu'n llawn y gwerthoedd gwella parhaus sy'n cael eu cydnabod mewn sefydliadau sydd â diwylliant perfformio da. Yn ystod 2013-14 bu cyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydweithio i ddatblygu set o egwyddorion sy'n cysoni'r hyn y mae'r Asiantaeth yn ei wneud a sut mae'n gwneud hynny er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon uchel i'w defnyddwyr. Cafodd hyn ei lansio ym mis Ionawr 2014 ac fe'i gelwir yn 'Ffordd GLITEM'.

Roedd 2013-14 yn garreg filltir o flwyddyn o ran taith Gwella Parhaus y Sefydliad ond mae 'Ffordd GLITEM' yn nodi cenhedlaeth nesaf gweithgarwch Gwella Parhaus i ni'r sefydliad a hefyd wrth inni hyrwyddo Gwella Parhaus yn y sector cyhoeddus.

**Cysoni ffiniau'r tribiwnlysoedd â strwythur Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn datblygu cynlluniau ar y cyd â Llywyddion y Siambrau i gysoni ffiniau'r tribiwnlysoedd â ffiniau rhanbarthol eraill yn y sefydliad. Bydd cynlluniau cysoni ar gyfer y Siambr Hawliau Cymdeithasol a'r Siambr Eiddo yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2014-15.

**Gwella'r broses yn y llysoedd a'r canolfannau busnes.**

Mae'r Canolfannau Busnes Cenedlaethol wedi dangos gwelliannau ansoddol a meintiol ar draws pob awdurdodaeth yn 2013-14. Mae gwersi a ddysgwyd am agor y post, ffrydiau gwaith sy'n delio â llawer o achosion ac esgusodi rhag talu ffioedd wedi cael eu rhoi ar waith wrth sefydlu'r Ganolfan Cyflwyno Uniongyrchol a'r Cyfleuster Talu Canolog. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi rhannu'r arferion gorau ar draws y canolfannau sydd ar gael eisoes, gan wella amserlennu'r gweithlu, cyflawni gwaith a sut y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyfleu newidiadau a gwelliannau i'r broses. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi symud gwaith cysylltiadau newydd i'r ganolfan gyswllt, gan hyfforddi staff newydd a staff sy'n gweithio yno eisoes er mwyn gwneud y canolfannau'n fwy cydnerth eto. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi

symud 30% olaf y galwadau Nawdd Cymdeithasol o’r ganolfan fusnes bresennol i'r ganolfan gyswllt, gan sicrhau bod yr holl alwadau hynny bellach yn cael eu derbyn yn yr un lle. Mae hyn yn golygu bod modd symleiddio'r drefn a defnyddio llai o adnoddau staff.

### Diwygio ein hystâd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, er mwyn canolbwyntio'r adnoddau ar wasanaethau'r rheng flaen a darparu llwybr at gyfiawnder. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i adolygu ystâd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r gofynion gweithredol.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor y penderfyniad i gau 142 o lysoedd; 93 o lysoedd ynadon a 49 o Lysoedd Sirol. Yn Rhaglen Diwygio Ystâd y Llysoedd, targedwyd llysoedd a oedd yn cael eu tanddefnyddio a lle'r oedd y cyfleusterau'n wael, gan leihau costau cynnal a chadw rheolaidd yn y dyfodol. Mae nifer y llysoedd yn y rhaglen wedi gostwng i 141; bydd Llys Ynadon Bicester yn cael ei gadw ar agor oherwydd newidiadau yn y llwyth gwaith. Hyd yn hyn mae 139 o lysoedd wedi cau (91 o lysoedd ynadon a 48 o Lysoedd Sirol). Nid oes dim diswyddiadau gorfodol wedi bod ac erbyn hyn llwyddwyd i gyrraedd y gostyngiad cyffredinol a gynlluniwyd ar gyfer y rhaglen, sef 215 o swyddi. Mae dros 98% o'r rhaglen yn gyflawn bellach a disgwylir i weddill y llysoedd gau erbyn mis Medi 2014.

Disgwylir i gyfanswm y buddion crynswth cronnus fod yn £145 miliwn dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant: gan gynnwys arbed £97 miliwn ar adnoddau drwy gau llysoedd a sicrhau enillion cyfalaf crynswth gwerth £48 miliwn drwy werthu adeiladau. Erbyn mis Ebrill 2014, gwerthwyd cyfanswm o 59 eiddo gan sicrhau derbyniadau cyfalaf gwerth £41 miliwn.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi parhau i foderneiddio'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd lle bo angen, a chau'r rheini sydd â chyfleusterau annigonol drwy Raglen Diwygio Ystâd y Llysoedd a thrwy integreiddio'n lleol fel rhan o'r strategaeth i wella a chynnal ystâd llysoedd a thribiwnlysoedd gweithredol yng Nghymru a Lloegr.

Cwblhawyd adeiladu Llys Ynadon newydd Casnewydd yn haf 2013 ac agorwyd yr adeilad yn swyddogol gan yr Arglwydd Brif Ustus ym mis Rhagfyr 2013. Yn yr adeilad tri llawr ceir pedair ystafell llys a chyfleusterau modern i'r staff, i'r ynadon ac i'r defnyddwyr.

Er mwyn rhesymoli ystâd Llysoedd Sifil Llundain, y Llysoedd Teulu a'r Tribiwnlysoedd, ac er mwyn bod yn gefn i sefydlu'r Un Llys Teulu, a'r Llysoedd Sirol, mae gwaith adnewyddu cyfalaf a'r gwaith addasu mewnol helaeth wedi'i wneud yn costio £8.6 miliwn yn First Avenue House ac Adeilad Thomas More yn y Llysoedd Barn Brenhinol. Mae hyn wedi golygu bod modd ildio tair les a symud Llys Sirol Canol Llundain i'r Llysoedd Barn Brenhinol. Ar yr amod bod cam terfynol y rhaglen yn Nwyrain Llundain yn cael ei gwblhau, ynghyd â'r buddsoddiad cysylltiedig sy'n werth £6 miliwn arall, bydd pedwerydd eiddo dan lesddaliad hefyd yn mynd yn wag. Bydd y rhaglen waith hon yn sicrhau arbedion gweithredol net gwerth £3 miliwn yn 2014-15 a £5 miliwn o 2015-16 ymlaen. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn braenaru'r tir ar gyfer Modelu Gwybodaeth am Adeiladau, ffordd gydweithredol o weithio sy'n cael ei seilio ar dechnolegau digidol ac sy'n datgloi dulliau mwy effeithlon o gynllunio, creu a chynnal a chadw asedau eiddo. Mae Cyfarwyddiaeth Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i lunio cyfres o fodelau gwybodaeth am adeiladau sy'n cynnig gwell ffordd o adeiladu ystafelloedd rhatach i gynnal gwrandawiadau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ac yn hwyluso dulliau gwell o weithredu. Mae'r dyluniadau sy'n sail i'r modelu wedi cael eu rhoi ar waith wrth adnewyddu Adeilad Thomas More gan arwain at greu ystafell llys ychwanegol y mae cymaint ei hangen. Mae'r modelau gwybodaeth am adeiladau hefyd wedi cael eu rhoi ar waith wrth adnewyddu First Avenue House gan ddarparu gwell cyfleusterau.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i adnabod a phrofi cynlluniau i wella'r ffordd y mae'n defnyddio ystafelloedd gwrandawiadau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'n bwysig defnyddio'r ystâd mewn ffordd effeithlon er mwyn sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i ddarparu gwerth am arian ac yn gallu gweithredu o fewn modd ariannol yr Asiantaeth. Bydd y cynlluniau hyn yn help hefyd i ddeall sut orau mae cyflawni arferion gweithredol yn unol â chynlluniau strategol y dyfodol.

Cafodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gymorth Cyfarwyddiaeth Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth ddechrau datblygu rhaglen fuddsoddi dreigl yn yr ystâd. Bydd hyn yn lleihau risg gweithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn sylweddol, drwy wella'r blaengynllunio a chanolbwyntio ar feysydd allweddol ystâd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Yn ystod 2013-14, rheolwyd oddeutu 161 o brosiectau cysylltiedig â'r ystâd gan Gyfarwyddiaeth Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

### Symud gwaith lle nad oes angen ymyrraeth farnwrol i ganolfannau busnes.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cwblhau cynllun peilot llwyddiannus i gyfeirio'n awtomatig achosion Hawliadau Bychain y Llys Sirol, lle bydd y ddau barti'n dweud eu bod yn barod i gyfryngu, i'r drefn Cyfryngu Hawliadau Bychain. Bydd hyn yn golygu bod llai o angen ymyrraeth farnwrol a dyma'r drefn arferol a roddir ar waith o fis Ebrill 2014 ymlaen. Ar yr un pryd mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi canoli'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu gwasanaeth cyflymach a mwy cyson i ddefnyddwyr y llysoedd. Yn Northampton y gwneir y gwaith gweinyddu ac mae'r holl gyfryngwyr yn gweithio o dan un gadwyn arwain gan barhau i weithio fel rhwydwaith ledled Cymru a Lloegr.

Er mwyn bod yn gefn i'r newidiadau a gyflwynir yn y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn canoli gweinyddu ceisiadau am ardystio Beilïaid o fis Ebrill 2014 ymlaen. Caiff ceisiadau eu prosesu ac fe drefnir dyddiadau rhestru gan staff yn Northampton. Cynhelir gwrandawiadau mewn nifer lai o ganolfannau er mwyn symleiddio'r broses i ddefnyddwyr y llysoedd a sicrhau bod arbenigedd staff y llys yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

### Canolfannau Busnes Cenedlaethol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi parhau i ddatblygu ei ganolfannau busnes, gan weithio'n galed i wella effeithlonrwydd y prosesau yn ogystal â defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i sicrhau bod canolfannau busnes newydd yn cyflawni ar y lefelau a ddisgwylir yn gynharach o lawer.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi llwyddo i sefydlu Canolfannau Cyflwyno Uniongyrchol yn Bradford i wasanaethu Cymru a Lloegr ac yn Glasgow, i wasanaethu'r Alban. Mae'r canolfannau hyn yn golygu bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu cyflawni eu gofynion sy'n codi o Ddeddf Diwygio Lles 2012 lle bydd cwsmeriaid sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud hynny'n uniongyrchol, yn hytrach na thrwy'r Adran fel y byddent gynt. Mae creu'r Ganolfan Cyflwyno Uniongyrchol yn Bradfod wedi golygu bod modd symud cofrestru apeliadau o'r canolfannau rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr i ganolfan brosesu genedlaethol. Yn ogystal â sefydlu'r Canolfannau Cyflwyno Uniongyrchol, gwnaethpwyd newidiadau llwyddiannus i system rheoli achosion GAPS2 er mwyn gallu cyflwyno'r apeliadau hyn yn uniongyrchol, yn ogystal â chyflwyno prosesau newydd. Mae'r canolfannau wedi datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol er mwyn sicrhau bod safon cofrestru a hysbysu'r partïon o safon uchel.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi bod yn gweithio gyda'i gyflenwyr i ddatblygu system ddigidol fodern a diogel i wella gwasanaethau'n sylweddol i ddefnyddwyr sy'n codi hawliadau sifil am arian fesul swmp. Bydd y system newydd, y disgwylir iddi gael ei chyflwyno ym mis Gorffennaf 2014, ar gael i holl ddefnyddwyr presennol y system swmp sydd

ar hyn o bryd yn codi hawliadau drwy Ganolfan Swmp y Llys Sirol yn Northampton ac i unrhyw ddefnyddwyr eraill sy'n dymuno codi swmp o hawliadau drwy ddulliau electronig. Bydd y system newydd yn galluogi cwsmeriaid i drosglwyddo hawliadau'n ddiogel o'u systemau TG eu hunain yn uniongyrchol i system Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bydd yn rhoi'r gallu iddynt hefyd olrhain hynt hawliadau ar lein a bydd hefyd yn eu galluogi i gofnodi dyfarniadau a chodi gwarantau'n electronig.

### Gwerthuso ystod o wahanol fodelau ar gyfer casglu dirwyon troseddol

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i edrych ar ffyrdd o gynyddu casglu dirwyon troseddol a gwella cydymffurfiaeth a gorfodaeth. Ym mis Gorffennaf 2013, dechreuodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM broses gaffael i ganfod darparwr allanol i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar ei ran. Erbyn diwedd 2014, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhagweld y bydd wedi dewis y bidiwr a ffefrir i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys yr holl weithgarwch cydymffurfio a gorfodi gyda golwg ar gosbau ariannol troseddol. Byddai hyn yn golygu bod y buddsoddiad a'r dechnoleg angenrheidiol ar gael er mwyn cyflawni'r uchelgais o sicrhau gwasanaeth symlach a mwy effeithlon yn y dyfodol. Disgwylir i'r prosiect sicrhau manteision drwy gynhyrchu mwy o refeniw yn sgîl gorfodaeth fwy effeithiol, llai o gostau o ran adnoddau yn sgîl trefn weinyddu a gorfodi fwy effeithlon, a chryfhau'r ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol drwy gasglu cosbau ariannol yn llwyddiannus.

### Integreiddio awdurdodaethau newydd mewn strwythur tribiwnlysoedd dwy haen

Cyflwynwyd cyfanswm o 17 o hawliau apelio newydd yn 2013-14 a rhagwelir 25 arall yn 2014-15. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi cytuno ar drefniadau ariannu rhwng yr adran llunio polisïau a'r Asiantaeth.

### Addasu'r capasiti i gyfateb â'r galw

Effeithiwyd ar nod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer arbed arian ym maes Mewnfudo a Lloches yn 2013-14 yn sgîl cynnydd annisgwyl yn y llwyth gwaith, cynnydd o oddeutu 40,000 o apeliadau. Roedd gofyn cael staff, ystafelloedd gwrando ac eisteddiadau barnwrol ychwanegol i ymdrin â'r apeliadau ychwanegol. Rydym wedi gweithio'n glos gyda'r farnwriaeth a'r Swyddfa Gartref er mwyn canfod a sefydlu ffyrdd newydd o weithio er mwyn clirio'r llwythi gwaith ychwanegol hyn cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn dal i ddefnyddio'r ystâd gwrandawiadau yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan ddefnyddio llysoedd a thribiwnlysoedd lle bo gofyn, symud gwaith allan o'r rhanbarthau lle mae'r capasiti o dan y pwysau mwyaf, yn ogystal â datrys apeliadau'n gyflym drwy osgoi oedi.

Mae capasiti'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant wedi parhau i gynyddu eleni. Mae twf sylweddol wedi bod yn y capasiti i gynnal gwrandawiadau drwy wella'r ffordd y defnyddir lleoliadau ar draws ystâd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, llogi ystafelloedd ychwanegol lle mae'r capasiti'n brin yn yr ystâd bresennol a chynyddu nifer y sesiynau a gynhelir ar y Sadwrn. Hefyd, recriwtiwyd dros 250 o aelodau meddygol cymwys yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng proses recriwtio gyflymach er mwyn diwallu'r galw lle'r oedd gofyn i'r panel apêl gynnwys aelod meddygol.

### Defnyddio technoleg yn effeithiol

Roedd y flaenoriaeth a roddid i ddarparu gwasanaeth fideo ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn dal i ganolbwyntio ar ddefnyddio mwy ar gysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys. Yr uchelgais oedd cynyddu'r math hwn o ddefnydd at lefel meincnod perfformiad cenedlaethol y cytunwyd arno, sef 35% ar draws llys y Goron a'r llysoedd ynadon erbyn mis Ebrill 2014.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ill dau yn dal i weithio gyda'r gymuned amddiffyn i sicrhau bod slotiau fideo mewn

bythau ar gael iddynt yn adeiladau'r llysoedd er mwyn arbed amser a chostau teithio wrth gynnal trafodaethau rheoli achosion.

Ar hyn o bryd, mae gan 90% o'r llysoedd ynadon a phob un o safleoedd Llys y Goron gysylltiad fideo i'w ddefnyddio rhwng y carchardai a'r llysoedd ac ar gyfer tystion agored i niwed neu rai sydd wedi'u bygwth. Yn ogystal â'r gwaith ar gysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys, llwyddwyd i wella pethau hefyd o ran cysylltiadau fideo â'r heddlu. Mae swydd yr arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer fideo yn golygu bod uwch bwynt cyswllt ar gael ar gyfer Rhaglen Effeithlonrwydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol ac arweinyddiaeth gryfach i'r heddluoedd ac ystyried bod technoleg fideo'n cael ei defnyddio fwyfwy. Mae pwyntiau cyswllt unigol wedi'u sefydlu i arwain ym maes fideo ledled heddluoedd Cymru a Lloegr.

Gwelwyd cynnydd calonogol yn nifer yn nifer yr heddluoedd sy'n defnyddio offer fideo a 21 o ardaloedd bellach yn defnyddio cysylltiadau fideo i dystion yr heddlu. Mae tri heddlu newydd wedi dechrau defnyddio'r drefn yn ystod 2013-14 a disgwylir i ddau heddlu arall ymuno yn y dyfodol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i ddefnyddio technoleg cysylltiad fideo mewn gwrandawiadau mechnïaeth ac fe hwyluswyd gweithdy ar 11 Hydref 2013 yn cynnwys y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, y farnwriaeth a grwpiau o gynrychiolwyr i drafod ffyrdd o fynd i'r afael â phryderon a gwella'r system bresennol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, ar y cyd â'r farnwriaeth, y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn ystyried sut y gellid ymestyn technoleg fideo i rai mathau o apeliadau, gan gynnwys gwrandawiadau apêl achosion allgludo troseddwyr sy'n frodorion tramor.

Dechreuwyd darlledu yn y Llys Apêl yn y Llysoedd Barn Brenhinol ar 31 Hydref 2013 a bu'r staff yn gweithio gyda'r farnwriaeth a darlledwyr i ymestyn y gwasanaeth yn llwyddiannus i'r Llys Apêl a oedd yn eistedd yn Llys y Goron Nottingham ar 29 Tachwedd 2013. Mae'r staff wedi datblygu canllawiau cyffredinol a bydd y rhain a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â llysoedd eraill Llys y Goron sy'n debygol o ymwneud â hyn yn y dyfodol. Mae'r cynnydd a'r dylanwad yn cael eu monitro gan grŵp protocolau a grŵp dan arweiniad y farnwriaeth.

### Rhaglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol

Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol, Damian Green, y byddai'r llywodraeth yn buddsoddi £44 miliwn yn Rhaglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn gwireddu'r 'llys digidol' drwy gyfrwng nifer o elfennau technoleg galluogol. Mae'r rhain yn cynnwys: system ddiwifr i ddefnyddwyr proffesiynol yn y llysoedd; hwyluso cyflwyniadau digidol yn y llysoedd ynadon; dull o sicrhau bod modd i'r Fainc Leyg weithio'n ddigidol yn ystod achosion; a storfa ddigidol effeithiol ar gyfer rheoli achosion.

Mae pethau wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth brofi'r systemau, sefydlwyd pa fudd a ddeilliai ohonynt a llunio achosion busnes cryf. Mae trefn lywodraethu Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet wedi clirio'r rhain ac maent wrthi'n mynd drwy wahanol gamau rhagweithredu. Mae'r rhaglen yn gwerthuso tendrau ar gyfer cyflenwi System Ddi-wifr i Ddefnyddwyr Proffesiynol y Llysoedd gyda golwg ar ddethol y bidiwr a ffefrir a pharatoi contractau i roi'r gwasanaeth ar waith o ddiwedd 2014 ymlaen. Mae contract wedi'i osod i gyflenwi offer galluogol er mwyn i'r erlyniad a'r amddiffyniad allu cyflwyno deunydd a thystiolaeth achosion drwy ddulliau digidol yn y llysoedd ynadon, ac fe ledaenir y drefn hon erbyn Hydref 2015.

Mae'r storfa ddigidol ar gyfer rheoli achosion wrthi'n cael ei datblygu gyda golwg ar ei rhoi ar waith erbyn haf 2015. Mae datrysiad a fydd yn caniatáu i ynadon gael gafael ar ddeunydd achosion ar ffurf ddigidol wrthi'n cael ei ddatblygu.

Mae'r gwaith ar ddatrysiad ar gyfer gwaith digidol yn yr achosion mwy cymhleth a wrandewir yn Llys y Goron yn mynd rhagddo ac fe gymeradwywyd achos busnes amlinellol gan Fwrdd Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol ym mis Mawrth 2014.

Bu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gynt) i wireddu 'Troseddau Ar lein' - ceisiadau digidol am gymorth troseddol mewn achosion troseddol. Os nad oes angen tystiolaeth gefnogol ar gyfer cais, gellir bellach ei gyflwyno ar lein yn Rhanbarth y Gogledd-ddwyrain Lloegr ac Essex. Mae'r cam cyntaf hwn i ddigideiddio'r broses cymorth cyfreithiol o'r naill ben i'r llall wedi cael ei ddatblygu rhagor, gan gynnwys gwaith i ymestyn cwmpas Troseddau Ar lein ac i gysylltu system TG yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol â system TG Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2014-15.

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud ar drosglwyddiadau swmp i ddefnyddwyr sifil a cheisiadau am warantau a dyfarniadau hefyd yn defnyddio systemau electronig a digidol.

### Cynnal a chadw a gwella'r systemau rheoli achosion presennol.

Mae prosiect Ffioedd y Tribiwnlys Cyflogaeth a phrosiect gweithredu Cyflwyno Uniongyrchol wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes TG ac yn y maes gweithredol i wella'r systemau rheoli achosion presennol, gan greu cyfleuster newydd sydd wedi galluogi a chefnogi'r gwaith a wneir yn y swyddfeydd prosesu canolog a'r gwaith gweinyddol sy'n deillio ohonynt.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Adran Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a chyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i archwilio opsiynau naill ai ar gyfer gwella neu adleoli Hawliadau Eiddo Ar lein a Hawliadau Arian Ar Lein. Dyma un o brosiectau digidol y Weinyddiaeth sy'n esiampl i eraill ac mae'n rhan o agenda 'digidol yn bennaf' y llywodraeth. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi canolbwyntio'i ymdrechion cychwynnol ar ddigideiddio'r mathau hynny o hawliadau nad oes modd eu codi drwy ddefnyddio ein systemau ar-lein presennol ac ar gynllunio pen blaen y system yn well ar gyfer cyflwyno hawliadau eiddo. Bydd y gyntaf o'r ffurflenni newydd yn golygu bod modd prosesu achosion meddiant a gychwynnir gan landlordiaid cymdeithasol drwy ddulliau digidol. Bydd hon yn cael ei threialu yng ngwanwyn 2014 ac wedyn, bydd cwmpas y system yn cael ei ehangu yn ystod 2014-15.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi bod yn gweithio gyda chyflenwyr i ddatblygu system talu newydd ar gyfrif a disgwylir i hon gael ei chyflwyno ym mis Medi 2014. Bydd y system newydd yn golygu y bydd defnyddwyr y llysoedd sy'n cychwyn nifer o brosesau drwy'r llys sifil a'r llys teulu yn gallu talu eu ffioedd llys drwy ddefnyddio cyfrif credyd. Bydd y datblygiad hwn yn golygu llai o ddefnydd o lawer ar sieciau gan arwain at arbedion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac i'w ddefnyddwyr.

### Symud at adennill costau llawn

Ymrwymiad y llywodraeth oedd y cyflwynid trefn codi ffioedd i'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth erbyn haf 2013. Roedd amserlen a chwmpas y prosiect yn heriol iawn ond diolch i ymroddiad a gwaith caled staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i wireddu'r newidiadau angenrheidiol, llwyddwyd i gadw'r ymrwymiad hwn. Daeth y gorchymyn Ffioedd i rym ddydd Llun 29 Gorffennaf 2013. Dechreuodd y ddwy ganolfan Prosesu Canolog yng Nghymru a Lloegr, ac yn yr Alban, dderbyn ffioedd ar lein a thrwy'r post, ar gyfer hawliadau newydd i'r Tribiwnlys Cyflogaeth ac apeliadau i'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar y trethdalwr i gyfrannu at gost lawn y tribiwnlys. Mae adennill rhai o gostau'r tribiwnlys yn cyfrannu at y gofyniad cyffredinol i arbed arian sydd ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder bellach wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu'r drefn ar lein ar gyfer cyflwyno a thalu Ffioedd Cyflogaeth er mwyn sicrhau statws Esiampl Ddigidol erbyn mis Ebrill 2015. Dangosir ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a gofnodwyd yn ystod 2013-14 yn nodyn 5.2 y Cyfrifon.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn dal i weithio tuag at yr amcanion polisi a'r amcanion ariannol, sef bod busnes sifil yn adennill costau llawn y prosesau dan sylw llai cost ariannu'r ffioedd sy'n cael eu dileu.

**Annog setlo'n gynnar**

Gosodwyd Offerynnau Statudol i roi trefn Cymodi Cynnar ar waith gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2014, a daeth y broses newydd i rym ar 6 Ebrill. Bydd rhoi'r drefn Cymodi Cynnar ar waith yn gam pwysig wrth i'r llywodraeth ddiwygio'r system datrys anghydfodau cyflogaeth o'r naill ben i'r llall. Bydd hyn yn help i sicrhau mai dim ond pan fydd pethau wedi mynd i'r pen y bydd gweithwyr a busnesau'n mynd i gyfreitha'n ffurfiol. Disgwylir i'r diwygiadau fod o fudd i fusnesau, gweithwyr sy'n hawlio a'r Trysorlys, ac mae'n ategu'r diwygio ehangach sydd wrthi'n bwrw gwreiddiau yn system y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth.

## Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder i wella perfformiad.

**Sifil a theulu**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gweithio'n glos gyda'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i ddeall yn well y materion sy'n berthnasol i orfodi dyfarniadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth sydd heb eu talu. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r Gwasanaeth Ansolfedd i ddatblygu cynlluniau i ddiwygio proses deiseb y dyledwyr, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd yn 2013 ac mae'n bwriadu rhoi gwelliannau ar waith yn 2015-16. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i gynghori a chefnogi'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r Gorchymyn Taliadau Incwm ynglŷn â sefydlu Llys Patentau Unedig Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

**Archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno ceisiadau cyfraith deulu breifat ar lein.**

Cwblhawyd gwaith i sefydlu pa mor ymarferol fyddai cyflwyno ceisiadau cyfraith deulu breifat ar lein a bellach, cytunwyd ar y dull a ffefrir. Mae blaenoriaethau newid eraill wedi golygu nad oedd modd ymrwymo adnoddau prosiect i'r cynllun yn 2013-14, ond mae'r datrysiad yn dal yn rhan allweddol o gynlluniau digidol yr asiantaeth.

## Tribiwnlysoedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cyflwyno rhannu bwndeli electronig rhwng y Swyddfa Gartref a'r Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo er mwyn helpu i leihau oedi.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i gyflwyno dull newydd o dderbyn bwndeli tramor o rai mannau sydd wedi cwtogi'r amserlen yn sylweddol gan arwain at gynhyrchu 100% o'r bwndeli o fewn yr amserlenni a bennir gan y farnwriaeth.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cyflwyno cynllun peilot gyda'r swyddfa gartref i brofi dull 'brysbennu' ar gyfer apeliadau mudo dan reolaeth. Mae hyn yn golygu gofyn i apelyddion roi eu bwndel tystiolaeth llawn i'r Swyddfa Gartref cyn gwrandawiad apêl er mwyn iddi ystyried y dystiolaeth honno a thynnu'r apêl yn ôl os yw hynny'n briodol cyn i'r achos gael gwrandawiad. Mae hyn yn golygu llai o apeliadau diangen ac mae'n arwain at ganlyniad cyflymach i'r partïon dan sylw. Mae hefyd yn rhyddhau rhagor o gapasiti yn y tribiwnlys i wrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Swyddfa Gartref y mae'n dymuno'u hamddiffyn.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i weithio gyda'r Swyddfa Gartref yn 2014 i gyflwyno rhagor o welliannau gan gynnwys; gweithio i ehangu rhannu bwndeli electronig i fathau eraill o apeliadau, gwella eto amserlenni'r Swyddfa Gartref i gynhyrchu'r bwndeli tramor ac ymestyn y 'brysbennu' i fathau eraill o apeliadau.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cydweithio â'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Acas a defnyddwyr y system i gynllunio'r model gweithredu newydd ar gyfer Cymodi Cynnar. Rhoddwyd y diwygiadau ar waith ar 6 Ebrill 2014, ac o hynny ymlaen, (oni chaiff ei

eithrio), bydd yn rhaid i ddarpar hawlydd ymgysylltu ag Acas cyn cyflwyno hawliad i dribiwnlys. Disgwylir y bydd hyn yn help i weithwyr a chyflogwyr ddatrys eu hanghydfodau heb fynd i gyfreitha'n ffurfiol, ond bod system y tribiwnlysoedd ar gael ac yn cael ei defnyddio dim ond yn yr achosion hynny lle bydd ei hangen.

Rydym wedi parhau i weithio'n glos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i roi diwygiadau lles y llywodraeth ar waith. Roedd cyflwyno'n llwyddiannus y drefn Uniongyrchol i Gyflwyno apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal plant yn erbyn budd-daliadau a weinyddir gan yr Adran Gwaith a phensiynau yn 2013 yn rhan o Raglen Diwygio Lles yr Adran honno. Felly, bu'r prosiect a oedd yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn gweithio ar draws Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau i roi prosesau busnes effeithiol ac effeithlon ar waith ynghyd â systemau i'w cefnogi.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda'r Adran  Gwaith a Phensiynau i wella ansawdd y penderfyniadau gwreiddiol. Yn ogystal â chyflwyno proses ailystyried orfodol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn i hawlydd allu cyflwyno apêl gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae'r tribiwnlys wrthi'n cyflwyno fesul cam baragraff cryno o'r rhesymau ym mhob achos, er mwyn rhoi adborth i bobl am y rhesymau dros newid penderfyniadau.

## Troseddu

Mae swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cynnal cyfarfodydd chwarterol o'r Cyd-Fwrdd Gwella Cenedlaethol â Gwasanaeth Erlyn y Goron, gyda'r nod o gydweithio er mwyn gwella perfformiad y ddau sefydliad. Mae'r Cyd-Fwrdd Gwella Cenedlaethol wedi sefydlu pecyn rheoli perfformiad ar y cyd i fonitro'r cynnydd mewn meysydd sydd o ddiddordeb strategol, ac mae'n gweithredu fel fforwm cenedlaethol i rannu arferion da, gan nodi meysydd sy'n destun pryder ynghylch perfformiad a datblygu dulliau o ddatrys hyn gyda chydweithwyr ar y rheng flaen.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi rhoi Atodlen 3 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar waith sy'n diddymu'r broses draddodi yn y llys ynadon yn unol â'r cynlluniau. Daeth y gorchymyn cychwyn terfynol i rym ar 28 Mai 2013. Nid yw'r broses traddodi ar gyfer treial yn rhan o broses y llys troseddol rhagor, sy'n arbed adnoddau i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Dan arweiniad y farnwriaeth, lansiwyd y Cynllun Pledio'n Euog yn Gynnar a'r cynllun rheoli achosion ledled Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2013 a rhoddwyd cymorth i ardaloedd symud rhagor o achosion drwy'r cynllun. Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol wrthi'n ystyried rhagor o gynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynllun  hwn yn 2014.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cydweithio'n glos â'r farnwriaeth a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i ddatblygu cynigion i wella hynt achosion drwy'r llysoedd ynadon. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi cytuno ar y cynigion hyn ac fe'u rhoddir ar waith yn 2014.

Rydym wedi cyhoeddi protocol ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn sicrhau bod achosion lle cyfyngir ar y cyfnod cadw dan glo yn cael ei reoli'n effeithiol. Rydym hefyd wedi datblygu protocol gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ynghylch dod â diffynyddion risg uchel i'r llysoedd a'r bwriad yw rhoi hwn ar waith yn 2014.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi bod yn ystyried, ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron, y cyfleoedd sydd i rannu data'n fwy effeithlon ac effeithiol, rheoli'r llif gwaith a chofnodi canlyniad gwrandawiadau achosion. Bydd hyn yn arbed costau, yn gwella arferion gweithio effeithlon ac effeithiol ac yn gefn i fodel gweithredu targed a diwygio ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Drwy gydweithio â phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i ystyried sut mae'r system yn ymdrin ag achosion traffig, datblygwyd model arferion gorau sy'n defnyddio dull mwy cymesur i leihau biwrocratiaeth a sicrhau cyfiawnder yn gyflymach lle bydd yr heddlu'n erlyn achosion penodedig (yn enwedig achosion traffig lefel-isel). Mae llysoedd traffig dynodedig wedi'u sefydlu'n llwyddiannus bellach mewn 30 o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Mae llysoedd traffig dynodedig yn golygu bod modd ymdrin â throseddau traffig lefel-isel, megis goryrru, troseddau sy'n gysylltiedig â goleuadau traffig ac â dogfennau, mewn un llys ynadon lleol. Mae modd delio â hyd at 100 o achosion mewn un sesiwn, sy'n golygu llai o oedi diangen ac yn golygu bod llysoedd ynadon lleol yn gallu canolbwyntio ar droseddau mwy difrifol.

## Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth ac i Reolau'r Weithdrefn.

### Adolygu Cyfiawnder Teulu

Gan ymateb i'r Adolygiad o Gyfiawnder Teulu, buom yn gweithio i sicrhau bod yr un Llys Teulu'n cael ei roi ar waith yn hwylus ym mis Ebrill 2014. Roedd hwn yn un o ymrwymiadau allweddol y llywodraeth. Sicrhawyd hefyd bod y diwygiadau yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 yn bwrw gwreiddiau yn systemau a phrosesau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi sefydlu prosiect i benderfynu ar y newidiadau busnes mwyaf effeithiol a'u rhoi ar waith er mwyn creu un Llys Teulu yn unol â'r ddeddfwriaeth. Dyma rai o'r amcanion:

- sicrhau bod systemau cymorth y llys (TG a busnes) yn gefn i reoli un awdurdodaeth ac yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl y newid
- rhesymoli'r pwyntiau mynediad ar gyfer gwaith teulu ac wedyn rheoli'r broses o benderfynu pa leoliad a pha haen o'r farnwriaeth sydd fwyaf priodol ar gyfer y gwrandawiad er mwyn i'r llys weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, a helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn hwylus
- sicrhau bod modd canoli gwaith yn y dyfodol, o fewn y cyfleoedd y mae un awdurdodaeth yn eu cynnig
- sicrhau bod manylion ymarferol y llysoedd newydd (seliau, arwyddion, cyfathrebu ac ati) yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol
- sicrhau bod yr elfennau dibynnol eraill y bydd gofyn i eraill eu darparu'n cael eu rheoli'n briodol, a
- sicrhau bod yr Un Llys Teulu yn gweithio'n unol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, er mwyn i ddiwygiadau i'r ffordd y rheolir achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat (er enghraifft y terfyn amser 26 wythnos) yn bwrw gwreiddiau'n llwyddiannus.

Gwnaeth yr Adolygiad argymhellion a fyddai'n sicrhau y byddai'r system cyfiawnder teulu'n gweithio'n well i deuluoedd ac yn rhoi anghenion plant yn gyntaf bob amser. Mae'r staff a'r farnwriaeth wedi cydweithio ac wedi ymroi'n llwyr i ddatblygu strwythurau lleol priodol ar gyfer achosion teulu - strwythurau sy'n manteisio ar y budd sy'n deillio o gael un awdurdodaeth teulu, gweinyddiaeth ganolog a threfn fwy cyson ar gyfer dyrannu achosion, gan sicrhau ar yr un pryd bod drws cyfiawnder ar agor i bobl a bod lleoliadau lleol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwrandawiadau. Cyhoeddwyd glasbrint cenedlaethol ar gyfer y llys, ynghyd â model gweithredu ac fe'i cyhoeddwyd yn gynnar yn y flwyddyn. Yna, cytunodd Barnwyr Teulu Dynodedig lleol ar gynlluniau lleol ar gyfer pob ardal. Uwchraddiodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ei systemau TG i fod yn gefn i'r llys newydd gan gydweithio'n glos â Llywydd yr Adran Deulu a Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Deulu er mwyn gwella'r rheolau a'r ddeddfwriaeth ategol. Golygai hyn fod y sefydliad mewn sefyllfa dda i sicrhau cyfnod pontio hwylus i'r Llys Teulu ym mis Ebrill 2014. Buom yn gweithio hefyd â'r farnwriaeth deulu ac â Phwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Deulu i lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus newydd (PLO 2014) ar gyfer

achosion gofal a goruchwylio, a'r Rhaglen Trefniadau Plant ar gyfer achosion cyfraith breifat. Lansiwyd y ddau ar 22 Ebrill 2014.

### Diwygiadau cyfiawnder sifil

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi rhoi diwygiadau'r Arglwydd Ustus Jackson ar waith yn llwyddiannus i gostau ac ariannu cyfreitha sifil. Mae hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r weithdrefn sifil. Pasiwyd y ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno'r newidiadau hyn, Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, ym mis Mai 2012 ac fe ddaeth y rhan fwyaf o'r darpariaethau perthnasol i rym ar 1 Ebrill 2013.

Yn ystod yr ymgynghori ym mis Mawrth 2011, cynigiwyd nifer o ddiwygiadau i'r system cyfiawnder sifil, gan gynnwys argymhellion gan yr Arglwydd Ustus Brooke. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2012. Roedd yn arwydd o fwriad y llywodraeth i sefydlu Un Llys Sirol i Gymru a Lloegr. Fe'i cyflwynwyd ym mis Ebrill 2014 ochr yn ochr â chreu'r un Llys Teulu y soniwyd amdano uchod. Dilëwyd awdurdodaethau daearyddol y Llysoedd Sirol gan roi mwy o ddewis i ddefnyddwyr y llysoedd ynglŷn â lleoliad cychwyn eu hawliadau a mwy o hyblygrwydd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o ran gallu rheoli ei adnoddau gweinyddol a gorfodi.

Mae diwygiad arall wedi'i gyflwyno ochr yn ochr â'r newid hwn, sef trosglwyddo awdurdodaethau arbenigol i farnwyr, yn hytrach nag i'r Llysoedd Sirol unigol, sy'n golygu bod modd bod yn fwy hyblyg wrth restru a defnyddio adnoddau barnwrol yn fwy effeithlon.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi rhoi tri diwygiad arall ar waith o blith 'Diwygiadau Brooke' i ail-dafoli’r ffiniau’r awdurdodaethau rhwng yr Uchel Lys a'r Llys Sirol, a hynny'n benodol er mwyn cynyddu terfyn ariannol awdurdodaeth ecwiti'r Llys Sirol o £30,000 i £350,000; cynyddu'r terfyn ariannol ar gyfer cychwyn achosion yn yr Uchel Lys o £25,000 i £100,0000 (ac eithrio hawliadau am anafiadau personol ac achosion ecwiti); ac estyn y pŵer i godi gorchmynion rhewi i farnwyr cylchdaith y Llys Sirol.

Ar yr un pryd, rhoddir darpariaethau'r Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth ar waith i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith sy'n llywodraethu gweithgareddau'r asiantau gorfodi wrth ysgwyddo rheolaeth dros nwyddau a'u gwerthu. Rhan o hyn oedd cyflwyno meini prawf newydd ar gyfer beilïaid ardystiedig, yn ogystal â chanoli eu proses ymgeisio fel y disgrifir uchod.

### Cyfiawnder troseddol

Cyfrannodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM at ddatblygu adrannau 3 ac 14 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2012. Mae'r darpariaethau hyn yn pennu am faint y caiff yr heddlu gadw gwybodaeth fiometrig (DNA a samplau eraill) ac maent yn caniatáu i bobl wneud ceisiadau i'r llysoedd ynadon am orchymyn llys i gadw'r wybodaeth am gyfnod hwy nag a ganiateid fel arall. Darparodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ganllawiau ynghylch prosesau a ffurflenni i'w defnyddio, a hwyluso'r cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r llysoedd lleol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i ddarparu gwybodaeth am y goblygiadau i'r Asiantaeth yn sgîl newidiadau i bwerau mynediad ar ôl cyflwyno Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn dal i gefnogi'r agenda diwygio cyfiawnder troseddol ehangach i weithredu'r darpariaethau sy'n weddill yn Neddf Cymorth Cyfreithiol a Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ac mae'n parhau i gyfrannu at ddatblygu darpariaethau Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gyda golwg ar bwerau mynediad ar ffurf Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Mae Adran 28 o'r Ddeddf Tystiolaeth Droseddol Cyfiawnder Ieuenctid yn dweud, lle y bydd recordiad fideo yn cael ei dderbyn yn brif dystiolaeth, y ceir hefyd recordio unrhyw groesholi neu ail-ymholi a'i dderbyn yn dystiolaeth. Mae hyn yn golygu y gallai tystion o dan 16 oed neu oedolion ag anawsterau cyfathrebu difrifol neu gyflyrau dirywiol recordio'u croesholi cyn y treial

heb orfod dioddef y straen o fod yn bresennol yn y treial. Mae Adran 28 o Ddeddf 1999 yn cael ei dreialu am chwe mis o fis Rhagfyr 2013 ymlaen yng nghanolfannau Llys y Goron yn Kingston-Upon-Thames, Leeds a Lerpwl.

### Tribiwnlysoedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cyflwyno prosesau, hyfforddiant a chanllawiau newydd ar ôl dileu'r hawliau i apelio yng nghyswllt fisa ymweliad llawn i deulu o dan y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a chyhoeddi ymateb ym mis Mawrth 2013 am ddileu ffioedd ar gyfer apelio ar ôl cael gwared ar gymorth cyfreithiol. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi canllawiau mwy manwl am sut i ddefnyddio'r cynllun dileu ffioedd.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar adolygu'r ffioedd apelio ond mae oedi wedi bod tra bo goblygiadau Bil Mewnfudo'r Swyddfa Gartref a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael eu hystyried.

Bu Pwyllgor Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd yn ymgynghori ynglŷn â'r Rheolau Gweithdrefnol newydd ym mis Ebrill 2013 gan ofyn am ymatebion ym mis Gorffennaf 2013. Ers hynny, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ystyried yr ymatebion a ffurfio set derfynol o Reolau diwygiedig. Dylai'r rhain gael eu rhoi ar waith yn hydref 2014.

Ochr yn ochr â chodi ffioedd ar draws system y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi rhoi'r Rheolau Gweithdrefnol newydd ar waith. Cytunodd y Senedd ar hyn ar ôl yr adolygiad annibynnol a arweiniwyd gan Mr Ustus Underhill (fel yr oedd ar y pryd). Mae'r Rheolau newydd, sy'n codeiddio argymhellion yr adolygiad a lywiwyd gan farnwr, yn symleiddio'r broses ac yn cynyddu pwerau'r farnwriaeth i reoli achosion sy'n golygu bod y system yn gallu gweithio'n fwy hyblyg, effeithiol ac effeithlon. Roedd y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael ei gynrychioli ar weithgor Syr Nicholas Underhill, ac roedd hyn yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r Rheolau newydd yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2013.

## Ein sefyllfa ariannol

Adroddiad strategol yw'r adran hon, fel sy'n ofynnol yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2013-14 (FReM).

### Sylwebaeth reoli

Mae Cyfrifon Blynyddol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer 2013-14 ar dudalennau 68 - 119. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 20 Rhagfyr 2013 o dan adran 7(20) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Weithredol. Awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 23 Mehefin 2014.

### Perfformiad ariannol cyffredinol

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar roi strwythurau rheoli a chyflawni symlach ar waith ac mae hynny wedi ein galluogi i wireddu ein prif flaenoriaethau busnes gan barhau i leihau ein costau gweithredu o £1,325 miliwn y 2012-13 i £1,229 miliwn yn 2013-14. Mae'r costau gweinyddu yn 2013-14 wedi gostwng £11 miliwn o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae costau staff a'r rhaglen farnwrol wedi gostwng £18 miliwn o'u cymharu ag yn 2012-13. Rydym hefyd wedi cynhyrchu lefelau incwm uwch gan gofnodi cynnydd o £42 miliwn yn 2013-14.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein tri phrif gategori o gostau isod.

### Costau'r staff a'r farnwriaeth

Gwelwyd gostyngiad yn nifer gyfartalog y staff parhaol, cyfwerth ag amser llawn, am y drydedd flwyddyn yn olynol; roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyflogi 17,829 o staff yn 2013-14 o'i gymharu â 19,704 yn 2011-12. Mae cyfanswm costau'r staff a'r farnwriaeth wedi gostwng £18 miliwn i £995 miliwn yn 2013-14 o'u cymharu â £1,013 miliwn yn 2012

### Costau gweithredu eraill

Mae costau gweithredu eraill wedi cynyddu o £463 miliwn i £556 miliwn, cynnydd o £93 miliwn. Mae mwyafrif y cynnydd i'w briodoli i gynnydd yng nghostau gwasanaethau TG, sef £75 miliwn. Yn y gorffennol, cofnodwyd costau Gwasanaethau TG a oedd y daladwy i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gost dybiannol neu'n gost nad oedd yn arian parod. Serch hynny, penderfynwyd yn 2013-14 y dylid cofnodi costau gwasanaethau TG a ysgwyddid gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gost arian parod.

### Costau nad ydynt yn arian parod

Mae costau nad ydynt yn arian parod wedi gostwng £111 miliwn yn 2013-14 o'u cymharu ag yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fel y nodwyd uchod mae'r gostyngiad i'w briodoli i ail-gategoreiddio costau gwasanaethau TG a pheidio â'u hystyried yn gostau nad ydynt yn arian parod a'u gwrthbwyso â symudiadau yng ngwerth eiddo ac offer.

### Incwm

Mae cynnydd o £42 miliwn wedi bod yn yr incwm a gofnodwyd yn 2013-14 o'i gymharu ag yn 2012-13. Cynnydd o £30 miliwn mewn incwm ffioedd sy'n gyfrifol am hyn yn ogystal ag adenillion gan adrannau eraill y llywodraeth gwerth £12 miliwn. Mae'r cynnydd o ran incwm ffioedd i'w briodoli i gynnydd mewn gweithgarwch ynghyd â chyflwyno ffioedd ar gyfer gwrandawiadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

### Asedau anghyfredol

Mae cyfanswm gwerth yr asedau anghyfredol wedi cynyddu £128 miliwn a hynny'n bennaf oherwydd bod gwerth eiddo ac offer sydd ym meddiant Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cynyddu £132 miliwn. Mae gwerth yr eiddo a'r offer wedi cynyddu oherwydd bod gwerth ein hasedau, yn ôl y prisiad, wedi cynyddu £103 miliwn, a hefyd bod ychwanegiadau a throsglwyddiadau i mewn wedi bod sy'n werth £84 miliwn wedi'i wrthbwyso gan ddibrisiant a lleihad mewn gwerth.

### Pensiynau

Gellir gweld manylion am sut yr ymdrinnir â chostau a rhwymedigaethau yn nodyn 1 y Cyfrifon, ac fe roddir rhagor o wybodaeth am bensiynau yn nodyn 3 ac yn yr Adroddiad am Daliadau.

## Busnes hyfyw

Ariennir rhwymedigaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a thrwy ddefnyddio incwm y dyfodol, y ddau i gael eu cymeradwyo gan y Senedd bob blwyddyn. Nid oes rheswm dros gredu na cheir cymeradwyaeth o'r fath yn y dyfodol ac na chaiff gweithgareddau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eu hariannu mewn cyfnodau ariannol yn y dyfodol. Felly, tybiwyd ei bod yn briodol inni baratoi'r datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw.

## Rhoddion elusennol

Rhoddodd yr Asiantaeth gyfanswm o £15,000 o gyfraniadau elusennol yn 2013-14 (2012-2013: £65,000). Cyfrannwyd y rhoddion hyn i gyrff elusennol i gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yr Asiantaeth.

## Taliadau

Polisi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw talu i gyflenwyr cyn pen pum niwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys yn y cyfeiriad bilio cywir.

Ar gyfer 2013-14, talwyd 87.4% o'r anfonebau o fewn y telerau hyn o'u cymharu â'r targed traws-lywodraeth, sef 80% (2012-13: 86.5% o'i gymharu â'r targed, 80%).

## Strwythur cyfalaf

Roedd asedau net Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael eu cynrychioli'n llwyr gan ecwiti trethdalwyr, yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn fel y manylir yn eu cylch yn y Datganiad am Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.

## Archwilydd

Mae'r Cyfrifon, sef y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r Datganiad am Lifau Arian Parod wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Y tâl i'r archwilydd am archwilio Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14 oedd £0.35 miliwn (2012-13: £0.34 miliwn). Ni chyflawnwyd gwaith nad oedd yn waith archwilio yn 2013-124 nac yn 2012-13.

## Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi wynebu heriau a risgiau o ran cyflawni ei amcanion busnes fel y'u nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu. Mae strategaeth fanwl ar gyfer rheoli risgiau wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn yng nghyswllt pob un o'r risgiau hyn er mwyn sicrhau bod risgiau trefniadaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Datblygiadau yn y dyfodol

Ym mis Mawrth 2014 cytunodd Trysorlys EM ar fuddsoddiad newydd a fydd ar gyfartaledd yn werth £75 miliwn bob blwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd o 2015-16 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i fynd i'r afael â rhaglen ddiwygio a fydd yn sicrhau gweinyddiaeth fwy effeithiol, effeithlon sy'n perfformio'n dda yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd drwy ddefnyddio technoleg fodern, gwell ystâd, a moderneiddio'r arferion gweithio presennol.

Sicrhawyd arian ar gyfer y gwaith hwn o flwyddyn ariannol 2015-16 ac mae'n ategu'r arian a ddarparwyd eisoes drwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer rhaglenni TG ac Un Platfform y System Cyfiawnder Troseddol ac i fod yn gefn i uwchraddio'r ystâd.

Bydd y rhaglen ddiwygio'n darparu seilwaith cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yn y dyfodol a gweinyddiaeth fwy effeithlon sy'n perfformio'n dda i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan ddiwallu anghenion y cyhoedd, yn ogystal â bod o fudd sylweddol i'r trethdalwr a'r proffesiwn cyfreithiol.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the Reporting Period', mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol wedi'u hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Cyfrifon. Awdurdodwyd cyhoeddi'r Cyfrifon ar yr un diwrnod ag yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 22.

## Ein staff

Mae adran Adnoddau Dynol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i fod yn gefn i'r busnes wrth iddo fynd ar drywydd ei phortffolio o newid sylweddol, cyflwyno polisïau newydd y gwasanaeth sifil a gweithio i gryfhau gallu'r gweithlu.

Rydym wedi cefnogi cyflwyno 'Ffordd GLITEM' yn ein holl gynnyrch dysgu ac wedi dechrau gweithio i sicrhau bod hyn yn bwrw gwreiddiau yn ein prosesau Adnoddau Dynol. Rydym wedi parhau i adeiladu tuag at ddiwylliant perfformiad uchel drwy lansio system Rheoli Perfformiad newydd, ychwanegu nodweddion y gofynnodd ein harweinwyr gweithredol amdanynt a chysoni ein gwaith â gwaith gweddill y gwasanaeth sifil. Yn gefn i hyn, mabwysiadwyd Fframwaith Cymwyseddau newydd y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu hasesu'n gyson.

Rydym wedi ceisio gwella ein prosesau recriwtio'n barhaus, gan gynnwys lleihau'n sylweddol yr amser y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i gyflogi staff newydd o 105 diwrnod ar ddiwedd 2012-13 i 64 diwrnod erbyn diwedd 2013-14.

Drwy ddatblygu rhagor ar ein cynlluniau olyniaeth a'n systemau rheoli doniau, rydym wedi sicrhau ein bod yn mynd ati'n rheolaidd i ddynodi a pharatoi ein cenhedlaeth nesaf o arweinyddion, yn enwedig ar gyfer rolau busnes hanfodol a rolau risg uchel. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ail rownd Cynllun Arweinyddion y Dyfodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae hon yn dynodi ac yn arfogi staff dawnus i gyrraedd lefelau uwch reolwyr. Mae 15 o bobl bellach yn cwblhau amrywiaeth o brosiectau sy'n cyfuno creadigrwydd a gwybodaeth am y busnes er mwyn gwella ein gwasanaeth yn barhaus. Drwy eu gwaith hwy, rhagwelir yr arbedir dros £3.4 miliwn.

Mae'r gwaith i leihau lefelau absenoldeb staff ac i fynd i'r afael â'u lles wedi parhau i dalu ar ei ganfed. Mae nifer y diwrnodau gwaith a gollir ar gyfartaledd gan bob aelod o'r staff wedi gostwng o 9.21 diwrnod yn 2012-13 i 8.56 diwrnod yn 2013-14, a hynny'n bennaf drwy feithrin gallu rheolwyr yn y maes hwn a rhoi gwell gwybodaeth reoli iddynt. Oherwydd bod llai o absenoldeb, gweithiwyd oddeutu 15,000 o ddiwrnodau'n fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.

Drwy barhau â nifer o raglenni newid busnes a chynllunio cryf ym maes y gweithlu, llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 639 o swyddi cyfwerth ag amser llawn erbyn diwedd y flwyddyn, a oedd yn cyfateb i arbed £12.2 miliwn ar gyflogau. Rydym wedi sicrhau'r arbedion a bennwyd ar ein cyfer yn Adolygiad o Wariant 2010 ac fe'u hadolygwyd eto yng ngoleuni cynlluniau Adnoddau wrth i'r cyfyngiadau ar y gyllideb a'r llwyth gwaith newid. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 3,754 o swyddi drwyddi draw o dan SR10 (yr Adolygiad o Wariant), gan ostwng y bil cyflogau blynyddol £121.8 miliwn.

Gwelwyd canlyniadau'r Arolwg Ymgysylltu â Staff ar gyfer Dysgu a Datblygu yn gwella 5% eto yn 2013-14 (cynnydd o 4% yn 2012-13). Llwyddwyd i sicrhau'r gwelliant hwn drwy gydweithio â grŵp Llais y Cwsmer Adnoddau Dynol i gynllunio a lansio 'Siop Un Stop' symlach ar gyfer Dysgu a Datblygu lle mae'r holl gynnyrch dysgu ar gael i'n staff mewn un man.

Rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant sgiliau busnes, gan arddel ymagwedd gyfun at ddysgu drwy gyfuno Hyfforddiant ar Gyfrifiadur, cynnyrch e-ddysgu, llyfrau gwaith ac anogaeth/hyfforddiant wyneb-yn-wyneb. Darparwyd yr hyfforddiant hwn drwy gyfrwng oddeutu 1,050 o staff y rheng flaen sydd wedi'u hachredu'n fewnol a thrwy gyfrwng Hyfforddwyr ac Anogwyr Sgiliau Busnes â sicrwydd ansawdd. Mae cam dau o'r prosiect i drosi deunyddiau hyfforddi sgiliau busnes i'w darparu ar gyfrifiadur neu ar ffurf e-ddysgu wedi cael ei gwblhau mewn pryd ac o fewn y gyllideb ac wedi darparu 15 cynnyrch e-ddysgu a 115 cynnyrch hyfforddi ar gyfrifiadur ym maes gwaith sifil ynghyd â 29 cynnyrch teulu eleni. Mae ein cynnyrch wedi ennill cydnabyddiaeth allanol am eu camau dylunio ac adeiladu ac ymwelwyd â hwy 6,406 o weithiau gan staff yn ystod y flwyddyn. Maent yn cynnig ffordd hyblyg a hygyrch i unigolion ddysgu yn eu gweithle neu hyd yn oed gartref.

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi parhau i weithio tuag at achredu holl ddysgu sgiliau busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae 93 o staff wedi ymuno â chynlluniau peilot rhaglenni dysgu achrededig ar gyfer cymhwyster y Tywysydd a'r Clerc Llys sy'n golygu bod yr Asiantaeth yn gallu creu ei chorff ei hun o aseswyr mewnol i helpu'r rheini a fydd yn ymgeisio am y cymwysterau yn y dyfodol. Darparwyd rhaglen lawn o Brentisiaethau, gan gynnwys Proffesiwn generig y Llysoedd, y Tribiwnlysoedd ac Erlyn, a Darparu Gweithredol ac mae 412 o ymgeiswyr wedi dilyn cymwysterau prentisiaethau newydd ym mlwyddyn 2013-14. Mae hyn wedi creu cyfanswm o 550 o brentisiaid cymwysedig sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hyd yn hyn.

Eleni, crëwyd rhaglenni datblygu ar gyfer Bandiau D, B ac A ar sail y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'u lledaenu i 228 o staff ar sail bylchau yn ein gallu busnes. Roedd rhaglen Band D wedi'i hanelu at staff newydd a dibrofiad, ac roedd rhaglen Band B wedi'i hanelu'n benodol at y staff mwyaf dawnus y mae angen rhagor o gymorth arnynt i gyflawni eu rolau cynllunio olyniaeth. Cwmpaswyd ein rhaglenni datblygu ar gyfer Bandiau E ac F, eu treialu a'u lansio eleni a'u lledaenu i 235 o staff. Mae diddordeb cynyddol yn yr holl raglenni datblygu.

Mae'r holl gynnyrch Dysgu a Datblygu a'r pecyn ymsefydlu newydd wedi cael eu cysoni â 'Ffordd GLITEM' ac maent yn cyfeirio'n briodol at brosesau gwella parhaus gan sicrhau bod ein nod o feithrin staff ac arweinyddion galluog yn berthnasol i bob agwedd ar y sgiliau busnes penodol sy'n ofynnol gan staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried yn drwyadl anghenion amrywiol ein staff a phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn hybu diwylliant lle bydd staff a defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu trin yn deg a chyda pharch. Rydym yn sicrhau ein bod yn sensitif i anghenion y rheini sy'n agored i niwed neu'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio'n galed i sicrhau cydraddoldeb i staff a defnyddwyr anabl. Mae gennym Bolisi Addasu Rhesymol sy'n cynnig cyngor, cymorth a chanllawiau ynglŷn â sut i ystyried defnyddwyr ac addasu pethau'n rhesymol ar eu cyfer. Mae canllawiau ar gefnogi staff anabl a darparu addasiadau rhesymol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Abledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Adran yn un o ddefnyddwyr awdurdodedig y Cynllun Dau Dic ac yn cymryd rhan yn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeiswyr sydd ag anabledd.

Bydd y staff i gyd yn cael canllawiau a hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall sut mae cyflawni gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu gwaith beunyddiol ym mhob un o feysydd ein busnes. At hynny, ers mis Ionawr 2014, mae wedi bod yn ofynnol i bob rheolwr llinell gwblhau e-ddysgu ar 'Ymwybyddiaeth o Anabledd' a 'Rhagfarn Ddiarwybod'.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a gyflwynwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod pob corff cyhoeddus yn ystyried anghenion pob unigolyn wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau yng nghyswllt eu gweithwyr hwy eu hunain. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dangos ei bod yn cydymffurfio yn ôl yr angen â'r ddyletswydd hon drwy asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb wrth ddechrau ac yn ystod datblygu polisi ac mewn prosiectau newid mawr, gan sicrhau bod y camau iawn yn cael eu cymryd gan y bobl iawn ar yr amser iawn.

Wrth roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn arddel agwedd ysgafn, sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau effeithiol a lleihau biwrocratiaeth ddiangen.

**Peter Handcock CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**20 Mehefin 2014**

# 5. Adroddiad Cynaliadwyedd

## Cyflwyniad

Dyma drydydd Adroddiad Cynaliadwyedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac mae wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau 2011-12 a bennwyd gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports Sustainability Reporting' a gyhoeddwyd yn

www.hm-treasury.gov.uk/frem_sustainability.htm.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfateb i gwmpas a manylion Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Gwyrddu'r Llywodraeth yw prif sbardun ei chynlluniau Datblygu Cynaliadwy ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau gwella mewn meysydd megis carbon o ynni, gwastraff, dŵr a bioamrywiaeth.

O ran cynaliadwyedd, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn canolbwyntio ar gyflawni'r targedau hyn gan y llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gostwng costau. Rhai o'r blaenoriaethau yw lleihau allyriadau carbon, defnyddio llai o dŵr ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Mae rhagor o fanylion am Raglen Gwyrddu'r Llywodraeth i'w gweld yn:

http://sd.defra.gov.uk/gov/green-government/commitments/

## Cwmpas, eithriadau ac amcangyfrifon

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am 650 o adeiladau. Nid yw adeiladau sy'n cael eu rhannu yn cael eu cyfrif oherwydd ei bod yn anodd cael ffordd ddibynadwy o wahanu'r data am gynaliadwyedd oddi wrth y data taliadau am wasanaethau. Roedd 80 o adeiladau yn cael eu rhannu yn ystod 2013-14. Gan fod y rhain yn gymharol fach o ran eu maint a bod manylion adeiladau sy'n cael eu rhannu'n cael eu cofnodi gan y prif feddiannwr, nid oes fawr o fudd alldynnu eu data am gynaliadwyedd. Mae hyn yn gyson â threfn y llywodraeth ehangach ac ag adroddiad y llynedd. Nid ydym yn meddwl bod eithrio'r rhain yn cael effaith sylweddol ar ein hadroddiad am gynaliadwyedd drwyddo draw.

## Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol.

Mae llywodraethu a sicrwydd cyffredinol yn cael eu rheoli gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Defnyddir sawl ffordd o reoli prosiectau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys Rhaglen Lleihau Carbon y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n blaenoriaethu prosiectau o'u cymharu â'r gost bosibl, arbed carbon a'u haddasrwydd o ran eu heffaith ar yr amgylchedd a'u gweithredu.

Mae rhywfaint o gyfyngiadau ar gywirdeb ein data am gynaliadwyedd ariannol ac anariannol ac rydym yn dal i wella ansawdd ein dulliau gofalaeth mewnol, er enghraifft drwy archwiliadau mewnol, ymgysylltu rhagor â rhanddeiliaid mewnol ac allanol a hefyd drwy ddyfeisiau monitro gwell, megis offer awtomatig i ddarllen mesuryddion.

## Ymrwymiadau'r Cynllun Busnes

Mae'r ymrwymiadau yng Nghynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2012-15 sy'n berthnasol i gynaliadwyedd wedi'u nodi yn yr atodiad i'r Cynllun Busnes sef:

i) Asesu a rheoli effeithiau a chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau..

   Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod egwyddorion Datblygu Cynaliadwy'n bwrw gwreiddiau yn ei harferion gweithio o ddydd i ddydd a hynny ym mhob adran. Er mwyn galluogi hyn ar lefel ymarferol, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnal cyfarfodydd misol o'r Bwrdd Datblygu Cynaliadwy, dan gadeiryddiaeth Hyrwyddwr Datblygu Cynaliadwy ar lefel y Bwrdd. Ei nod yw llywio

rhaglenni gwaith a chytuno arnynt, gan wella'r arferion gweithio ar draws gwahanol ddisgyblaethau pob adran.

ii) Rhoi cynllun yr adran ar waith i wireddu Rhaglen Gwyrddu'r Llywodraeth, darparu gwybodaeth chwarterol a chyfrannu at adroddiad cynnydd blynyddol.

Lansiwyd Rhaglen Gwyrddu'r Llywodraeth ar 1 Ebrill 2011 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i adrannau'r llywodraeth gymryd camau i leihau'n sylweddol eu heffaith ar yr amgylchedd erbyn 2014-2015 (o'i chymharu â'r llinell sylfaen yn 2009-2010). Amcanion Rhaglen Gwyrddu'r Llywodraeth yw un o brif flaenoriaethau Cyfarwyddiaeth Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Maent yn cael eu rheoli, eu hadolygu a'u monitro gan Dîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

iii) Caffael cynaliadwy: Caffael gan fusnesau bach gyda'r uchelgais o sicrhau bod 25% o'r contractau'n cael eu rhoi i Fentrau Bach a Chanolig.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw un o'r adrannau sy'n gwneud orau yn y llywodraeth, o ran gwario gyda mentrau bach a chanolig. Yn 2012-13, gwariodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder 35% o'i arian gyda Mentrau Bach a Chanolig, sy'n rhagori ar uchelgais y llywodraeth, sef 25%. Rydym wedi cynyddu gwariant y Weinyddiaeth Cyfiawnder gyda Mentrau Bach a Chanolig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf drwy roi nifer o newidiadau ar waith yn y broses i wneud pethau'n fwy tryloyw a'i gwneud hi'n haws i fentrau bach a chanolig fidio am waith y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys:

- Penodi arweinydd Mentrau Bach a Chanolig gweinidogol, a hyrwyddwr Mentrau Bach a Chanolig yn gefn iddo yn nhîm caffael y Weinyddiaeth i oruchwylio rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith www.gov.uk/government/organisations/mi
- Hysbysebu cyfleoedd busnes gwerth dros £10,000 ar Contracts Finder, sef yr un porth hysbysebu a ddefnyddir i gyhoeddi cyfleoedd gan y llywodraeth, er mwyn sicrhau bod busnesau ym mhobman yn gallu bidio am gontractau.
- Cyhoeddi rhestr chwarterol o gyfleoedd sydd ar y gweill ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan roi cyfle'n fuan i Fentrau Bach a Chanolig weld cyfleoedd i dendro sy'n codi i'w helpu i gynllunio a, lle bo hynny'n briodol, i'w galluogi naill ai i ffurfio consortia neu i ymuno â phrif gontractwyr er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa gryfach i fidio am ein busneswww.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/procurement
- Dileu'r holiadur cyngymhwyso ar gyfer pob tendr o dan Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a
- Lle bo modd, rhannu contractau mawr yn 'lotiau' llai sy'n fwy addas i Fentrau Bach a Chanolig fidio ar eu cyfer.

Mae gweithdrefnau gweithredu mwy effeithiol wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod pob trefniant ar wahân i'r prosesau caffael mwyaf cymhleth, yn cael ei gwblhau o fewn targed newydd 120 diwrnod y llywodraeth. Rydym wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r weithdrefn gystadlu hir (y Ddeialog Gystadleuol) oni ellir dangos ei bod yn rhoi gwerth am arian. Bellach, defnyddir Gweithdrefn Agored yr UE ar gyfer ein prosiectau caffael.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi bod yn treialu Cyfrifon Banc i Brosiectau ar gyfer cyflenwyr gwaith adeiladu. Pwrpas y rhain yw ceisio sicrhau bod taliadau'n cyrraedd isgontractwyr sy'n fentrau bach a chanolig ar unwaith pan fydd y prif gontractwr yn cael ei dalu, er mwyn rhoi rhagor o gefnogaeth i fentrau bach a chanolig sy'n gweithio gyda'r llywodraeth. Rydym eisoes yn cynnwys cymal 'talu teg' ym mhob dogfen gontract gyda phrif gontractwyr, sy'n sicrhau bod y rheini sydd yn is yn y gadwyn gyflenwi'n cael eu talu o fewn 30 niwrnod.

Bydd y camau hyn yn annog arloesi ac yn ehangu cwmpas busnesau sy'n gallu ymateb i'n gofynion. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio i sicrhau bod ein cyflenwyr i gyd yn teimlo'n hyderus i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol a'u bod yn gallu cystadlu ar delerau sy'n deg i bawb.

Mae Cynllun Gweithredu llawn y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer mentrau bach a chanolig, gan gynnwys y canlyniadau y byddem yn dymuno'u gweld, y ffactorau llwyddiant, y cyfleoedd i gontractio ac astudiaethau achos/hanesion llwyddiant o ran perthynas barhaus y Weinyddiaeth â mentrau bach a chanolig i'w gweld yn:

www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/procurement

## Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol

Mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth wedi bod yn cyflawni ei waith drwy gyfrwng ei ddatganiad ynglŷn â phartneriaeth gymdeithasol a chymunedol. Mae hwn hefyd yn annog partneriaethau allanol i hyrwyddo hyfforddiant dysgu a sgiliau ym mhob un o'r ffrydiau gwaith Datblygu Cynaliadwy. Mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth hefyd wedi rhoi cynlluniau ar waith i'w bartneriaid allweddol a chanolog lofnodi Memorandwm Dealltwriaeth sy'n hyrwyddo cyfiawnder adferol, gan leihau aildroseddu. Mae  hon hefyd yn gefn i gamau pellach tuag at wireddu strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r llywodraeth.

## Yr Ymrwymiad Lleihau Carbon

System orfodol i adrodd ynghylch ynni yw hon. System i ddefnyddwyr ynni ar raddfa ganolig i fawr yw hi. Rhaid i'r sawl sy'n cymryd rhan baratoi adroddiadau blynyddol manwl am yr ynni a ddefnyddir ganddynt a phrynu digon o lwfansau i wneud iawn am y dylanwad a gânt o ran carbon. Amcangyfrifir mai'r lwfansau carbon cysylltiedig ar gyfer 2013-14 yw £5.8 miliwn.

Cynhyrchodd Asiantaeth yr Amgylchedd Gyhoeddiad yr Adroddiad Blynyddol ar 14 Tachwedd 2013 yn cynnwys data cyfunol heb eu sgorio. Mae hyn yn dilyn ymateb y llywodraeth i ymgynghoriad blaenorol, fel rhan o'i phroses ehangach i symleiddio'r cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon.

## Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd

Yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth yn dal i reoli ac adolygu ei chronfa ddata o adeiladau risg uchel. Mae hon yn tynnu sylw at adeiladau a safleoedd sy'n fregus yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd megis y tymheredd a lefel y môr yn codi a llifogydd hefyd. Mae'r system a'i phrosesau cysylltiedig, a'r Datganiad ynghylch Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd, yn dweud mai dyma'i bwrpas ar gyfer yr ystâd adeiledig a'r ystâd anadeiledig:

- Mae'n galluogi'r Weinyddiaeth i werthuso'r risgiau i'w strategaeth ar gyfer cyflawni ei rhaglenni ym maes gorlifdiroedd bregus ac i werthuso'i llinell sylfaen ar gyfer addasu targedau a chamau yn y dyfodol i ymateb i newid yn yr hinsawdd.
- Mae'n galluogi ystâd y Weinyddiaeth i flaenoriaethu'r ffordd y mae'n rheoli safleoedd risg uchel a lle bydd angen i arallgyfeirio ac ail-gyfrifo adnoddau sy'n hanfodol ar gyfer ei chyflawni gweithredol.
- Mae'n dangos ymhle y mae angen i randdeiliaid a phartneriaid canolog weithredu er mwyn hwyluso camau pellach neu ychwanegol i amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd, ac
- Mae'n sefydlu proses strategol y gall y Weinyddiaeth ei defnyddio i roi camau angenrheidiol ar waith er mwyn ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

## Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth

Mae'r Weinyddiaeth yn cefnogi Strategaeth Fioamrywiaeth y Deyrnas Unedig hyd at 2020 drwy reoli ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM mewn ffordd sy'n caniatáu i fflora a ffawna ffynnu'n naturiol, gan sicrhau bod llai o rywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth yn mynd ar goll ac yn dirywio, gan adael gwaddol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Weinyddiaeth yn sefydlu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ledled ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, lle mae'r safleoedd hynny wedi cael eu sefydlu a'u cydnabod am fod ynddynt fflora a ffawna sy'n flaenoriaeth; ond yn enwedig mewn safleoedd dynodedig megis Llys y Goron Snaresbrook ar gyrion Coedwig Epping.

Mae Tîm Ecoleg Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi rhoi system archwilio drwyadl a ffurfiol ar waith i archwilio'i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ymhob rhan o ystâd y Weinyddiaeth. Mae'n gosod safon i'r diwydiant ar bob safle dynodedig sy'n gweithio i gyflawni targedau heriol, nid dim ond yng nghyswllt rhywogaethau a chynefinoedd, ond yng nghyswllt rhaglenni a phrosiectau natur pwysig.

Mae'r holl gynlluniau bioamrywiaeth hyn yn cynnig dull mwy ymarferol i'r Weinyddiaeth gefnogi gwasanaethau ecosystemau ym mhob rhan o'i hystâd wledig, drwy arddel strategaeth gadwraeth ar raddfa tirwedd, lle y bydd cynefinoedd yn chwarae rhan hollbwysig yn yr amgylchedd.

## Prawfesur gwledig

Fel rhan o'r rhesymwaith parhaus yn ystâd y Weinyddiaeth, mae contractau newydd ar gyfer rheoli'r ystâd wedi dangos ymhle y mae'r dylanwad a geir ar y dirwedd, ar gefn gwlad ac ar drafnidiaeth leol o'r pwys mwyaf i brawfesur gwledig. Mae cynlluniau trafnidiaeth wedi bod yn agwedd bwysig ar ein strategaeth amgylcheddol, yng nghyswllt gofynion cynllunio lleol ar gyfer eiddo sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd. Mae sefydlu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a thrafod amserlenni trafnidiaeth, yn un agwedd ar sut y gall cynlluniau ar gyfer ein hôl troed carbon a'n cynlluniau cymdeithasol a chymunedol fod yn effeithiol o ran prawfesur gwledig ym mhob rhan o ystâd y Weinyddiaeth.

Mae'r penderfyniadau i leoli adeiladau newydd yn her i'r ystâd carchardai a'r ystâd ehangach, boed hynny yng nghyswllt datganiadau polisi cynllunio lleol neu ofynion natur a threftadaeth; gall y cyfan effeithio ar y diwydiant hamdden a'r diwydiant twristiaeth lleol.

Bydd pob agwedd, gan gynnwys natur, archaeoleg, twristiaeth, hamdden ac arallgyfeirio gwledig yn cael ei hasesu yn ystod camau cyntaf cynllunio a dylunio pob adeilad sy'n cael ei godi o'r newydd yn ystâd y Weinyddiaeth fel rhan o'n polisi prawfesur gwledig.

## Cynllun Rheoli Carbon

Dogfen yw Cynllun Rheoli Carbon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a oedd yn cyflwyno'r achos busnes o blaid buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf ac adnoddau er mwyn arbed carbon. Ers ysgrifennu'r cynllun, mae'r tîm Datblygu Cynaliadwy wedi sefydlu'r Rhaglen Lleihau Carbon sy'n sbarduno buddsoddi a gweithredu parhaus mewn prosiectau sy'n arbed ynni a charbon ac yn arbed ar filiau'r prif wasanaethau. Yn lle'r cynllun hwn yn awr, bydd gennym strategaeth a fydd yn sail i'r polisi ynni datblygu cynaliadwy.


## Adeiladu cynaliadwy

Mae gofyn i bob gwaith adnewyddu mawr ac adeiladau newydd gael eu hasesu drwy Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a'u hasesu cystal â'r safon 'da iawn' ar gyfer adnewyddu ac 'ardderchog' ar gyfer adeiladau newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r Adran wedi ymrwymo i leihau faint o wastraff adeiladau sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ac mae'n sicrhau bod yr holl waith ar brosiectau adnewyddu ac adeiladu o'r newydd yn cynnwys

cymalau sy'n mynnu bod manylion yn cael eu darparu am ffrydiau gwastraff. Yn ystod 2013-14, cofrestrwyd neu cwblhawyd cyfanswm o ddau brosiect adeiladu o'r newydd a dau brosiect adnewyddu. Llwyddodd pob un i gyrraedd y statws BREEAM gofynnol.

## Perfformiad 2013-14 Allbwn Datblygu Cynaliadwy

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tCO2e) | Cwmpas 1 (Uniongyrchol) Allyriadau safleoedd a chludiant sy'n eiddo i'r Gwasanaeth. | 36,338 | 36,528 | 30,336 | 41,151 | 36,124 |
| | Cwmpas 2 (Anuniongyrchol) Ynni a gyflenwyd (Trydan a gwres) | 66,809 | 61,304 | 55,529 | 56,052 | 54,762 |
| | Cwmpas 3 (Anuniongyrchol eraill) Teithio ar gyfer busnes a cholledion trawsyriant o'r ynni a gyflenwyd. | 5,268 | 5,209 | 4,747 | 7,894 | 6,847 |
| | **Cyfanswm crynswth allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | **108,414** | **103,042** | **90,611** | **105,097** | **97,733** |
| | Trydan; gwyrdd/ adnewyddadwy | 16,492 | 14,819 | 13,873 | 13,820 | 13,540 |
| | **Cyfanswm net allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | **91,923** | **88,222** | **76,738** | **91,277** | **84,193** |
| Anariannol (mWh) | Trydan: Grid, Gwres a phŵer cyfun ac anadnewyddadwy | 119,860 | 110,649 | 101,421 | 101,032 | 98,984 |
| | Trydan: adnewyddadwy | 39,951 | 36,110 | 33,805 | 33,675 | 32,993 |
| | Nwy | 192,293 | 193,177 | 162,768 | 200,730 | 173,686 |
| | Ffynonellau ynni eraill | 7,455 | 8,248 | 1,614 | 6,471 | 5,395 |
| | Cyfanswm yr ynni | 359,559 | 348,185 | 299,608 | 341,907 | 311,058 |
| Dangosyddion ariannol | Gwariant ar ynni (£m) | £24.13 | £18.61 | £22.16 | £23.76 | £26.15 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol (£m) | £8.90 | £8.01 | £11.09 | £12.50 | £2.62 |




### Sylwebaeth am berfformiad (gan gynnwys targedau)

Y targed ar gyfer Nwyon Tŷ Gwydr yw gostwng allyriadau 25% rhwng 2009-10 a 2014-15. Mae'r ffigurau uchod yn dangos gostyngiad o 10% mewn carbon rhwng 2009-10 a 2013-14. Mae hyn fymryn yn is na'r llwyddiannau a gofnodwyd y llynedd, pan lwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 11%. Cofnodwyd gostyngiad bach yn y trydan a ddefnyddiwyd o'i gymharu â'r llynedd. Cofnodwyd gostyngiad mwy sylweddol yn y nwy a ddefnyddiwyd (13%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol er y byddai rhywun wedi disgwyl hyn oherwydd bod gaeaf 2012-13 mor eithriadol o oer. Hefyd, mae ansawdd cofnodi colledion rhewyddion wedi gwella ar gyfer 2012-13 a 2013-14 ac ni adroddwyd am hyn yn ystod y flwyddyn sylfaen. Ar ôl cyflwyno system rheoli teithio i'r llywodraeth gyfan, mae costau teithio wedi cael eu rheoli'n well. Y perfformiad wedi'i normaleiddio (o'i gymharu â swyddi cyfwerth ag amser llawn) 2009-10: 21,116 CALl a 108,414 $tCO_2e$ = 5.13 $tCO_2e$ y gweithiwr. 2013-14 = 16,865 CALl a 98,123 $tCO_2e$ = 5.81 y gweithiwr.

### Sylwebaeth am effeithiau y gellir eu rheoli

Arbed costau a charbon yw un o flaenoriaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gosodir targedau datblygu cynaliadwy a gostwng ynni ar lefel safle, ar lefel rhanbarth ac ar lefel gorfforaethol. Mae prosiectau, gan gynnwys rhesymoli'r ystâd, optimeiddio foltedd a boeleri, uwchraddio goleuadau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn dal i sicrhau arbedion


### Golwg gyffredinol ar y dylanwad a gafwyd

Bydd Adran Gaffael y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cysylltu â chyflenwyr ynni i wella'r systemau monitro ac adrodd. Yn ogystal â hynny, a lle bo modd, bydd tîm Caffael y Weinyddiaeth yn ymgysylltu â chyflenwyr ynghylch safonau prynu'r llywodraeth gyda golwg ar effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a lleihau costau.

| **Gwastraff** | | | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff ar gyfer tirlenwi | 23,028 | 20,763 | 20,116 | 3,334 | 3,045 |
| | | Cyfanswm a Adenillwyd (Treulio Anaerobig a Chompostio) | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I'w losgi | 0 | 0 | 0 | 60 | 5 |
| | | Gwastraff a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd | 7,430 | 7,396 | 3,564 | 4,979 | 5,613 |
| | | Ynni o wastraff | 0 | 0 | 0 | 1,136 | 1,388 |
| | **Cyfanswm y Gwastraff** | | 30,458 | 28,159 | 23,680 | 9,509 | 10,060 |
| Dangosyddic Ariannol | Gwastraff nad yw'n beryglus | Gwastraff ar gyfer tirlenwi | 1,643,491 | 1,786,662 | 1,805,543 | 2,332,000 | 2,090,000 |
| | | Cyfanswm a Adenillwyd (Treulio Anaerobig a Chompostio) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | I'w losgi | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | | Gwastraff a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | Ynni o wastraff | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm Costau'r Gwastraff (£)** | | 1,643,491 | 1,786,662 | 1,805,543 | 2,332,000 | 2,090,000 |

**Gwastraff yn ôl dull gwaredu terfynol**




### Sylwebaeth am berfformiad (gan gynnwys targedau)

Mae perfformiad rheoli gwastraff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael ei sbarduno gan yr awydd i wireddu Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth sef gostwng y gwastraff a gynhyrchir 25% erbyn 2015, o'i gymharu â llinell sylfaen 2009/10. Cwblhawyd y rhaglen i osod gorsafoedd ailgylchu drwy ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ym mis Ebrill 2014. Llwyddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau gostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff o 67% o'i gymharu â llinell sylfaen 2009/10, gan gyfeirio tua 70% oddi wrth ei waredu mewn safleoedd tirlenwi a defnyddio opsiynau gwell yn lle hynny, megis ailgylchu a chompostio (56% o'r deunyddiau gwastraff) a chynhyrchu ynni drwy losgi gwastraff (14%). Sylwer mai amcangyfrif yw'r data am wastraff ac fe'i seilir ar ddatganiadau data o fis Ebrill 2014 tan fis Rhagfyr 2014. Nid yw'n cynnwys 16 o safleoedd sydd o dan drefniadau contract Mentrau Cyllid Preifat.

### Sylwebaeth am effeithiau y gellir eu rheoli


Daw data manwl am reoli gwastraff yn uniongyrchol gan gontractwyr Rheolwyr y Cyfleusterau a darperir y data ariannol gan Ganolbwynt Rhanbarthol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Drwy

ledaenu'r strategaeth ailgylchu i bob rhan o ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM llwyddwyd i gynyddu lefel y deunyddiau a waredwyd drwy ddefnyddio opsiynau gwell na'u hanfon i safleoedd tirlenwi, megis ailgylchu, compostio a chynhyrchu ynni drwy losgi gwastraff.

### Golwg gyffredinol ar y dylanwad a gafwyd

Bydd tîm Caffael y Weinyddiaeth yn ymgysylltu â chyflenwyr (Rheoli Cyfleusterau Cyflawn (TFM) a Mentrau Cyllid Preifat) ynghylch safonau prynu'r llywodraeth gyda golwg ar effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a lleihau costau. Anogir staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd i leihau gwastraff drwy gyfrwng cyhoeddiadau mewnol megis 'Mae Cynaliadwyedd yn Bwysig', cynlluniau newid ymddygiad ac ymgyrchoedd megis 'wythnos ymwybyddiaeth o wastraff'

| **Dŵr** | | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (metrau ciwbig) | **Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd (metrau ciwbig-m$^{3}$)** | 722,887 | 655,548 | 655,650 | 877,924 | 805,947 |
| Dangosyddion Ariannol | **Cyfanswm costau'r cyflenwad dŵr (£m)** | £2.25 | £2.24 | £1.97 | £2.36 | £2.34 |




### Sylwebaeth am berfformiad (gan gynnwys targedau)

Mae targedau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael eu tywys gan Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol gostwng faint o ddŵr a ddefnyddir rhwng y llinell sylfaen a 2014/15. Nid yw'r holl ddata defnyddio dŵr yn cael eu cadw'n ganolog ac felly nid oes modd dibynnu arnynt. Serch hynny, mae TFM yn dal i ymgysylltu â'r cwmnïau dŵr ac fe gaiff y systemau adrodd presennol eu huwchraddio i wella ein gwaith monitro yn unol â'r targedau a bennir gan y llywodraeth.

### Sylwebaeth am effeithiau y gellir eu rheoli

Mae sicrhau arbedion o ran costau ac o ran defnyddio dŵr yn dal yn flaenoriaeth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Nid yw ansawdd y data am ddefnydd dŵr yn hollol ddibynadwy. Mae'r amcangyfrif wedi'i seilio ar safleoedd lle y gwyddys beth yw'r costau blynyddol a'r ffigurau defnyddio. Wedyn, addesir y ffigur ar sail manylion y costau a dynnir o'r Llyfr Pryniant. Mae ffigurau'r costau'n cynnwys dŵr sy'n cael ei ddefnyddio a dŵr gwastraff.

Mae'r strategaeth dŵr yn canolbwyntio ar fonitro a thargedu, darlleniadau awtomatig ar fesuryddion, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, gosod dyfeisiau sy'n cael eu rheoli, echdynnu drwy dyllu, casglu dŵr glaw ar gyfer garddio a defnyddio pennau cawod awyredig lle bo hynny'n berthnasol

**Golwg gyffredinol ar y dylanwad a gafwyd**

Bydd tîm Caffael y Weinyddiaeth yn ymgysylltu â chyflenwyr i wella'r monitro a'r adrodd a Safonau Prynu'r Llywodraeth gyda golwg ar effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a lleihau costau. Mae TFM yn ymgysylltu fwy â'r cwmnïau dŵr er mwyn darparu gwasanaeth cydweithredol a chost-effeithiol. Caiff systemau ar gyfer paratoi adroddiadau am ddŵr eu huwchraddio er mwyn gwella ein gwaith monitro yn unol â'r targedau a osodwyd gan y llywodraeth

| Papur | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost (£m) heb gynnwys TAW | £0.00 | £0.00 | £1.20 | £1.71 | £1.58 |

Dechreuodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddefnyddio contract gorfodol Cyflenwadau Swyddfa'r Llywodraeth gyfan ym mis Hydref 2011. O dan delerau'r contract, bydd data Gwybodaeth Reoli'n cael eu dosbarthu gan Wasanaeth Caffael y Llywodraeth. Mae'r ffigur uchod yn dangos gostyngiad o 19% yn y costau. Gellir priodoli hyn yn raddol i resymoli'r ystâd ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

# 6. Adroddiad am Daliadau

Mae'r tablau yn yr Adroddiad hwn am Daliadau wedi'u harchwilio ac fe gyfeirir atynt yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

## Adroddiad am Daliadau i Aelodau'r Bwrdd

Paratowyd yr Adroddiad am Daliadau yn unol â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) fel y'i cyhoeddir gan Drysorlys EM.

Bydd y Prif Weinidog yn pennu'r polisi taliadau i uwch weision sifil ar ôl cael cyngor annibynnol gan yr Uwch Gorff Adolygu Cyflogau. Pennwyd cyflogau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar ôl cynnal trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â rheolau Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Bwyllgor Taliadau. Pwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n  ymdrin â phrif swyddogaethau'r Pwyllgor hwn.

Yn yr adrannau a ganlyn, rhoddir manylion taliadau a buddion pensiwn aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a fu'n gwasanaethu yn ystod 2013-14.

***Tabl 1 - Taliadau i aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014***

| Enw | Rôl aelod y bwrdd | Cyflogau £'000 | Taliadau bonws £'000 | Buddion mewn nwyddau £'000 | Buddion pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Robert Ayling | Cadeirydd Annibynnol | 15 - 20 | Dim | Dim | Dim | 15 - 20 |
| Peter Handcock | Prif Weithredwr | 145 - 150 | Dim | 1.7 – 1.8 | Amh[4] | 145 - 150 |
| Steve Gillespie | Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu | 90 - 95 | Dim | Dim | 54 | 140 - 145 |
| Guy Tompkins | Cyfarwyddwr, Troseddu | 80 - 85 | 5 - 10 | 12.2 – 12.3 | 70 | 175 - 180 |
| Kevin Sadler | Cyfarwyddwr, Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd | 95 - 100 | 10 - 15 | Dim | 5 | 115 - 120 |
| Alison White (Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2014) | Cyfarwyddwr Anweithredol | 15 – 20[2] | Dim | 0.6 – 0.7[3] | Dim | 15 - 20 |
| Francis Dobbyn | Cyfarwyddwr Anweithredol | 15 – 20[2] | Dim | 4.1 – 4.2[3] | Dim | 20 - 25 |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan | Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Gross | Uwch Farnwr Llywyddol | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker | Cynrychiolydd Barnwrol | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Band Cyfanswm y Taliadau i'r Cyfarwyddwr sy'n Ennill Mwyaf (ac eithrio buddion pensiwn) | | | | | | £145,000 – £150,000 |
| Cyfanswm y Taliad Cymedrig | | | | | | £20,043 |
| Cymhareb | | | | | | 7.4 |

[1]Telir i aelodau barnwrol yn rhinwedd eu gwaith fel barnwyr ac ni chawsant ddim taliadau ychwanegol am fod yn gyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

[2]Mae'n cynnwys taliadau am waith ychwanegol a gwblhawyd yn ystod 2012-13 a gymeradwywyd ac y talwyd amdano yn ystod 2013-14.
[3]Mae'n cynnwys ad-daliadau am gostau teithio i gyfarfodydd busnes a oedd yn ofynnol.
[4]Dewisodd Peter Handcock beidio â bod yn rhan o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Ebrill 2012 ac felly, nid oedd budd pensiwn wedi cronni.

## Tabl 2 - Taliadau i aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 - 31 Mawrth 2013

| Enw | Rôl aelod y Bwrdd | Cyflog £'000 | Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £'000 | Taliadau Bonws £'000 | Buddion mewn nwyddau £'000 | Buddion Pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Robert Ayling | Cadeirydd Annibynnol | 15 – 20 | 15 – 20 | Dim | Dim | Dim | 15 - 20 |
| Peter Handcock | Prif Weithredwr | 140 – 145 | 140 – 145 | Dim | Dim | Amh[3] | 140 - 145 |
| Steve Gillespie | Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu | 80 – 85 | 80 – 85 | 5 – 10 | Dim | 2 | 90 - 95 |
| Shaun McNally (Ymddiswyddodd 19 Hydref 2012) | Cyfarwyddwr, Troseddu | 45 – 50 | 80 – 85 | Dim | 18.3 – 18.4 | 4 | 65 – 70 (cyfwerth â blwyddyn lawn 120 – 125) |
| Guy Tompkins (Penodwyd 22 Tachwedd 2012) | Cyfarwyddwr, Troseddu | 25 - 30 | 80 – 85 | Dim | 4.8 – 4.9 | 8 | 40 – 45 (cyfwerth â blwyddyn lawn 110 – 115) |
| Kevin Sadler | Cyfarwyddwr, Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd | 95 – 100 | 95 – 100 | Dim | Dim | 7 | 105 - 110 |
| Alison White | Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 – 10 | 5 – 10 | Dim | 0.7 – 0.8[2] | Dim | 5 - 10 |
| Francis Dobbyn | Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 – 10 | 5 – 10 | Dim | 3.4 – 3.5[2] | Dim | 10 - 15 |
| Yr Arglwydd Ustus Carnwath (Ymddiswyddodd 16 Ebrill 2012) | Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan (Penodwyd 25 Mehefin 2012) | Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Goldring (Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2012) | Uwch Farnwr Llywyddol | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Gross (Penodwyd 1 Ionawr 2013) | Uwch Farnwr Llywyddol | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker | Cynrychiolydd Barnwrol | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] | Dim[1] |

| | |
|---|---|
| Band Cyfanswm y Taliadau i'r Cyfarwyddwr sy'n Ennill Mwyaf | £140,000 – £145,000 |
| Cyfanswm y Taliad Cymedrig | £19,746 |
| Cymhareb | 7.2 |

[1]Telir i aelodau barnwrol yn rhinwedd eu gwaith fel barnwyr ac ni chawsant ddim taliadau ychwanegol am fod yn gyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[2]Mae'n cynnwys ad-daliadau am gostau teithio i gyfarfodydd busnes a oedd yn ofynnol.
[3]Dewisodd Peter Handcock beidio â bod yn rhan o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Ebrill 2012 ac felly, nid oedd dim buddion pensiwn wedi cronni.

### Cyflogau

Mae cyflogau’n cynnwys symiau y mae pensiwn yn daladwy arnynt a rhai nad yw pensiwn yn daladwy arnynt ond nid ydynt o reidrwydd wedi'u cyfyngu i'r canlynol: cyflogau crynswth; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau am swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall, i'r graddau bod trethi'r Deyrnas Unedig yn daladwy arni. Nid yw'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys symiau sy'n ad-dalu treuliau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol wrth i unigolyn gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus gan yr Asiantaeth ac fel hynny y'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

### Bonysau

Seilir bonysau ar lefelau'r perfformiad a gyrhaeddir ac fe'u gwneir fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn pan fyddant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a gofnodir ar gyfer 2013-14 yn berthnasol i berfformiad yn 2012-13 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodir ar gyfer 2012-13 yn berthnasol i'r perfformiad yn 2011-12.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion y mae'r cyflogwr yn eu darparu ac y mae cyllid a Thollau EM yn eu hystyried yn enillion trethadwy.

### Taliadau i drydydd partïon

Ni thalwyd dim symiau i drydydd partïon yng nghyswllt aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14.

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng y tâl a gaiff y cyfarwyddwr sy'n ennill mwyaf yn eu sefydliad a'r tâl cymedrig i weithlu'r sefydliad.

### Band tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill mwyaf

Band tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill mwyaf yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM oedd £145k - £150k (2012-13: (£140k- £145K) sy'n cynnwys costau cyflog. Roedd hyn 7.4 gwaith (2012-13: 7.2) taliad cymedrig y gweithlu, sef £20,043 (2012-13: £19,746). Yn 2013-14, roedd 1 (2012-13: dim) aelod o'r staff yn cael tâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn ennill mwyaf.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad sydd heb ei gyfuno, lwfansau buddion mewn nwyddau, yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau cyfwerth ag arian parod.

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio'r Cyfansoddiad a Llywodraethu 2010 yn mynnu bod penodiadau'r gwasanaeth sifil yn cael eu gwneud ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu o dan ba amgylchiadau y ceir gwneir penodiadau ar sail wahanol.

Mae'r swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio atynt yn dal swyddi penagored, ac eithrio Cyfarwyddwyr Anweithredol sy'n cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd. Byddai terfynu'n gynnar, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal, fel y'i pennir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

**Tabl 3 Contractau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

| Enw | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod heb ddod i ben | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|
| Robert Ayling | 1 Ebrill 2011 | 1 flwyddyn a 3 mis | 1 mis |
| Peter Handcock | 4 Ionawr 1971 | Tan ei ymddeoliad | 3 mis |
| Steve Gillespie | 22 Tachwedd 1976 | Tan ei ymddeoliad | 3 mis |
| Shaun McNally | 17 Rhagfyr 1985 | Tan ei ymddeoliad | 3 mis |
| Guy Tompkins | 7 Tachwedd 2005 | Tan ei ymddeoliad | 3 mis |
| Kevin Sadler | 10 Medi 1984 | Tan ei ymddeoliad | 3 mis |
| Alison White | 1 Ebrill 2011 | 0 mlynedd | 1 mis |
| Francis Dobbyn | 1 Ebrill 2011 | 6 mis | 1 mis |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan[1] | Amh | Amh | Amh |
| Yr Arglwydd Ustus Gross[1] | Amh | Amh | Amh |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker[1] | Amh | Amh | Amh |

Nodiadau:
[1]Ni fydd aelodau barnwrol yn gweithredu o dan gontract.

### Buddion pensiwn

**Tabl 4 - Buddion pensiwn aelodau Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod trosglwyddo'r buddion hynny yn ystod ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**

| Enw | Pensiwn cronnus adeg cyrraedd oed pensiwn ar 31/3/14 a'r taliad unswm cysylltiedig £'000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r taliad unswm cysylltiedig adeg cyrraedd oed pensiwn £'000 | CETV ar 31/3/14 £'000 | CETV ar 31/3/13 £'000 | Cynnydd gwirioned dol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Robert Ayling **Cadeirydd Annibynnol** | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Peter Handcock **Prif Weithredwr** | 100 – 105 a dim taliad unswm | Amh[3] | 1,942 | 1,940 | Amh[3] |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Steve Gillespie **Cyfarwyddwr, Cyllid a Llywodraethu** | 40 – 45 a thaliad unswm o 125 – 130 | 2.5 – 5, a thaliad unswm o 7.5 – 8 | 836 | 742 | 46 |
| Guy Tompkins **Cyfarwyddwr, Troseddu** | 30 – 35 a thaliad unswm o 95 – 100 | 3.0 – 3.5, a thaliad unswm o 9.5 – 10 | 586 | 500 | 53 |
| Kevin Sadler **Cyfarwyddwr, Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd** | 35 – 40 a thaliad unswm o 105 -110 | 0 – 0.5, a thaliad unswm o 1 – 1.5 | 671 | 627 | 2 |
| Alison White | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] |
| Francis Dobbyn | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] | Amh[1] |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan **Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd** | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] |
| Yr Arglwydd Ustus Gross **Uwch Farnwr Llywyddol** | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Wa ker **Cynrychiolydd Barnwrol** | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] | Amh[2] |

Nodiadau:
Ni thelir dim cyfraniadau pensiwn ar ran aelodau Bwrdd Anweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[2]Telir i aelodau barnwrol yn rhinwedd eu swydd fel barnwyr ac ni chawsant ddim taliadau ychwanegol am fod yn gyfarwyddwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
[3]Dewisodd Peter Handcock beidio â bod yn rhan o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1/04/2012 Mae'r newid yn y CETV a gofnodwyd ar 31/03/13 ac ar 21/03/14 oherwydd mynegeio.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Gorffennaf 2007 ymlaen, caiff gweision sifil ddewis bod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig **clasurol**, premiwm neu **glasurol a mwy**); neu gynllun gyrfa cyfan (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a daw'r arian i dalu cost y buddion yn sgîl pleidlais yn y Senedd bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynllun **clasurol, premiwm**, **clasurol a mwy** a **nuvos** yn cynyddu bob blwyddyn  yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Caiff aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis un ai'r trefniant priodol â buddion diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (**cyfrif pensiwn partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gan gyflogeion wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **clasurol** a 3.5% ar gyfer **premiwm,** clasurol a mwy **a** nuvos.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn ar gyfer rhanddeiliaid. Bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (a dibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn rhanddeiliad sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai o blith rhai a gynigir gan banel o dri darparwr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniadau cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant am risg i fuddion a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd). Nid oedd unrhyw aelodau o Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn aelodau o gyfrif pensiwn partneriaeth.

Y pensiwn cronnus a gofnodwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd yr oed pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau'r cynllun **clasurol, premiwm a chlasurol a mwy** a 65 i aelodau **nuvos**


Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil i'w gweld ar y wefan http://www.civilservice.gov.uk/pensions

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddion mewn cynllun pensiwn wedi'u cyfalaf yn ôl asesiad gan actiwari sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn dibynnol sy'n daladwy i briod yr aelod o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad o gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid y gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo'n unig. Caiff y CETV ei gyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n rhoi cyfrif am unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan hawlir y buddion pensiwn.

**Gwir gynnydd mewn CETV**

Yr elfen o'r cynnydd mewn pensiwn cronnus a ariennir gan y Trysorlys yw hwn. Nid yw'n cynnwys y cynnydd o ganlyniad i chwyddiant a chyfraniadau sydd wedi'u talu gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod.



**Peter Handcock CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**20 Mehefin 2014**

# 7. Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo


O dan Adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhoddodd Trysorlys EM gyfarwyddyd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon (y Cyfrifon) ar y ffurf a’r sail sydd wedi’u nodi yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddodd Trysorlys EM ar 20 Rhagfyr 2013. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa’r Asiantaeth ac o’i hincwm a’i gwariant, ei henillion a cholledion cydnabyddedig a’r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu’r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Swyddog Cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Wrth baratoi Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae’n ofynnol i’r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- Cydymffurfio â’r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddodd Trysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Barnu ac amcangyfrif ar sail resymol;
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd wedi’u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y Cyfrifon;
- Paratoi’r Cyfrifon ar sail busnes hyfyw;
- Sicrhau, hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam dyladwy i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chadarnhau bod archwilwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymwybodol o’r wybodaeth honno.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra’r cyllid cyhoeddus y mae’r Swyddog Cyfrifyddu’n atebol drosto, dros gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac am baratoi Cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, wedi’u nodi yn y Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu a roddwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Managing Public Money.



**Peter Handcock CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

**20 Mehefin 2014**

# 8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## 1 Cyflwyniad

1.1 Darperir y Datganiad Llywodraethu hwn yn rhinwedd fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

1.2 Un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'i phrif nod yw cynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol, sy'n sicrhau bod modd cynnal cyfraith gwlad a bod drws cyfiawnder ar agor i bawb

1.3 Rwyf fi, y Swyddog Cyfrifyddu, wedi sefydlu fframwaith llywodraethu a strwythur rheoli i'r sefydliad i'm cynorthwyo i reoli'r prif risgiau y byddwn yn eu hwynebu. Rwy'n fodlon bod gennyf y systemau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i gynnal system ofalaeth fewnol effeithiol sy'n gefn i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion, gan ddiogelu ar yr un pryd yr arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol atebol amdanynt.

1.4 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithredu'n unol â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd ganddo sy'n nodi sail y bartneriaeth gweithredu rhwng yr Arglwydd Ganghellor (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder) a'r Arglwydd Brif Ustus. Fel Prif Weithredwr, rwy'n atebol i'r ddau, am weithrediadau a gweinyddiaeth yr Asiantaeth o ddydd i ddydd ac am arwain ei staff. Yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac yn y pen draw i'r Senedd.

1.5 Mae'r sefydliad bellach yn ei drydedd flwyddyn, wedi cael ei draed dano, ar ôl cynnal rhaglen ddiwygio strwythurol fawr yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae'r Bwrdd a minnau wedi parhau i oruchwylio a monitro ein perfformiad o'i gymharu ag amcanion strategol allweddol, gyda'r uwch reolwyr yn rhoi diweddariadau'n rheolaidd. Ceir adroddiad am ein perfformiad yn Adran 4. Mae Bwrdd hefyd eleni wedi parhau i ystyried, trafod a chynllunio ar gyfer sut y bydd y sefydliad yn gweithredu yn y dyfodol o fewn cyllidebau sy'n mynd yn fwyfwy heriol ac yn crebachu. Mae'r Bwrdd wedi cael diweddariadau rheolaidd am gynnydd Rhaglen Ddiwygio newydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n cynnig opsiynau ar gyfer ein sefydliad yn y dyfodol.

1.6 Mae gweddill y datganiad hwn yn dweud sut yr ydym wedi rheoli nifer o risgiau a materion pwysig eleni o ran gofalaeth a'r fframwaith gofalaeth sydd gennym sydd wedi ein galluogi i wneud hyn yn effeithiol.

## 2 Y fframwaith llywodraethu a'r strwythur rheoli

2.1 Disgrifir agweddau sylweddol ar y strwythur a'r fframwaith rheoli isod. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol, cynhaliwyd adolygiadau hunanasesu yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2014

2.2 **Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM -** mae'r Bwrdd yn chwarae rhan hanfodol yn llunio ac yn llywio'r sefydliad gan sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau cost-effeithiol o safon i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'n cynnig arweiniad ynghylch cyfeiriad cyffredinol y sefydliad o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion y mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wedi cytuno arnynt. Y Bwrdd sy'n gyffredinol gyfrifol am Lywodraethu Corfforaethol o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

2.3 Mae'r Bwrdd yn gweithio o fewn ffiniau'r Ddogfen Fframwaith a'r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arnynt. Cyhoeddir y ddwy ddogfen hyn ar fewnrwyd y sefydliad. Mae'r Ddogfen Fframwaith ar gael hefyd ar y wefan Cyfiawnder.

2.4 Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol ar effeithiolrwydd y Bwrdd gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol ym mis Chwefror 2013 ac fe gyflwynwyd y canlyniadau cryno i'r Bwrdd. Yna, cytunwyd ar weithgareddau gwella allweddol ac ar gyfer y rhain:

- rydym wedi manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu mwy â'n rhanddeiliaid allweddol ac mae Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi'i datblygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd.
- mae trefniadau llywodraethu wedi'u rhoi ar waith ym maes darparu gwasanaethau lle bydd gwariant ac atebolrwydd yn nwylo ein cyd-ddarparwyr gwasanaethau, ac
- fe wahoddodd y rheolwyr gweithredol y Bwrdd i ystyried y wybodaeth ariannol reolaidd a ddarperid, gan gynnal sesiwn ym mis Mawrth 2014 i nodi'r risgiau ar gyfer 2014-15.

2.5 Hwyluswyd trafodaeth gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder am ganlyniadau arolwg effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd ym mis Ebrill 2014. Bydd y gweithgareddau gwella a nodwyd yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a ddatblygir yn 2014-15.

2.6 Mae gan y Bwrdd dri is-Bwyllgor ffurfiol, sef:

2.7 **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** - (y Pwyllgor Archwilio gynt). Corff cynghori yw'r Pwyllgor hwn sy'n cefnogi'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd wrth iddo gyflawni'i gyfrifoldebau am reoli risg, gofalaeth a llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd a gynigir gan archwiliadau mewnol ac allanol, rheolwyr gweithredol a ffynonellau eraill, ac mae'n adolygu pa mor ddibynadwy a dilys yw'r sicrwydd hwnnw. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad sy'n tynnu sylw at faterion ac yn eu trosglwyddo at sylw'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod chwarterol.

2.8 Ym mis Chwefror 2013, hwyluswyd trafodaeth rhwng aelodau Swyddfa'r Archwilydd Cenedlaethol ag aelodau'r pwyllgor am ei adolygiad effeithiolrwydd hunan-asesu, ac fe nodwyd nifer o faterion pwysig yr oedd angen eu gwella eto yn ystod 2013-14. Yn gefn i hyn:

- mae ymgysylltu parhaus wedi bod â'r adran Archwilio a Sicrwydd Mewnol i sicrhau bod gweithgarwch archwilio'n cael ei gyflawni'n effeithiol a bod y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei drafod
- cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd rhwng Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a'r Cadeirydd i roi sicrwydd ynghylch unrhyw adroddiad archwilio Oren/Coch neu Goch.
- darparwyd cyfleoedd i aelodau'r Pwyllgor ddysgu'n barhaus gan gynnwys trefnu ymweliadau â'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd i ddarparu sicrwydd ynghylch meysydd megis Canlyniadau a rhoi'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a'r pecyn adrodd am Reoli Gweithredol Safonol ar waith, ac
- ailenwyd y Pwyllgor er mwyn tynnu sylw at y rôl bwysig y mae'n ei chwarae o ran sicrhau risg. Diwygiwyd y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r newid enw.

2.9 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i wahodd i hwyluso sesiwn adolygu effeithiolrwydd blynyddol ym mis Mai 2014. Bydd camau gwella a nodir yn sail i gynllun gweithredu a ddatblygir yn ystod 2014-15.

2.10 **Yr is-Bwyllgor Newid a Moderneiddio** - mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu a hybu newid i wireddu amcanion strategol y sefydliad ar ran y Bwrdd, gan ei

gefnogi wrth iddo wireddu strategaeth a pholisïau'r Asiantaeth a darparu ei gwasanaethau.

2.11 Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd cychwynnol ym mis Mawrth 2012 o dan arweiniad Cadeirydd yr is-Bwyllgor ac eto ym mis Mawrth 2013.

2.12 Roedd canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd yn 2013, yn dangos ymateb cadarnhaol o 83% yn y categori ar 'Amcanion, Strategaeth a Chylch Gwaith'; ymateb cadarnhaol o 80% ar 'Fesur Perfformiad'; ymateb cadarnhaol o 70% ar Reoli Risg; ymateb cadarnhaol o 69% ar 'Ystafell y Bwrdd'; ac ymateb cadarnhaol o 98% ar 'Gefnogaeth yr is-Bwyllgor'. Wrth ddadansoddi'r adolygiad yn fwy manwl, nodwyd y prif gamau gweithredu a ganlyn er mwyn sicrhau gwella parhaus yn ystod y flwyddyn:

- cynnal adolygiadau ôl-werthuso parhaus, prydlon a thrwyadl ar brif brosiectau, gan gynnwys canolbwyntio'n fanylach ar y buddion
- cryfhau'r prosesau ar gyfer dynodi ac adolygu'r prif risgiau
- rhagamcanion rheolaidd ar gyfer llifau arian parod yn y dyfodol yn y tymor canol yn ogystal ag yn y tymor byr, a
- dadansoddiad mwy trwyadl ar berfformiad o'i gymharu â chyllidebau, targedau a'r prif ganlyniadau.

2.13 Drwy gydol y flwyddyn, mae Swyddfa'r Portffolio Newid wedi parhau i roi sylw i'r pwyntiau hyn drwy ddatblygu a gweithredu proses gwersi a ddysgwyd. Drwy hyn, bu modd gwerthuso gwersi yn ystod prosiectau ac ar ôl iddynt ddod i ben. Mae'r ffocws ar berfformiad ariannol o hyd ac fe gynhyrchir adroddiadau ariannol sy'n fwyfwy trwyadl bob mis, gan gynnwys rhoi rhagor o bwyslais ar fonitro buddion a dadansoddi'r 'sefyllfa go iawn' a'r 'rhagamcanion' o'u cymharu ag achosion busnes gwreiddiol. Mae proses gwerthuso risgiau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cael ei rhoi ar waith ym mhob rhan o'r portffolio gan alluogi'r is-Bwyllgor i asesu'r prif risgiau'n glir a rhoi sylw penodol i'r rheini a allai ddylanwadu fwyaf ar y portffolio newid.

2.14 Ym mis Ebrill 2014, gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i drafod effeithiolrwydd y Pwyllgor a nodi unrhyw gamau ar gyfer gwella pethau eto. Bydd y gweithgareddau gwella a nodwyd yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a ddatblygir yn 2014-15.

2.15 **Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** - Corff cynghori yw'r Pwyllgor sy'n cynorthwyo'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau am reoli risg a sefydlu trefniadau gofalaeth effeithiol ym maes iechyd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn hybu iechyd a diogelwch drwy'r sefydliad ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys dyletswyddau cyfreithiol.

2.16 Ym mis Chwefror 2013, gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i ystyried set o gwestiynau wedi'u hwyluso i sbarduno trafodaeth am effeithiolrwydd y Pwyllgor ac i nodi unrhyw gamau ar gyfer gwella eto yn ystod 2013-14 Dyma'r prif gamau a godwyd a'r cynnydd wrth eu cyflawni:

- cymryd camau i ddarparu mecanweithiau i aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell, a
- gwella'r cyfathrebu drwy ddosbarthu'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol ar gyfer y Prif Weithredwr i'r aelodau.

2.17 Cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd blynyddol ym mis Chwefror 2014 ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn fodlon ar weithrediad y Pwyllgor. Yr unig gam gwella a nodwyd oedd y dylid rhannu pob Cynllun Cyflawni.

2.18 Wrth ystyried polisïau Iechyd a Diogelwch yr Asiantaeth, cytunodd Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sefydlu is-grŵp newydd i'r Bwrdd i ddwyn ynghyd y prif randdeiliaid er mwyn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau gofalaeth ar gyfer iechyd a diogelwch. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp hwn yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a fydd yn golygu bod amser i gyfleu polisïau a threfniadau adrodd newydd symlach ac amser iddynt fwrw gwreiddiau.

2.19 Mae manylion llawn yr aelodau a chofnodion presenoldeb y Bwrdd a'i is-Bwyllgorau yn yr atodlen yn yr Atodiad.

2.20 Yn ogystal â'r strwythur llywodraethu ffurfiol, mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM strwythur rheoli gweithredol ar waith ar gyfer ei fusnes gweithredol o ddydd i ddydd.

**Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog - Cod Arferion Da**

2.21 Mae'r cod hwn yn berthnasol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn uniongyrchol. Serch hynny mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi mabwysiadu'r egwyddorion allweddol sydd ynddo'n arferion gorau. Mewn adolygiad eleni, cadarnhawyd ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion pwysicaf, ac eithrio yng nghyswllt y Pwyllgor Enwebiadau, fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Cyflawnir prif swyddogaethau'r pwyllgor hwn drwy Bwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

## 3 Rheoli Risg

3.1 Mae systemau rheoli risg ar waith i adnabod, asesu a blaenoriaethu risgiau'n effeithlon ac yn effeithiol ac i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli ar lefel dderbyniol.

3.2 Roedd gan y sefydliad fframwaith rheoli risg ar waith drwy gydol y flwyddyn i adnabod, monitro a rheoli'r risgiau neu'r bygythiadau a allai ei atal rhag cyflawni ei amcanion ac i adrodd am y risgiau hynny. Mae'r polisi risg yn cwmpasu'r lefel ranbarthol y gyfarwyddiaeth ganolog a'r lefel gorfforaethol ac mae'n golygu bod modd rheoli risgiau ar y lefel briodol gan eu trosglwyddo i lefel uwch lle'r oedd angen.

3.3 Mae pecyn adrodd, y Pecyn Rheoli Risg a Sicrwydd, yn gweithredu ar lefel Rheolwyr Clystyrau a Chlercod Ynadon yn lle cofrestrau risg ffurfiol ac mae'n golygu bod modd rheoli'n effeithiol y risgiau a nodir ar y lefel weithredol (gweinyddol) a'r lefel gyfreithiol.

3.4 Mae proses ar waith hefyd i drosglwyddo risgiau i'w cofnodi ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder os bydd y risgiau'n croesi trothwy goddefgarwch y sefydliad. Rhoddir copïau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

3.5 Yn ystod mis Ebrill 2013, cymerodd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyfarwyddwyr Cyflawni Rhanbarthol ran mewn gweithdy risg i nodi'r prif risgiau a allai atal y sefydliad rhag cyflawni'r amcanion sydd yn ei gynllun busnes. Cadarnhawyd y risgiau hynny wedyn drwy'r Bwrdd a'u monitro a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Rheoli drwy adolygu'r gofrestr risg bob yn ail fis. Bydd y gofrestr risg yn cael ei hadolygu hefyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob chwarter. Eleni, gofynnodd y pwyllgor ar i'r gofrestr risg gael mwy o amlygrwydd yn ei agenda a bydd y rheolwyr yn awr yn darparu adroddiad mwy sylweddol ar wahân sy'n sôn yn fanwl am yr amgylchedd risgiau a newidiadau. Bydd Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn adolygu'r gofrestr risg bob chwe mis.

3.6 Mae'r gofrestr risg wedi parhau'n weddol sefydlog drwy gydol y flwyddyn adrodd ond mae'r sefydliad wedi rheoli ac mae'n dal i reoli nifer o risgiau sy'n cael eu sgorio'n uchel neu'n uchel iawn ac yn dal i fod felly ar ddiwedd y flwyddyn. Dyma'r risgiau hynny.

- **Manylebu a rheoli contractau a gwasanaethau canolog yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn weithredol effeithiol.** Bu angen rhoi sylw ar y lefel uchaf yn y sefydliad i anawsterau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau, drwy drafod hynny â chydweithwyr ym maes rheoli a chaffael contractau. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn yr adran sy'n dilyn am faterion pwysig yng nghyswllt gofalaeth.
- Bod y seilwaith **TG yn gydnerth ac yn hyblyg i ymdopi â gofynion y busnes.** Dyma un o'r risgiau mwyaf i'r sefydliad o hyd ond anelir gweithgarwch ym maes TGCh at sicrhau bod blaenoriaethau trefniadaethol allweddol yn cael eu cyflawni. Rhoddir cynlluniau busnes cadarn ar waith ar gyfer pob cynllun a bydd yr is-bwyllgor Newid a Moderneiddio yn eu hadolygu. Mae'r arian ar gyfer gweithredu gweithgareddau TG 'busnes fel arfer' wedi cael ei drosglwyddo i'r sefydliad eleni gan roi rhagor o reolaeth ac atebolrwydd iddo.
- **Nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn barod i roi Datrysiad Cydwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar waith**. Gallai'r risg hon darfu ar rediad llyfn y prosesu ariannol presennol petai'n cael ei gwireddu; mae'r risg wedi'i throsglwyddo'n ddiweddar o gofrestr risg lefel is i lefel uwch.. Mae uwch reolwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dal i ymgysylltu â'r rhaglen Cydwasanaethau ac wrthi'n paratoi cynlluniau wrth gefn.
- **Mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol â'n staff/partneriaid/rhanddeiliaid allweddol.** Mae'r risg hon yn cydnabod ei bod hi'n hanfodol ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid mewnol ac allanol, y farnwriaeth ac eraill er mwyn cyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus. Mae strategaethau cyfathrebu effeithiol ar waith ac yn cael eu hadolygu'n barhaus.
- **Cynllunio ar gyfer newid a allai gael effaith niweidiol drwy reoli rhaglenni'n dda ac ymyrryd er mwyn lliniaru'r risg hon.** Caiff y risg hon ei lliniaru drwy weithgarwch y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Newid ac yn benodol, yr is-Bwyllgor Newid a Moderneiddio sy'n gyfrifol am reoli risgiau sy'n codi i adnoddau, dibyniaethau, cyfathrebu, caffael, TGCh a'r ystâd, yn sgîl pob newid a moderneiddio yn y sefydliad.
- **Datblygu rhagor ar sgiliau a gallu arbenigol mewn meysydd allweddol**. Un o'r prif gamau lliniaru yw Bwrdd Newid Gweithlu Cenedlaethol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n sicrhau ac yn goruchwylio rhoi'r cynllun gweithlu cenedlaethol ar waith, bydd Byrddau Rhanbarthol y Gweithlu'n cefnogi ac yn monitro lefelau staffio'n rhanbarthol. Cynhelir Arolwg Ymgysylltu blynyddol â'r Staff i fonitro ysbryd y staff. Dadansoddir y canlyniadau a datblygir cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n destun pryder ac i ymgysylltu'n well â'r staff.
- **Rheoli'n effeithiol y risgiau i iechyd a diogelwch/gwarchodaeth.** Mae camau lliniaru allweddol yn cynnwys gwaith a oruchwylir gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol. Cyhoeddi a gweithredu polisi diwygiedig a chadarn sy'n cael ei gadarnhau drwy Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a chwmpasu dulliau o reoli iechyd a diogelwch ym Mhecyn Hunanasesu'r Dulliau Rheoli Gweithredu Safonol.

*Materion pwysig o ran Gofalaeth*

3.7 Er bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith, mae nifer o faterion pwysig wedi codi o ran gofalaeth yn ystod y flwyddyn adrodd, neu maent wedi parhau ers blynyddoedd blaenorol. Dyma rai ohonynt:

3.8 **Prosesu euogfarnau Moduro** - Mae'r Heddlu wedi parhau i ymchwilio i anghysonderau o ran cofnodi a chyfleu penderfyniadau ynghylch troseddau moduro yn y llysoedd ynadon, ar ôl i aelod o'r staff gael ei ddal yn euog o lwgrwobrwyo a chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Mae rhagor o bobl wedi'u harestio ac mae'r ymchwiliad ac achosion cyfreithiol yn mynd rhagddynt. Mae'r trefniadau gofalaeth wedi'u tynhau a'r timau rheoli yn y llysoedd

yr effeithiwyd arnynt wedi'u hatgyfnerthu. Mae adolygiad wedi'i gwblhau a nifer o argymhellion i wella'r trefniadau gofalaeth wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys dechrau adolygu'r broses gyfreithiol ar gyfer gwneud Datganiad Statudol. Er nad oes cysylltiad rhwng y ddau achos, gwelwyd achos tebyg mewn rhanbarth arall sydd wedi arwain at nifer o ddedfrydau sylweddol o garchar am rwystro cwrs cyfiawnder.

3.9 **Rheoli Contractau Cyflenwyr** - Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dibynnu ar wasanaethau a ddarperir drwy gyflenwyr cydwasanaethau sy'n cael eu caffael yn ganolog gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys contractau ar gyfer Rheoli Cyfleusterau Cyflawn (TFM), Gwasanaethau Hebrwng Carcharorion, Monitro Electronig a Chyfieithwyr ar y Pryd. Mae problemau wedi codi gyda darparu gwasanaethau ac mae'n destun pryder nad yw'r modelau rheoli contractau wedi bod yn gwbl effeithiol.

3.10 Mae problemau gyda chontractau penodol wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn, ac roedd hyn yn golygu ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr. Mae'r trefniadau rheoli contractau wedi cael eu hadolygu drwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyd yn ddiweddar a bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn adolygu'r argymhellion ac yn ystyried pa gamau sy'n ofynnol.

3.11 O ran y contract TFM mae'r cyflenwyr perthnasol wedi rhoi ad-daliad i'r sefydliad.

3.12 Yn y cyfamser, ar ôl canfod anghysonderau posibl yn y ffordd y mae'r contract monitro electronig yn gweithio, cyfeiriodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddau o'r cyflenwyr at y Swyddfa Twyll Difrifol ac yn sgil hynny, tynnwyd yn ôl o drafodaethau pellach yn y gystadleuaeth gyfredol ar gyfer y contract hwn. Cyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn y datganiad hwn gan ddweud ei fod yn destun adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

3.13 **Gweithgareddau Beilïaid Sifil** - Cychwynnwyd adolygiad o'r strwythur gofalaeth a strwythur y drefniadaeth sy'n llywodraethu gwaith ein beilïaid sifil ar ôl i anghysonderau godi yn ystod achos yn yr Uchel Lys a gafodd gryn sylw. Cychwynnwyd ymchwiliadau priodol ac maent yn mynd rhagddynt.

3.14 **System Gorfodi PentiP -** Adroddwyd y llynedd am system newydd a oedd yn cael ei rhoi ar waith gan y Swyddfa Gartref i gofnodi hysbysiadau cosbau penodedig a roddir gan yr heddlu ac a gesglir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae rhywfaint o broblemau o ran perfformiad a dibynadwyedd wedi effeithio ar roi'r system ar waith yn y Swyddfeydd Cosbau Penodedig ac mae hyn wedi arwain at brosesu achosion sydd wedi cronni yn safleoedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r materion hyn hefyd wedi arwain at broblemau ac oedi yn y broses gysoni. Canlyniad yr oedi hwn yw bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amodi Datganiad Ymddiriedaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2012-13. Serch hynny, mae cynlluniau wedi'u datblygu gyda'n cyflenwr trydydd parti i wneud iawn am yr achosion cysoni sy'n cronni erbyn cwblhau Datganiad Ymddiriedaeth 2013-14.

3.15 **Prosesu a chasglu ffioedd** - Mae prosesu a chasglu ffioedd yn gymhleth, yn enwedig yn y canolfannau mwy. Mae sawl adroddiad archwilio o'r bron wedi tynnu sylw at wendidau mewn systemau ac, mewn un achos, bu oedi wrth gasglu'r ffioedd a oedd yn ddyledus gan awdurdodau lleol ar gyfer achosion sensitif yn ymwneud â theuluoedd. Rydym wedi tynhau'r trefniadau gofalaeth, wedi gwella'r canllawiau sydd ar gael i'r staff ac wedi cyflwyno system olrhain newydd i wella ein cysylltiadau ag awdurdodau lleol.

3.16 **Ardystio trwyddedau gyrru (Cosb Benodedig)-** Rydym yn cydweithio â'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) i wella ansawdd ac effeithiolrwydd y broses ardystio trwyddedau. Digwyddodd hyn ar ôl inni gael tynnu ein sylw at risg fod nifer fach

iawn o blith dros filiwn o fodurwyr sy'n cael ardystio'u trwyddedau gan y llys bob blwyddyn, o bosibl yn osgoi cael eu gwahardd o dan y weithdrefn 'adio pwyntiau' oherwydd gwendidau yn y systemau.

3.17 Rydym wedi ymchwilio i hyn yn drwyadl ar y cyd â'r DVLA a byddwn yn rhoi camau cywiro ar waith yng Nghyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Rydym hefyd wedi gwella'r hyfforddiant i staff ac wedi cynyddu'r gwiriadau rheoli yn y Swyddfeydd Cosbau Penodedig.

3.18 **Adolygu contractau lesoedd tymor hir** - Cynhaliwyd adolygiad gan y rheolwyr o gontractau lesoedd tymor hir ar dir ac adeiladau'r cyrff a ragflaenodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a'r casgliad oedd bod nifer fach o gontractau heb sicrhau digon o werth am arian. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y datgeliadau angenrheidiol ac yn adrodd am y golled ddeongliadol a gydnabyddir yng nghyswllt y prosiectau hyn. Datgelir hyn yn nodyn 23. Mae'r fframwaith llywodraethu presennol a'r prosesau gofalaeth a ddefnyddir i werthuso penderfyniadau buddsoddi'n cael eu hystyried yn addas at y diben er mwyn atal hyn rhag digwydd eto ond mae ymarfer dysgu gwersi ffurfiol ar y gweill.

*Rheoli Risg Twyll ac Anghysondeb*

3.19 Yn unol â'r polisi a arddelir drwy'r llywodraeth, nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn goddef twyll nac anghysondeb o gwbl. Er mwyn lleihau a rheoli'r risg, mae gennym ar waith:

- fframwaith gofalaeth effeithiol sy'n cynnwys prosesau gofalaeth rhag twyll gyda'r nod o atal, canfod a rhwystro gweithgarwch twyllodrus
- cynllun ymateb cadarn i dwyll a phroses rheoli digwyddiadau sy'n cael ei rheoli'n dda.
- cynrychiolaeth ar Grŵp Gwrth Dwyll y Weinyddiaeth Cyfiawnder drwyddi draw
- strategaeth gwrth-dwyll weithredol gan gynnwys Cynlluniau Ymateb i Dwyll a pholisi chwythu chwiban
- proses archwilio sydd wedi'i diffinio'n dda ac sy'n chwim ac yn canolbwyntio ar adennill arian
- tîm o swyddogion arbenigol dynodedig i reoli ac archwilio digwyddiadau o dwyll ac anghysondeb
- pecyn hyfforddi ac asesu gorfodol trawslywodraeth y mae'n rhaid i holl staff a rheolwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ei ddilyn a'i basio, ac
- Un Pwynt Cyswllt â Heddlu Dinas Llundain yn "ActionFraud" er mwyn sicrhau bod pob ymchwiliad a gyfeirir yn rhedeg yn llyfn.

3.20 Mae gwerth cyffredinol a nifer y digwyddiadau o dwyll a ganfyddir yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gymharol fach ac ystyried natur a maint y sefydliad a faint o drafodion yr ymdrinnir â hwy bob dydd. Serch hynny, rydym wedi sylwi bod nifer yr achosion twyll yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac un ffactor sy'n cyfrannu at y nifer sy'n cael eu riportio yw bod pobl yn fwy ymwybodol o dwyll. Soniwyd am nifer o'r materion hyn yn gynharach yn y datganiad hwn.

3.21 Mae achosion o dwyll yn erbyn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnwys y rheini sy'n cael eu cyflawni gan drydydd partïon ac yn fewnol gan aelodau o'n staff ni'n hunain. Bydd pob digwyddiad yr adroddir yn ei gylch drwy'r llwybr riportio twyll dynodedig yn cael ei archwilio'n drwyadl a lle y profir bod gweithgarwch troseddol wedi digwydd, byddwn yn rhoi gwybod i'r heddlu, yn ceisio erlyniad ac yn cymryd camau disgyblu priodol.

*Iechyd, Diogelwch rhag Tân a Rheoli Risgiau Gwarchodaeth*

3.22 Mae tîm Diogelwch a Gwarchodaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda thîm dynodedig o Swyddogion Gwarchodaeth, iechyd, Diogelwch a Diogelwch rhag Tân Rhanbarthol sydd wedi'u lleoli yn yr Unedau Cymorth Rhanbarthol. Eu rôl yw rheoli'n effeithiol yr holl risgiau i warchodaeth, iechyd a diogelwch a risgiau tân yn eu rhanbarthau. Mae'r meysydd hyn wedi cael eu rheoli a'r hyfforddiant Iechyd, Diogelwch rhag Tân a Gwarchodaeth priodol yn cael ei ddilyn er mwyn mynd i'r afael â gwendidau.

3.23 Mae Diogelwch a Gwarchodaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi datblygu Polisi cyson a mesuradwy newydd ar gyfer Gwarchodaeth, Iechyd a Diogelwch a Diogelwch rhag Tân sy'n cysoni'r holl drefniadau ac yn lliniaru'r risgiau a allai fod wedi codi wrth groesi'r bont o'r hen sefydliadau. Mae'r polisi newydd a gymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'i roi ar waith yn 2013-14.

3.24 Asesiad yr archwiliad ar gyfer y cyfnod hwn o hyd yw Oren / Coch. Dechreuodd rhaglen archwiliadau gwarchodaeth, iechyd a diogelwch a diogelwch rhag tân yn Rhanbarthau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013 a bydd yn parhau drwy gydol 2014-15. Mae hyn yn cynnwys

- parhau i ymgysylltu â'r farnwriaeth wrth fwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu Gwarchodaeth Barnwrol.
- bwrw ymlaen â Gorchymyn Gwarchodaeth Tribiwnlysoedd 2014 a fydd yn rhoi'r un pwerau i Swyddogion Gwarchodaeth Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr ag sydd gan Swyddogion Gwarchodaeth y Llysoedd, ac
- adolygu siambrau Barnwyr Rhanbarth er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi safonau ar waith mewn ffordd gyson ledled ein hystâd,

*Rheoli Risg i Barhad y Busnes*

3.25 Mae cynlluniau ar gyfer Parhad y Busnes ar waith ar gyfer holl safleoedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Rydym yn dal i brofi trefniadau ar gyfer parhad y busnes bob blwyddyn yn y safle adfer sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer Canolfan Swmp y Llys Sirol, sef un o'n canolfannau prosesu swmp. Bu'r prawf yn llwyddiannus. Byddwn yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o'r prawf neu fe'u codir gyda'r cyflenwyr. Mae gennym drefniadau ar waith i sicrhau parhad y busnes ar gyfer Canolfan Hawliadau Arian y Llys Sirol a swyddfeydd cefn cenedlaethol eraill sydd erbyn hyn yn lliniaru'n effeithiol unrhyw risg bosibl i barhad gweithgareddau yn y dyfodol.

3.26 Mae'r broses sicrwydd bob dwy flynedd yn golygu y gallwn fesur y cynnydd o ran cydymffurfio â gofynion y cynlluniau. Mae nifer o safleoedd wedi ymdrin yn llwyddiannus â digwyddiadau sy'n effeithio ar barhad y busnes yn ystod 2013-14.

*Rheoli'r Risg o ran Gwybodaeth*

3.27 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i sicrhau bod data'r cyhoedd wedi'u diogelu'n briodol ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i'r cyhoedd.

3.28 Dyma rai o'r prif gamau gofalaeth sy'n cael eu rhoi ar waith gennym i reoli ein cyfrifoldebau i ddiogelu gwybodaeth:

- Bydd Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, sy'n aelod o'r Bwrdd yn arwain ac yn cyfeirio'r gwaith diogelu gwybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau gorfodol y llywodraeth sydd yn y Fframwaith Polisi Gwarchodaeth gyda thîm diogelu gwybodaeth dynodedig ac arbenigol yn gefn iddo.

- Y Grŵp Gwarchod Gwybodaeth sydd â rheolwyr wedi'u penodi o swyddi strategol allweddol yn y sefydliad. Mae'r grŵp yn darparu sicrwydd ac yn sicrhau bod ein System Rheoli Gwarchod Gwybodaeth yn gefn i weithrediadau effeithiol a'i bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac â gofynion Llywodraeth EM.
- Hyfforddiant newydd am Gategorïau Gwarchod y Llywodraeth dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet y mae gofyn i bob aelod o'r staff ei ddilyn.
- Bydd Perchnogion Asedau Gwybodaeth Enwebedig yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ac maent wedi dilyn hyfforddiant wedi'i dargedu yng nghyswllt eu rolau.
- Adolygiad cynhwysfawr o'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth. Mae'r asedau ar y gofrestr wedi'u hasesu a'u graddio gan y tîm Sicrhau Gwybodaeth canolog ar y cyd â pherchnogion yr asedau.
- Cytundebau Rhannu Data gyda chyflenwyr, adrannau eraill y llywodraeth a chyrff ymchwil i rannu gwybodaeth bersonol sydd wedi'i hymddiried inni.
- Adolygiadau cydymffurfio parhaus yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i adolygu effeithiolrwydd polisïau, canllawiau, gweithdrefnau a phrosesau.
- Gweithdrefnau effeithiol i ymdrin â digwyddiadau data sy'n sicrhau bod unrhyw golled yn cael ei riportio, a'r adroddiad yn cael ei drosglwyddo i lefel uwch yn brydlon ac yn cael ei drafod ar y lefel briodol o fewn yr Asiantaeth.

3.29 Mae nifer o fân feysydd rydym wedi'u nodi nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion gorfodol y Fframwaith Polisi Gwarchod. Yn benodol, ni chynhaliwyd asesiadau risg ffurfiol chwarterol blynyddol ar asedau gwybodaeth. Serch hynny, cynhaliwyd asesiadau risg ar asedau gwybodaeth o bryd i'w gilydd gan reolwyr gweithredol pan fyddai hynny'n briodol a hefyd gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth a'r tîm gwybodaeth canolog ar y cyd â'r adolygiad o'r gofrestr asedau.

3.30 Yn ystod y flwyddyn, adroddwyd ynghylch nifer o achlysuron pan dorrwyd rheolau Gwarchod Gwybodaeth ac yr ystyrid y gallai hynny gael effaith ddifrifol. Roedd a wnelo'r digwyddiadau hyn â methiannau i warchod gwybodaeth bersonol partïon agored i niwed mewn achosion sensitif gan arwain at gyflwyniadau i weinidogion. Dyma'r digwyddiadau hynny.

- Rhyddhau gwybodaeth bersonol i ddiffynnydd am ddioddefwyr (ceisydd) mewn achos trais domestig. Roedd y wybodaeth a ryddhawyd yn cynnwys cyfeiriad a rhifau ffôn y ceisydd - gwybodaeth nad oedd y diffynnydd yn ymwybodol ohoni cyn hynny. Mae'r ceisydd wedi cael ymddiheuriad am y datgeliad ac mae camau wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto. Roedd staff y rhanbarth i gyd wedi cael eu hatgoffa pa mor bwysig yw cadw data'n ddiogel.
- Cyflwynwyd gorchymyn cyfraith gyhoeddus gan y llys i barti (tad wedi ymddieithrio) a oedd ar y pryd wedi'i wahardd rhag gwybod ymhle'r oedd y rhiant â gofal y plentyn. Roedd y gorchymyn yn rhoi manylion enw newydd y fam a'i chyfeiriad i'r tad a oedd wedi ymddieithrio. Cynhaliwyd adolygiad lleol ar berfformiad gweinyddiaeth y llys ac mae'r awdurdod lleol wedi nodi camau i atal digwyddiad tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.
- Ymddangosodd enwau dau ddiffynnydd benywaidd ar restrau'r llysoedd cyhoeddus yn groes i orchymyn Adran 39 a oedd yn gwahardd yn benodol gyhoeddi enwau a allai fod wedi arwain at adnabod plant a oedd yn ddioddefwyr. Canlyniad gwall gweinyddol wrth restru oedd hyn. Ac ystyried natur yr achos, tybiwyd bod cyfyngiadau ar adrodd ar waith, ac na roddid cyhoeddusrwydd i'r enwau, nes i aelod o'r cyhoedd eu cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cwblhau ymchwiliad mewnol ac maent yn cynorthwyo'r Comisiynydd Gwybodaeth â'i ymchwiliadau.

- Rhyddhau, i'r fam waed, enw a chyfeiriad darpar fabwysiadwyr ei phlant. Mae ymchwiliad ffurfiol i'r digwyddiad wedi'i gynnal. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa am eu cyfrifoldeb i gadw data'n ddiogel ac mae'r ardal wedi cymryd cam i ganoli'r broses fabwysiadu mewn tîm arbenigol o'r flwyddyn adrodd newydd ymlaen.

3.31 Roedd a wnelo'r rhan fwyaf helaeth o ddigwyddiadau eraill yng nghyswllt data â cholli trwyddedau gyrru wrth eu hanfon, er bod y colledion hyn yn llai na 0.01% o'r holl drwyddedau a anfonir bob blwyddyn a bod nifer y digwyddiadau'n is nag yn y flwyddyn flaenorol.

## 4 Goruchwylio a sicrwydd

4.1 A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system ofalaeth fewnol. Mae fy adolygiad i o effeithiolrwydd y system ofalaeth fewnol wedi'i seilio ar waith fy rheolwyr gweithredol. Hwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal ac adrodd am y fframwaith gofalaeth mewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

4.2 Mae gan y sefydliad brosesau gwarchod ar waith i roi sicrwydd i'r rheolwyr ynghylch risgiau ariannol a gweithredol. Mae'r prosesau hyn yn cael eu gwella a'u hadolygu o hyd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, yn effeithiol ac yn berthnasol. Disgrifir y prosesau hyn isod.

4.3 **Pecyn Hunanasesu'r Trefniadau Gofalaeth Gweithredu Safonol** - pecyn sicrwydd yw hwn ar gyfer adrodd i ba raddau y cydymffurfir â'r trefniadau gofalaeth gorfodol sydd yn y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar lefel weithredol. Eleni, rydym wedi parhau i sicrhau bod y pecyn hwn yn bwrw gwreiddiau'n iawn er mwyn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd cymesur.

4.4 Adroddwyd y llynedd am brosiect i wella dyluniad a gweithrediad y Gweithdrefnau hyn. Roeddem am wella'r ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi ac yn diwallu anghenion staff a chwsmeriaid. Sefydlwyd meini prawf seiliedig ar risg i weld pa weithgareddau sy'n peri'r risg fwyaf er mwyn lleihau nifer y Gweithdrefnau ac er mwyn darparu sicrwydd cymesur ar sail y prif risgiau i'r busnes. Daeth y gwaith hwn i ben yn ystod y flwyddyn gyda phroses newydd i gynhyrchu'r Gweithdrefnau'n cael ei sefydlu ynghyd â dyluniad mwy hwylus i'r defnyddiwr ar eu cyfer a Chardiau Swyddi'n cefn iddynt. Bydd y sefydliad newydd yn symud yn raddol at ddefnyddio'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol newydd.

4.5 Er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y sicrwydd sydd ar gael, mae trefniadau gofalaeth allweddol wedi'u nodi ar gyfer pob un o weithgareddau'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol. Bydd y sicrwydd yn deillio o lefel y cydymffurfio â'r trefniadau gofalaeth allweddol hyn. Bydd cysylltiadau electronig â'r trefniadau gofalaeth allweddol hyn ar gael ym mhecyn y trefniadau gofalaeth gweithredu safonol i gynorthwyo'r staff. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Taflenni Gwirio'r Trefniadau gofalaeth Allweddol ar gyfer pob Gweithdrefn Gweithredu Safonol yn y pecyn.

4.6 **Datganiadau Llywodraethu Chwarterol a Blynyddol ar lefel Cyfarwyddwyr** - bydd pob Cyfarwyddwr Canolog a Rhanbarthol yn cyflwyno datganiadau chwarterol, sy'n cynnwys materion ynghylch gwarchodaeth a godir gan dimau rheoli'r cyfarwyddiaethau a thimau rheoli rhanbarthol ac a drosglwyddir i'r Uwch Dimau Rheoli er mwyn iddynt eu hadolygu. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys adrodd am ffynonellau gwarchodaeth mewnol ac yn ei dro mae hyn yn cynnig sicrwydd a threfniadau gwarchod allweddol sefydledig.

4.7 Hefyd, bydd y Bwrdd a minnau'n cael sicrwydd drwy'r canlynol:

- Adroddiadau cyfoes a chynhwysfawr am gyllid a pherfformiad sy'n cael eu cyflwyno yn eu cyfarfodydd rheolaidd.
- Gweithdrefnau ariannol a gweinyddol sy'n cynnwys dirprwyo awdurdod ariannol a gwahanu dyletswyddau yng nghyswllt prosesau ariannol allweddol.
- Y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n darparu nifer o wasanaethau i'r Asiantaeth, i wella gwerth am arian ac i gefnogi datblygu gwasanaethau corfforaethol proffesiynol cyson. Ym meysydd adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau caffael a rheoli ystadau, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael sicrwydd ynghylch eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- Bydd y Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am broffil risg ac effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol drwy gael cofnodion gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, drwy adolygu adroddiadau perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a thrwy gael adborth uniongyrchol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd y Bwrdd hefyd yn cael y gofrestr risg ar sail chwe misol.
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n goruchwylio pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli risg a'r system warchodaeth fewnol ar gyfer y sefydliad. Adolygwyd y gofrestr risgiau corfforaethol yn rheolaidd a chynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth gan y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu cysylltu'n ddidrafferth ac mewn ffordd gyfrinachol â Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, â'r Isadran Archwilio a Sicrwydd Mewnol ac â'r archwilwyr allanol, yn ôl y gofyn.
- Yr Adroddiad Gwerth am Arian ac adroddiadau eraill a gyhoeddir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae nifer o adroddiadau wedi bod eleni sy'n adrodd am weithgareddau sy'n berthnasol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
  - Confiscation Orders HC 738 17 Rhagfyr 2013 - roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a llywodraethu ym maes gorchmynion atafaelu ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu strategaeth drawslywodraethol ar gyfer ymdrin â'r gorchmynion hyn a datblygu trefniadau llywodraethu mwy effeithiol. Rydym wrthi'n asesu'r camau sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
  - The MOJ's electronic monitoring contracts HC737 19 Tachwedd 2013 - Roedd yr adroddiad hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn canolbwyntio ar y digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â phroses y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2013 i roi ei chontract monitro electronig allan i gystadleuaeth eto rhwng dau ddarparwr a phenderfyniad wedyn i gomisiynu archwiliad fforensig o'r contractau hyn gan PricewaterhouseCoopers.
  - The MOJ's language services contract: progress update HC995 22 Ionawr 2014. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio cynnydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth reoli'r contract gwasanaethau iaith ac ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn awgrymu ein bod wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion blaenorol er bod gofyn gwella a rhoi pethau ar waith yn gyflymach o hyd mewn rhai meysydd.

4.8 Un o'r prif feysydd lle y ceir sicrwydd annibynnol yn yr Asiantaeth yw yn sgîl gweithgareddau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a ddarperir gan Archwilio a Sicrwydd Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n cyflawni Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae cysylltiad clos rhwng y rhaglen archwilio mewnol a'r prif risgiau i'r Asiantaeth ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y Swyddog Cyfrifyddu'n ymwybodol o unrhyw faterion o bwys sy'n awgrymu nad yw'r prif risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol

4.9 Llwyddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol i roi Sicrwydd Rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system lywodraethu, rheoli risg a gwarchodaeth fewnol. Rhoddwyd sgôr

oren/gwyrdd neu wyrdd i'r rhan fwyaf o'r adroddiadau archwilio a gafwyd, er bod lleiafrif sylweddol o archwiliadau ar systemau a sgoriwyd yn oren/coch. Roedd fframwaith gofalaeth ar waith, roedd y rheolwyr yn derbyn yr argymhellion a wnaethpwyd ac fe gymerwyd camau effeithiol i wella'r warchodaeth.

## 5 Casgliad

5.1 Rwy'n fodlon bod gennym drefniadau llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd ar waith fel y'u disgrifir yn y datganiad hwn. Bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus wrth i'r sefydliad barhau i esblygu.

5.2 Lle y gwelwyd bod problemau o bwys o ran gwarchodaeth yn y datganiad hwn, rwy'n fodlon eu bod yn cael eu hadolygu'n drwyadl a bod camau priodol, effeithiol a chymesur i'w lliniaru'n cael eu rhoi ar waith i reoli'r materion hynny.

**Peter Handcock CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**20 Mehefin 2014**

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2013-14

| | **Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM** | | **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** | | **Yr Is-bwyllgor Newid a Moderneiddio** | | **Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | Nifer y cyfarfodydd cymwys |
| Robert Ayling – Cadeirydd Annibynnol | **8** | **11** | | | | | | |
| Francis Dobbyn – Aelod Anweithredol | **10** | **11** | **5** | **5** | | | | |
| Alison White – Aelod Anweithredol | **9** | **11** | **5** | **5** | **9** | **11** | | |
| Yr Arglwydd Ustus Gross - Uwch Farnwr Llywyddol | **11** | **11** | | | | | | |
| Y Barnwr Rhanbarth Michael Walker - Aelod Barnwrol | **11** | **11** | **5** | **5** | **10** | **11** | | |
| Yr Arglwydd Ustus Sullivan – Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | **10** | **11** | | | | | | |
| Peter Handcock – Prif Weithredwr | **11** | **11** | **4** | **5** | | | | |
| Steve Gillespie – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu | **11** | **11** | **5** | **5** | **10** | **11** | **3** | **4** |
| Guy Tompkins – Cyfarwyddwr Troseddu | **11** | **11** | | | **11** | **11** | | |
| Kevin Sadler - Cyfarwyddwr, Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd | **9** | **11** | | | **10** | **11** | | |
| Sarah Albon - Cyfarwyddwr Strategaeth a Newid | | | | | **9** | **11** | | |
| Dileeni Daniel-Selvaratnam – Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Newid | | | | | **7** | **11** | | |
| Chris Ball – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | | | | **8** | **11** | | |
| Paul Shipley – Cyfarwyddwr TG | | | | | **8** | **11** | | |
| HHJ Sycamore – Cynrychiolydd Barnwrol | | | | | **7** | **11** | | |
| Lucy Garrod – Cyfarwyddwr Cyflawni, | | | | | **9** | **10** | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canoldir Lloegr | | | | | | | | |
| Cynrychiolydd Rheolwyr y Swyddfa Prosiectau | | | | | 11 | 11 | | |
| Y Barnwr Nick Warren – Aelod Barnwrol | | | 5 | 5 | | | | |
| Penny Seera – Pennaeth Cyfrifon Ariannol | | | 5 | 5 | | | | |
| Gary Spooner – Pennaeth Llywodraethu / Sicrwydd | | | 2 | 3 | | | | |
| Tim Watkinson – Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Mewnol y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | 5 | 5 | | | | |
| Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | | | 5 | 5 | | | | |
| Cynrychiolydd Newid - Cyllid | | | | | 4 | 7 | | |
| Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr | | | | | | | 3 | 4 |
| Cynrychiolydd Rhanbarthau Gogledd-orllewin/Canoldir Lloegr a De-orllewin Lloegr | | | | | | | 4 | 4 |
| Cynrychiolydd Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr | | | | | | | 3 | 4 |
| Cynrychiolydd Rhanbarth Llundain | | | | | | | 3 | 4 |
| Cynrychiolydd Cymru | | | | | | | 3 | 4 |
| Cynrychiolwyr Adrannol Ochr yr Undebau Llafur | | | | | | | 4 | 4 |
| Swyddog Iechyd, Diogelwch a Thân | | | | | | | 3 | 4 |
| Cynrychiolydd Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | | | | | | 4 | 4 |

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwy'n tystio imi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Daliadau y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd.**
Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg. Rwyf fi'n gyfrifol am archwilio'r datganiadau ariannol ac am eu hardystio ac adrodd yn eu cylch, yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). . Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau digon o dystiolaeth ynglŷn â'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed hwnnw'n deillio o dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n foddhaol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan yr Asiantaeth; a chyflwyniad y datganiadau ariannol yn gyffredinol. Yn ogystal â hynny, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol i nodi anghysondebau o bwys o'u cymharu â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth o bwys sydd i bob golwg yn anghywir yn ei hanfod, neu'n anghyson ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Petawn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau amlwg o bwys, byddwn yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.
Mae gofyn i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn am reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn am ddatganiadau ariannol**
Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2014, ac o'r costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a luniwyd yn ei sgil.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i:
- mae'r rhan o'r Adroddiad am Daliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Strategol a'r Sylwebaeth Reoli ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd amdanynt fel eithriad yn unig**
Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, y byddaf yn adrodd amdanynt os credaf:
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; na bod datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi eu derbyn gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad am Daliadau sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen er mwyn archwilio; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos eu bod yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas C E Morse** **23 Mehefin 2014**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

# 9. Cyfrifon

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddu:** | | | |
| Costau'r staff a'r farnwriaeth | 3 | 16,083 | 16,828 |
| Costau gweinyddu eraill | 4.1 | 52,499 | 62,689 |
| | | 68,582 | 79,517 |
| Incwm | 5 | (807) | (859) |
| **Costau gweinyddu net** | | **67,775** | **78,658** |
| | | | |
| **Costau'r rhaglen:** | | | |
| Costau'r staff a'r farnwriaeth | 3 | 978,539 | 996,589 |
| Costau eraill y rhaglen | 4.1 | 801,117 | 804,172 |
| Costau cyllid | 4.2 | 18,358 | 39,856 |
| | | 1,798,014 | 1,840,617 |
| Incwm | 5 | (636,834) | (594,592) |
| **Costau net y rhaglen** | | **1,161,180** | **1,246,025** |
| **Cost gweithredu net** | | **1,228,955** | **1,324,683** |


### Gwariant Cynhwysfawr Arall

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Cost gweithredu net | | 1,228,955 | 1,324,683 |
| (Enillion) net ar ailbrisio eiddo, offer ac eiddo buddsoddi | | (147,934) | (95,868) |
| Colled / (enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 14.3 | 504 | (233) |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr** | | **1,081,525** | **1,228,582** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 68 i 119 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo ac offer | 6 | 2,958,991 | 2,826,632 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 49,683 | 53,599 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 188 | 219 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **3,008,862** | **2,880,450** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 7 | 17,854 | 18,349 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 83,854 | 114,060 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | 25,691 | 106 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **127,399** | **132,515** |
| **Cyfanswm asedau** | | **3,136,261** | **3,012,965** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | - | (57,500) |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 12 | (256,611) | (245,601) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau | 14 | (11,866) | (11,347) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(268,477)** | **(314,448)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,867,784** | **2,698,517** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 12 | (421,807) | (461,252) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau | 14 | (133,378) | (116,343) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(555,185)** | **(577,595)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **2,312,599** | **2,120,922** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Y Gronfa gyffredinol | | 1,864,611 | 1,805,047 |
| Cronfeydd ailbrisio wrth gefn | | 447,988 | 315,875 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **2,312,599** | **2,120,922** |



**Peter Handcock CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**20 Mehefin 2014**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 68 i 119 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad am y Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | Y Gronfa gyffredinol | Cronfeydd ailbrisio wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **1,667,765** | **252,725** | **1,920,490** |
| Arian gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 1,108,320 | - | 1,108,320 |
| Cost gweithredu net | | (1,324,683) | - | (1,324,683) |
| Addasiadau yng nghyswllt asedau anghyfredol Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | 6 | 3,402 | - | 3,402 |
| Costau tybiannol: | | | | |
| Cyflogau barnwrol y gronfa gyfunol | 13 | 141,190 | - | 141,190 |
| Taliadau i archwilwyr allanol | 13 | 340 | - | 340 |
| Ad-daliadau adrannol | 13 | 175,762 | - | 175,762 |
| Ailbrisio eiddo, offer ac eiddo buddsoddi | | - | 95,868 | 95,868 |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 14.3 | 233 | - | 233 |
| Ailgategoreiddio o'r cronfeydd ailbrisio wrth gefn | | 32,718 | (32,718) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **1,805,047** | **315,875** | **2,120,922** |
| Arian gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 930,000 | - | 930,000 |
| Setliad rhyng-gwmni â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 114,155 | - | 114,155 |
| Cost gweithredu net | | (1,228,955) | - | (1,228,955) |
| Addasiadau yng nghyswllt asedau anghyfredol Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | 6 | 3,627 | - | 3,627 |
| Costau tybiannol: | | | | |
| Cyflogau barnwrol y gronfa gyfunol | 13 | 140,846 | - | 140,846 |
| Taliadau i archwilwyr allanol | 13 | 350 | - | 350 |
| Ad-daliadau adrannol | 13 | 84,224 | - | 84,224 |
| Ailbrisio eiddo, offer ac eiddo buddsoddi | | - | 147,934 | 147,934 |
| (Colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 14.3 | (504) | - | (504) |
| Ailgategoreiddio o'r cronfeydd ailbrisio wrth gefn | | 15,821 | (15,821) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **1,864,611** | **447,988** | **2,312,599** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 68 i 119 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Llifau Arian ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Costau gweithredu net | | (1,228,955) | (1,324,683) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a thrafodion nad ydynt yn arian parod | 13 | 353,898 | 464,887 |
| Costau cyllid | 4.2 | 18,358 | 39,856 |
| (Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (36,405) | (12,532) |
| Cynnydd / (gostyngiad ) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | | 130,178 | (120,187) |
| Defnyddio darpariaethau | 14 | (12,535) | (145,207) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **(775,461)** | **(1,097,866)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo ac offer | 13.1 | (66,470) | (91,974) |
| Elw o waredu eiddo ac offer ac asedau a ddelir i'w gwerthu | | 18,180 | 35,733 |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | (339) | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(48,629)** | **(56,241)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Arian gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | 930,000 | 1,108,320 |
| Elfen gyfalaf contractau Mentrau Cyllid Preifat | | (8,926) | (8,925) |
| Elfen gyfalaf lesoedd cyllid | | 46 | (287) |
| Ad-dalu benthyciadau Awdurdodau Lleol | | (3,191) | (2,916) |
| Llog a dalwyd | 4.2 | (10,754) | (11,474) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **907,175** | **1,084,718** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | 11 | **83,085** | **(69,389)** |
| **Arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 11 | **(57,394)** | **11,995** |
| **Arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | **25,691** | **(57,394)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 68 i 119 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau am y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2014

## 1 Datganiad am y polisïau cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2013-14 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn rhoi'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ar waith yn unol â'r ffordd y'u dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus.

Lle bydd FReM yn caniatáu i rywun ddewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM at ddiben rhoi golwg gwir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael eu disgrifio isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol, ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

Wrth baratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol defnyddio amcangyfrifon critigol penodol ar gyfer cyfrifyddu (gweler nodyn 1.27). Mae hefyd yn ofynnol i'r rheolwyr ddefnyddio'u crebwyll wrth roi'r polisïau cyfrifyddu ar waith.

### 1.2 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM - Gweinyddu a'r Rhaglen

Mae'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn gwahaniaethu rhwng incwm a gwariant Gweinyddu ac incwm a gwariant y Rhaglen. Wrth ddosbarthu incwm a gwariant o dan Weinyddu a'r Rhaglen, dilynir y diffiniad o gostau gweinyddu a roddir yn yr Adolygiad o Wariant gan Drysorlys EM. Mae'r gwariant ar weinyddu'n adlewyrchu costau cynnal Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM tra bo costau'r rhaglen yn ymwneud â gweithgareddau i ddarparu gwasanaethau.

### 1.3 Newidiadau i'r polisi cyfrifyddu, a datgeliadau

**a) Newidiadau i'r polisi cyfrifyddu**

**Ni newidiwyd polisïau cyfrifyddu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y flwyddyn.**

**b) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig**

Mae'r Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 1 'Presentation of Financial Statements - Other Comprehensive Income' (yn effeithio ar gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Gorffennaf 2012 neu wedyn), ac fe ellir dewis cyflwyno gwariant cynhwysfawr arall mewn datganiad ar wahân o'r eitemau cost gweithredu net, ac ail-gategoreiddio eitemau gwariant cynhwysfawr eraill i gostau gweithredu net. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi dilyn gofynion IAS 1 yn llawn yn y Cyfrifon hyn.

Nid oes dim dehongliadau eraill gan yr IFRS nac IFRIC sy'n cael eu rhoi ar waith am y tro cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2013 neu wedi hynny.

**c) Cyhoeddwyd safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau ond nid ydynt yn dod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2013 ac nid ydynt ychwaith wedi'u mabwysiadu'n gynnar**

Ni ddisgwylir i'r safonau newydd nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto effeithio'n sylweddol ar gyfrifon y Grŵp yn y dyfodol.

## 1.4 Newidiadau i Beirianwaith y Llywodraeth ac ailddatgan cymaryddion

Mae'n ofynnol rhoi cyfrif am newidiadau i Beirianwaith y Llywodraeth, sy'n cynnwys trosglwyddo swyddogaethau neu gyfrifoldebau rhwng dwy ran o adrannau'r sector cyhoeddus/y llywodraeth neu fwy, drwy ddefnyddio'r egwyddorion cyfrifyddu uno lle bydd swyddogaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng grwpiau adrannol o fewn y llywodraeth ganol yn unol â FReM. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd cymaryddion y flwyddyn flaenorol yn cael eu hailddatgan fel sy'n briodol, er mwyn iddo ymddangos fel petai'r endid wedi bodoli ar ei ffurf bresennol erioed. Ar gyfer holl gyfuniadau busnes eraill y sector cyhoeddus defnyddir cyfrifyddu amsugno.

Nid oes dim newidiadau wedi bod i Beirianwaith y Llywodraeth yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14.

## 1.5 Incwm

Incwm gweithredu yw incwm sy'n uniongyrchol berthnasol i weithgareddau gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac felly mae'n cael ei gydnabod fel refeniw yn y SoCNE.

Mae'n cynnwys yn bennaf incwm ffioedd ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol a'r costau sy'n cael eu hadennill gan adrannau eraill y llywodraeth. Mae incwm gweithredol arall yn cynnwys ffioedd beilïaid, incwm rhent a derbyniadau amrywiol (er enghraifft gwerthu cyhoeddiadau). Nid yw'r incwm sy'n cael ei ddatgan yn cynnwys TAW.

Mae'r arian gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion FReM.

## 1.6 Incwm ffioedd

Mae incwm ffioedd yn cynnwys symiau am wasanaethau a roddir i ddefnyddwyr y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r tribiwnlysoedd. Mae'r elfennau lle mae taliad wedi'i derbyn, ond sy'n berthnasol i waith sydd heb ei gwblhau eto, yn cael eu cadw yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel incwm gohiriedig. Mae'r incwm gohiriedig wedyn yn cael ei gydnabod yn incwm ar ôl i'r gwasanaeth gael ei gwblhau.

Mae'r pwynt pan gydnabyddir y refeniw yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r gwasanaeth unigol a ddarperir. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r llifau incwm, y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw cychwyn y cais, sy'n dechrau ar unwaith pan fydd y cais yn cael ei dderbyn. Mae ffi sy'n dod gyda'r cais felly'n cael ei chydnabod incwm ar unwaith pan gaiff ei derbyn.

Ar gyfer llifau incwm penodol ar ffurf ffioedd, megis gwarantau ac asesiadau, amcangyfrifir y cyfnod ar gyfer gwneud y cais (wythnos gan amlaf) a dyma sut y pennir yr elfen ohiriedig.

Ar gyfer llifau incwm o ffioedd eraill, megis deisebau, apeliadau a phrofiant, cedwir cofnodion penodol gyda golwg ar y gwasanaethau sydd heb eu darparu eto, ac fe gaiff yr incwm gohiriedig ei bennu'n uniongyrchol ar sail y rhain.

Mae'r incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan heb gynnwys ffioedd sy'n cael eu dileu a'u hepgor (REMEX). Mae'r cynllun REMEX yn cael ei bennu yn y Gorchmynion Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd ac nid yw ffioedd a ddilëir yn cael eu casglu gan Wasanaeth Llysoedd a

Thribiwnlysoedd EM. Cytunir ar amcan ariannol adennill cost lawn net REMEX â Thrysorlys EM er mwyn sicrhau nad yw drws cyfiawnder ar gau i unigolion oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio talu'r ffioedd a bennwyd.

## 1.7 Datganiad Ymddiriedaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Er 2010-11, mae Trysorlys EM wedi'i gwneud yn ofynnol i adrannau'r Llywodraeth sy'n casglu refeniw perthnasol o drethi, tollau, dirwyon a chosbau, ar ran y Gronfa Gyfunol, baratoi Datganiad Ymddiriedolaeth ar wahân sy'n adrodd yn benodol am y gweithgareddau ariannol sy'n ymwneud â chasglu arian o'r fath.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sef Asiantaeth Weithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am gasglu dirwyon a chosbau ariannol a orfodir gan y system cyfiawnder troseddol, yn paratoi Datganiad Ymddiriedaeth ar wahân y dylid ei ddarllen ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae'r Datganiad Ymddiriedaeth yn rhoi cyfrif am ddirwyon a chosbau a orfodwyd gan y system cyfiawnder troseddol fel refeniw sy'n daladwy yn y pen draw i'r Gronfa Gyfunol, ar sail gros. Mae hefyd yn rhoi cyfrif am yr arian parod a'r balansau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol ac i drydydd partïon yng nghyswllt casglu symiau'r dirwyon a chosbau.

## 1.8 Costau nad ydynt yn arian parod

Mae costau nad ydynt yn arian parod yn y SoCNE yn cynnwys cydnabyddiaeth i archwilwyr allanol, sef yr hyn a delir i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, taliadau a ailgodir ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder am orbenion adrannol.

Ymhlith y costau eraill nad ydynt yn arian parod y mae costau cyflogau a nawdd cymdeithasol uwch farnwyr sydd, am eu bod yn annibynnol ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cael eu hariannu o'r Gronfa Gyfunol. Bydd uwch farnwyr yn cael taliadau am oes o wasanaeth hefyd o dan gytundeb â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae darpariaeth ar gyfer y taliadau hyn yng nghyfrifon adnoddau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## 1.9 Segmentau gweithredu

Caiff segmentau gweithredu eu dadansoddi'n unol ag IFRS 8 'Operating Segments' ynghyd â'r llinellau gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Prif Benderfynwr Gweithredol sef, at ddibenion y cyfrifon hyn, y Prif Weithredwr. Mae'r Prif Benderfynwr Gweithredol yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segmentau gweithredu.

## 1.10 Cydnabod eiddo a chyfarpar

Cydnabyddir eitemau eiddo a chyfarpar, gan gynnwys y gwariant dilynol ar asedau presennol, ar sail eu cost os yw'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r ased yn dod i ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a bod modd mesur cost yr ased mewn ffordd ddibynadwy. Bydd yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall yn cael ei gofnodi yn y SoCNE yn ystod y cyfnod ariannol pan fyddant yn codi.

### Trothwy cyfalafu – asedau unigol

Y trothwy ar gyfer asedau unigol yw £10,000 (gan gynnwys TAW anadferadwy).

### Trothwy cyfalafu – grwpiau o asedau

Os prynwyd nifer sylweddol o asedau unigol sydd ar eu pen eu hunain yn is na'r trothwy cyfalafu ar gyfer un prosiect unigol, ymdrinnir â hwy fel petaent yn grŵp o asedau.

Grwpiau o asedau fel arfer yw:

- System integredig o eitemau offer amrywiol at ddiben penodol, er enghraifft, prosiect adnewyddu offer Technoleg Gwybodaeth;
- Nifer sylweddol o eitemau dodrefn neu offer TG sydd wedi'u caffael mewn un safle; neu
- Raglenni adnewyddu TG a dodrefn.

Trothwy Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer grŵp o asedau yw £1m (gan gynnwys TAW anadferadwy). Os bydd cost yr eitem yn is na'r terfyn a bennwyd, ond ei bod yn rhan annatod o becyn y mae cyfanswm ei werth yn uwch na'r lefel gyfalafu, yna, caiff yr eitem honno ei thrin fel ased sefydlog diriaethol.

### Prisio tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau)

Ar ôl eu cydnabod yn y lle cyntaf, cyfleusterau llysoedd gan mwyaf yw tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau).  Mae tir ac adeiladau wedi'u cynnwys ar eu gwerth teg, yn ôl dehongliad FReM, ar sail prisiadau proffesiynol a wneir o leiaf unwaith bob pum mlynedd ar gyfer pob eiddo.

Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r prisiadau proffesiynol gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, sy'n cael ei alw'n 'Llyfr Coch'.  Rhwng un prisiad proffesiynol a'r nesaf, caiff gwerthoedd cario eu haddasu drwy ddefnyddio mynegrifau neu brisiadau bwrdd gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r llysoedd troseddol wedi'u dynodi'n adeiladau arbenigol na ellir eu gwerthu ar y farchnad agored.  Caiff adeiladau arbenigol eu prisio ar sail cost ddibrisiedig eu hailadeiladu mewn ffordd a fyddai'n cyfateb i adeilad modern, yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried natur ddarfodol swyddogaeth yr eiddo.  Mae'r dull Adeilad yn y Fan a'r Lle wedi'i fabwysiadu, fel sy'n ofynnol gan FReM.  Felly, nid oes dim cyfnodau adeiladu na chostau cyllido dilyniannol wedi cael eu hadlewyrchu yn y costau a roddir ar waith pan fydd dull y gost ailadeiladu ddibrisiedig yn cael ei ddefnyddio.  Mae gwerth teg gwaith i mewn yn cael ei brisio'n deg  drwy ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Tendro'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu fel y'i darperir gan RICS.

Ar gyfer asedau eiddo sy'n dal i gael eu defnyddio, y dehongliad o werth teg yw gwerth y farchnad am y defnydd presennol.  Y diffiniad o hyn yn y Llyfr Coch yw 'gwerth y farchnad gan ragdybio y caiff yr eiddo ei werthu fel rhan o'r fenter barhaol sy'n ei meddiannu.' 'Gwerth defnyddio' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n parhau yn yr ased, y gellir tybio ei fod o leiaf gyfwerth â chost adsefydlu'r potensial gwasanaeth hwnnw.

### Prisio asedau a gedwir i'w gwerthu

Bydd asedau anghyfredol yn cael eu dynodi'n rhai sydd wedi'u 'dal i'w gwerthu' os yw eu swm cario i'w adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu a bod gwerthiant yn cael ei ystyried yn debygol iawn.  Mae asedau sydd wedi'u dal i'w gwerthu'n cael eu datgan ar sail pa un bynnag yw'r isaf  - eu gwerth cario yn union cyn eu dynodi'n rhai sydd wedi'u 'dal i'w gwerthu' neu eu 'gwerth teg llai'r costau i'w gwerthu'. Bydd unrhyw leihad mewn gwerth neu wrthdroi ar leihad a geir wedyn yn cael ei gydnabod yn y SoCNE. Nid yw asedau sydd wedi'u dosbarthu'n rhai a ddelir i'w gwerthu'n cael eu dibrisio.

### Prisio asedau eraill

Asedau eraill yw technoleg gwybodaeth, offer, dodrefn, gosodiadau a ffitiadau.  Mae'r asedau hyn yn cael eu cynnwys ar eu cost prynu ac yn cael eu hailddatgan bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bydd ailbrisio asedau eraill a chostau dilynol yn cael eu cyfrifo mewn dull sy’n gyson â’r un a ddefnyddir ar gyfer tir ac adeiladau uchod.

### Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu’n cael eu prisio ar sail cost hanesyddol o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar ac ni fyddant yn cael eu dibrisio. Caiff gwariant perthnasol, er enghraifft costau ymgynghorwyr allanol, costau gweithwyr perthnasol a chyfran briodol o orbenion perthnasol, ei gyfalafu os gellir ei briodoli’n uniongyrchol i’r broses o roi ased mewn cyflwr gweithredol.

Rhoddir y gorau i ddynodi ased yn ased sy’n sydd wrthi'n cael ei hadeiladu pan fydd yn barod i’w defnyddio. Wedyn caiff ei gwerth cario ei symud o asedau sy’n cael eu hadeiladu a’i drosglwyddo i’r categori asedau perthnasol. Codir dibrisiant ar yr ased wedyn yn unol â’r polisi dibrisiant.

### Ailbrisio

Pan fydd gwerth cario rhyw ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisiad, bydd unrhyw arian dros ben ar ôl ailbrisio’n cael ei gredydu i wariant cynhwysfawr arall a’i gronni’n uniongyrchol yn ecwiti’r trethdalwyr o dan bennawd y Gronfa Ailbrisio. Eithriad i hyn yw unrhyw enillion ar ôl ailbrisio sy’n gwrthdroi gostyngiad ar ôl ailbrisio’r un ased sydd wedi’i gydnabod yn draul cyn hynny. Caiff enillion o’r fath eu credydu’n gyntaf o fewn costau gweithredu net yn y SoCNE i’r graddau y mae’r enillion yn gwrthdroi colled a oedd wedi’i chydnabod gynt o fewn costau gweithredu net y SoCNE.

Pan fydd swm cario rhyw ased yn gostwng o ganlyniad i leihad parhaol yng ngwerth yr ased oherwydd defnydd clir o’i fudd economaidd neu botensial gwasanaeth, priodolir y gostyngiad yn uniongyrchol i ‘Gostau Gweithredu Eraill’ yn y SoCNE, a bydd unrhyw weddill sydd yn dal yn y Gronfa Ailbrisio yn cael ei ryddhau i’r Gronfa Gyffredinol.

Pan fydd swm cario rhyw ased yn gostwng (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol), caiff y gostyngiad ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio i’r graddau bod balans yn bodoli ar gyfer yr ased hwnnw. Bydd unrhyw ostyngiad pellach sy’n fwy na’r gwargedau ailbrisio yn cael ei briodoli i ‘Gostau Gweithredu Eraill’ yn y SoCNE.

Bob blwyddyn bydd y gwahaniaeth rhwng dibrisiad sydd wedi’i seilio ar ailbrisiad o swm cario’r ased a briodolwyd i'r SoCNE a dibrisiad sydd wedi’i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o’r Gronfa Ailbrisio i’r Gronfa Gyffredinol.

#### Dibrisio

Priodolir dibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi’u cyfrifo i ddileu gwerth yr asedau llai amcangyfrif o’u gwerth gweddilliol a hynny'n gyson dros gyfnod eu hoes fuddiol (yn ôl yr amcangyfrif) neu, yn achos asedau wedi’u lesio, dros gyfnod y les neu’r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Mae oes fuddiol asedau neu gategorïau o asedau’n cael eu hadolygu’n flynyddol a thrafodir unrhyw newidiadau â’r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau o ran cyllidebu wedi’u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid yn oes fuddiol rhyw ased, caiff yr ased ei dibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei hoes. Bydd dibrisiant yn dechrau yn y mis ar ôl caffael ased nad yw’n gyfredol yn achos tir, adeiladau ac anheddau ac o fewn y mis yn achos pob math arall o ased nad yw’n gyfredol.

Os yw eitem o eiddo, peiriant neu gyfarpar yn cynnwys dwy neu ragor o elfennau arwyddocaol, a bod eu hoesau buddiol yn sylweddol wahanol, caiff pob elfen ei thrin ar wahân at ddibenion dibrisio a’i dibrisio dros gyfnod ei hoes fuddiol unigol.

Amcangyfrifir bod oes ddefnyddiol asedau o fewn yr ystodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Tir rhydd-ddaliad** | Dim dibrisio |
| **Tir lesddaliad** | Cyfnod y les sy'n weddill |
| **Adeiladau rhydd-ddaliad (gan gynnwys anheddau)** | Pa un bynnag yw'r byrraf, yr oes sy'n weddill neu 60 mlynedd |
| **Adeiladau rhydd-ddaliad (heb gynnwys anheddau)** | Pa un bynnag yw'r byrraf, yr oes sy'n weddol ar y les neu 60 mlynedd |
| **Technoleg gwybodaeth** | Pa un bynnag yw'r byrraf, yr oes sy'n weddill ar y les neu 7 mlynedd |
| **Offer** | Pa un bynnag yw'r byrraf, yr oes sy'n weddill ar y les neu 3 - 5 mlynedd |
| **Dodrefn a gosodion** | Pa un bynnag yw'r byrraf, yr oes sy'n weddill ar y les neu 10 - 20 mlynedd |
| **Asedau a ddelir i'w gwerthu** | Dim dibrisio |
| **Asedau sydd wrthi'n cael hadeiladu** | Dim dibrisio |

Gwarediadau

Pennir enillion neu golledion ar ôl gwerthu asedau nad ydynt yn gyfredol drwy gymharu'r enillion â'r swm cario ac maent yn cael eu cydnabod o fewn 'Costau Gweithredu Eraill' yn y SoCNE.

Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, trosglwyddir y symiau sydd yn y Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

Asedau a gyfrannwyd

Bydd asedau a gyfrannwyd yn cael eu cyfalafu ar eu gwerth teg wrth eu derbyn, a bydd y gwerth hwn yn cael ei gredydu i'r SoCNE. Bydd asedau anghyfredol a gyfrannwyd yn cael eu hailbrisio, eu dibrisio a'u lleihau yn yr un modd ag y bydd asedau anghyfredol.

## 1.11 Asedau anniriaethol

Asedau anniriaethol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw meddalwedd sydd wedi'i ddatblygu'n fewnol at ddefnydd mewnol (gan gynnwys asedau fel hyn sydd wrthi'n cael eu hadeiladu).

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o gynllunio a threialu meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw sydd o dan reolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, fel costau ymgynghorwyr allanol, costau gweithwyr sy'n datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol, yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol os bydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- ei bod yn dechnegol bosibl cwblhau'r meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio;
- bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bwriadu cwblhau'r meddalwedd a'i ddefnyddio;
- bod modd defnyddio'r meddalwedd;
- ei bod yn debygol y bydd y meddalwedd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol;
- bod digon o adnoddau technegol ac ariannol ac adnoddau eraill ar gael i gwblhau gwaith datblygu a defnyddio'r meddalwedd; a
- bod modd dibynadwy o fesur y gwariant y gellir ei briodoli i'r meddalwedd wrth ei ddatblygu.

Bydd gwariant arall ar ddatblygu sydd heb fodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod yn draul wrth iddo godi. Ni fydd costau datblygu sydd wedi'u cydnabod yn draul cyn hynny yn cael eu cydnabod yn ased mewn cyfnod dilynol.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu cydnabod yn asedau os yw'n debygol y bydd potensial gwasanaeth yn dod i ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol a bod modd dibynadwy o fesur cost y drwydded. Caiff trwyddedau o'r fath eu mesur i ddechrau ar sail eu cost.

Ar ôl eu cydnabod gyntaf, bydd asedau anniriaethol yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg. Gan nad oes marchnad weithredol ar gyfer asedau anniriaethol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, caiff y gwerth teg ei asesu fel cost eu darparu o'r newydd llai unrhyw golledion a gronnwyd am amorteiddio a lleihad mewn gwerth (h.y. cost ddibrisiedig eu darparu o'r newydd).

Bydd asedau anniriaethol sy'n cael eu defnyddio'n cael eu hailfesur ar ddiwedd pob cyfnod adrodd gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes fuddiol ddisgwyliedig. Mae oes fuddiol meddalwedd sydd wedi'i ddatblygu'n fewnol yn amrywio o dair i saith mlynedd. Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded. Ni fydd asedau sy'n cael eu datblygu'n cael eu hamorteiddio nes byddant yn barod i'w defnyddio: bryd hynny codir am amorteiddio'n unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

**Trothwyon cyfalafu - prosiectau meddalwedd**

Y trothwy cyfalafu ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £1m (gan gynnwys TAW anadferadwy)

## 1.12 Lleihad

Mae lleihad mewn gwerth yn golygu lleihad parhaol yng ngwerth rhyw ased o ganlyniad i ddefnydd clir o'i fudd economaidd neu botensial gwasanaeth. Ar bob dyddiad adrodd, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn asesu'r holl asedau am arwyddion o leihad mewn gwerth. Os oes arwyddion o'r fath, profir y lleihad yng ngwerth ar yr asedau dan sylw drwy gymharu gwerth cario'r asedau hynny â'r symiau y gellir eu hadennill amdanynt. Os yw'r swm y gellir ei adennill am ased yn llai na'i gwerth cario, gostyngir gwerth cario'r ased i'r swm y gellir ei adennill amdani.

Y swm y gellir ei adennill am ased yw pa un bynnag yw'r uchaf - ei "werth teg llai costau i'w werthu" neu ei "werth defnyddio". At ddibenion y sector cyhoeddus, diffiniad FReM o "werth defnyddio" ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol gweddill y potensial gwasanaeth, y gellir tybio ei fod o leiaf gyfwerth â chost ail-ddarparu'r potensial gwasanaeth hwnnw.

Bydd unrhyw leihad mewn gwerth yn cael ei briodoli'n uniongyrchol i 'Gostau Gweithredu Eraill" yn y SoCNE. Os bydd ased y cafwyd lleihad yn ei werth wedi'i ailbrisio cyn hynny, bydd unrhyw weddill yn y Gronfa Ailbrisio (hyd at lefel y golled am leihad mewn gwerth) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar bob dyddiad adrodd, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn asesu a oes unrhyw arwydd bod colled am leihad mewn gwerth a oedd wedi'i chydnabod mewn cyfnod blaenorol wedi peidio â bod neu wedi gostwng. Os oes arwydd o'r fath, ailasesir y symiau y gellir eu hadennill am yr asedau dan sylw. Bydd gwrthdroi colled am leihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, os bu newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm y gellir ei adennill am yr ased ers gwneud y prawf diwethaf am leihad mewn gwerth. Y swm mwyaf y gellir ei roi am unrhyw wrthdroi ar golled yw un sy'n cynyddu gwerth cario'r asedau dan sylw at y gwerth cario a fyddai wedi'i gydnabod pe na fyddai'r lleihad gwreiddiol mewn gwerth wedi digwydd (hynny yw, ar ôl ystyried y dibrisiant a fyddai wedi'i godi fel arfer pe na fyddai unrhyw leihad mewn gwerth wedi digwydd).

## 1.13 Lesoedd

Mae lesoedd yn cael eu categoreiddio naill ai'n lesoedd cyllid neu'n lesoedd gweithredu ar sail sylwedd y trefniant. Mae lesio tir ac adeiladau'n cael ei rannu ar ddechrau'r les yn les tir ac yn les adeiladau ar wahân.

### Lesoedd cyllid

Mae lesoedd eiddo ac offer, lle bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnwys yn eu hanfod holl risgiau a manteision perchnogaeth, ac maent yn cael eu categoreiddio'n lesoedd cyllid. Bydd lesoedd cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r les a hynny ar sail gwerth teg yr eiddo neu'r offer sy'n cael ei lesio neu ar sail gwerth presennol y taliadau les sylfaenol, pa un bynnag yw'r isaf.  Bydd taliadau ymlaen llaw am fuddiant lesddaliad sydd wedi'i gategoreiddio'n les cyllid yn cael eu cyfalafu fel rhan o'r ased.

Dyrennir pob un o daliadau'r les rhwng y rhwymedigaeth a'r taliadau cyllid. Mae'r rhent cyfatebol sy'n daladwy, heb gynnwys ffioedd cyllid, wedi'u cynnwys yn y symiau taladwy tymor byr neu dymor canol, a dibynnu ar y dyddiadau pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gorfod talu rhent dan y contract. Mae'r elfen log yn cael ei phriodoli i'r SoCNE dros gyfnod y les ar gyfradd llog gyfnodol gyson ar y balans sy'n weddill o'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cyfnod.

Mae'r eiddo a'r offer a gafaelwyd o dan lesoedd cyllid yn cael eu dibrisio un ai dros oes fuddiol yr ased neu dros gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

### Lesoedd gweithredu

Bydd lesoedd lle bydd cyfran sylweddol o risgiau a manteision perchnogaeth yn cael eu cadw gan y lesydd yn cael eu categoreiddio'n lesoedd gweithredu.  Caiff taliadau a wneir o dan lesoedd gweithredu (net o unrhyw gymhellion a geir gan y lesydd) eu cael eu priodoli i Wariant y SoCNE ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Bydd unrhyw daliadau ymlaen llaw am fudd lesddaliad sy'n cael ei gategoreiddio'n les gweithredu yn cael eu cydnabod yn rhagdaliadau ar les yn y SoFP ac yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y les.

Bydd refeniw ar lesoedd gweithredu lle mai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fydd y lesydd yn cael ei gydnabod yn refeniw ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

### Lesoedd gweithredu - cymhellion

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trin cymhellion lesoedd (megis cyfnodau heb dalu rhent neu gyfraniadau gan y lesydd at gostau adleoli'r lesai) yn rhan greiddiol o'r gydnabyddiaeth ar gyfer defnyddio ased sy'n cael ei lesio.  Caiff y cymhellion eu cydnabod yn rhan greiddiol o'r gydnabyddiaeth net y cytunwyd arni am ddefnyddio'r ased a lesir dros gyfnod les.

### Trefniadau sy'n cynnwys les

Wrth benderfynu a yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn barti i les, bydd contractau nad ydynt ar ffurf gyfreithiol les ond sydd o bosibl yn cynnwys les yn rhan ohonynt, er enghraifft trefniadau i brynu gwasanaethau o'r tu allan a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu i benderfynu a yw'r contract yn cynnwys les neu beidio. Ystyrir y contract yn les os bydd cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol a bod y trefniant yn cyfleu hawl i ddefnyddio'r ased.

## 1.14 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth

Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau Mentrau Cyllid Preifat, yw lle bydd gweithredwyr yn y sector preifat wedi'u rhwymo dan gontract i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng nghyswllt asedau seilwaith penodol. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn diffinio trefniadau o'r fath yn Gytundebau Consesiwn Gwasanaeth os

byddant yn cyflawni'r amodau a ganlyn (fel y'u pennir yn IFRIC 12 ' Service Concession Arrangements', ac fel y'u haddaswyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus gan FReM):

- Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rheoli neu'n rheoleiddio pa wasanaethau y mae'n rhaid i'r gweithredwr eu darparu gyda'r ased, i bwy y mae'n rhaid iddo'u darparu ac am ba bris; a
- bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rheoli - drwy berchnogaeth, hawl lesiannol neu fel arall - unrhyw fudd gweddilliol sylweddol yn yr ased pan ddaw cyfnod y trefniant i ben.

Lle y bodlonir yr amodau hyn, bydd y ffrwd talu yn y dyfodol yn cael ei hasesu i nodi ar wahân yr elfennau sy'n ymwneud â'r budd yn y seilwaith a'r gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod yr ased seilwaith ar sail gwerth teg (neu werth presennol isafswm y taliadau seilwaith yn y dyfodol, os yw'r rheini'n is) fel ased anghyfredol yn y SoFP gyda rhwymedigaeth gyfatebol am daliadau o dan y cytundeb yn y dyfodol.

Mae'r elfen log yn cael ei briodoli i'r SoCNE dros gyfnod y les ar gyfradd llog gyfnodol gyson ar y balans sy'n weddill o'r rhwymedigaeth am bob cyfnod.  Mae elfen wasanaeth y cytundeb yn cael ei phriodoli i'r SoCNE yn y cyfnod y bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu gan y gweithredwr.

## 1.15 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y SoFP a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gedwir ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn sy'n cyrraedd eu haeddfedrwydd gwreiddiol o fewn tri mis neu lai, a gorddrafftau banc.

## 1.16 Balansau arian parod trydydd partïon

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cadw nifer o falansau arian parod gwahanol ar ran trydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys arian mechnïaeth sy'n cael eu derbyn a'u cadw tra bo achos troseddol yn mynd rhagddo ac sydd heb gael ei gydnabod yn unol â gofynion FReM. Nid yw'r balansau hyn yn cynnwys symiau a gedwir ar ôl casglu dirwyon a chosbau ar ran cyrff eraill; adroddir am y symiau hyn mewn Datganiad Ymddiriedaeth ar wahân (gweler nodyn 1.7).

Nid yw balansau arian parod trydydd partïon wedi'u cynnwys yn y SoFP yn unol â gofynion FReM ac mae'r balansau hyn yn cael eu datgelu yn nodyn 21 y cyfrifon.

## 1.17 Offerynnau ariannol

Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgîl contractau i brynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), a drefnir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn cael eu cydnabod pan fydd hynny'n digwydd ac i'r graddau y bydd yn digwydd. Bydd pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael ei chydnabod pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dod yn barti i'r darpariaethau contractaidd i dderbyn taliadau arian parod neu i'w talu.

Ystyrir dadgydnabod ased ariannol pan fydd yr hawliau contractaidd i'r llifau arian parod o'r ased ariannol yn dod i ben, neu fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM naill ai wedi trosglwyddo'r hawl contractaidd i gael y llifau arian o'r ased, neu wedi ysgwyddo'r atebolrwydd i dalu'r llifau arian hynny i un derbyniwr neu fwy, yn amodol ar feini prawf penodol. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dadgydnabod ased ariannol sydd wedi'i throsglwyddo os bydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a manteision y berchnogaeth.

## 1.18 Treth Ar Werth (TAW)

Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac ni cheir adennill treth ar yr hyn a brynir. Caiff TAW na ellir mo’i hadennill ei chynnwys yn y categori gwariant perthnasol neu yng nghost prynu  cyfalaf yr eiddo, peiriannau ac offer, ac asedau anniriaethol. Pan godir treth allbwn neu pan fydd modd adennill treth ar bryniannau, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

## 1.19 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cynrychioli rhwymedigaethau yng nghyswllt amseru neu symiau ansicr.

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM :

- rwymedigaeth gyfreithiol neu sylweddol ar y pryd yn sgîl digwyddiadau'r gorffennol
- ei bod yn debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth, a
- bod modd amcangyfrif y swm mewn ffordd ddibynadwy.

Bydd darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl gwerth presennol y gwariannau y disgwylir y byddant yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle bydd yr effaith yn effaith o bwys, bydd y llifau arian a amcangyfrifir yn cael eu disgowntio. Cydnabyddir y cynnydd yn y ddarpariaeth oherwydd treigl amser yn draul llog.

## 1.20 Rhwymedigaethau wrth gefn

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelwyd yn unol ag IAS 37 'Provisions, contingent liabilities and contingent assets', bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn datgelu, at ddibenion adrodd ac atebolrwydd Seneddol, rwymedigaethau statudol ac anstatudol wrth gefn penodol lle bydd y tebygolrwydd y caiff budd economaidd ei drosglwyddo'n annhebygol, yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus.

Lle bydd gwerth amser yr arian yn fater o bwys, bydd y rhwymedigaethau wrth gefn y mae gofyn eu datgelu o dan IAS 37 yn cael eu mesur ar sail symiau wedi'u disgowntio. Bydd rhwymedigaethau wrth gefn nad oes gofyn adrodd yn eu cylch o dan IAS 37 yn cael eu datgan ar sail y swm a adroddir i'r Senedd.

## 1.21 Asedau wrth gefn

Bydd asedau wrth gefn yn cael eu datgelu lle bydd ased tebygol yn codi yn sgîl digwyddiad yn y gorffennol ac na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond wrth i un digwyddiad ansicr neu fwy ddigwydd, neu beidio â digwydd, yn y dyfodol ac nad yw hynny'n llwyr o fewn rheolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

## 1.22 Y Gronfa Gyffredinol

Bydd arian a dderbynnir gan y llywodraeth yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad am Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr (SoCTE) pan dderbynnir yr arian.

## 1.23 Buddion i weithwyr

Bydd buddion tymor byr megis cyflogau misol ac wythnosol neu fuddion ôl-gyflogi sy'n codi yn sgîl cyflogaeth a buddion tymor hir megis cydnabod oes o wasanaeth, gan gynnwys buddion terfynu (er enghraifft costau ymadael yn gynnar) a buddion pensiwn yn cael eu cydnabod yn gost darparu'r budd yn y cyfnod y caiff ei ennill gan y gweithiwr, yn hytrach na phan gaiff ei dalu neu pan fydd yn daladwy.

Mae IAS 19 ('Employee Benefits') yn ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM  gydnabod cost ddisgwyliedig hawl ei weithwyr i wyliau blynyddol sy'n cronni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.  Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod y croniad hwn drwy gyfrifo gwerth cyfartalog y gwyliau sy'n ddyledus ar draws pob band cyflog ac fe ddefnyddir hwn wedyn i weithio'r cyfanswm.

## 1.24 Pensiynau

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr presennol a chyn-weithwyr yn dod o dan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r cynlluniau buddion diffiniedig yn rhai nas cyllidir ac yn rhai anghyfrannol ac eithrio yng nghyswllt buddion i ddibynyddion. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost a briodolir i'r PCSPS. O ran cynlluniau cyfrannu diffiniedig, mae'r Asiantaeth yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

Bydd aelodau'r farnwriaeth yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol (JPS). Mae rhagor o fanylion am y cynllun hwn i'w gweld yn nodyn 3.2.2.

## 1.25 Costau ymadael yn gynnar

Mae gofyn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol PCSPS i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai fod yr ymddeoliad hwnnw'n digwydd ar sail feddygol gymeradwy. Darperir cyfanswm y gost yn ei gyfanrwydd pan fydd y rhaglen ymadael yn gynnar neu'r cytundeb unigol yn cyfrwymo Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.  Mesurir y ddarpariaeth yn ôl gwerth presennol yr arian y mae gofyn ei wario i setlo'r rhwymedigaeth.  Os bydd yr effaith yn faterol berthnasol, disgowntir yr amcanlifau arian sydd wedi'u haddasu ar gyfer risg, gan ddefnyddio'r gyfradd dybiannol a bennwyd gan Drysorlys EM (2013-14: 4.3% a 2012-13: 4.1%). Cydnabyddir y cynnydd yn y ddarpariaeth oherwydd treigl amser yn draul llog.

Ar ôl cyflwyno Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil ym mis Rhagfyr 2010, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi cynnig cynllun Ymadael yn Gynnar o Wirfodd i weithwyr dethol yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae costau'r Cynllun Iawndal yr adroddir yn eu cylch yn nodiadau 3.1 a 3.1.3 yn cynnwys symiau a dalwyd i unigolion a dderbyniodd y cynnig i ymadael o'u gwirfodd ac y cymeradwywyd eu cais yn ystod 2012-13 a 2013-14. Yn unol â thelerau cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, ni thalwyd dim symiau ex-gratia i unigolion a ymadawodd o dan y cynllun gwirfoddol.

## 14.3 Cynllun pensiwn drwy gydweddiad

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dri chynllun pensiwn drwy gydweddiad ar gyfer y Siambr Lloches a Mewnfudo, y Tribiwnlys Digolledu am Anafiadau Troseddol a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl sy'n debyg i'r PCSPS. Mae'r rhain yn cael eu hariannu yn sgîl Pleidlais yr Adran ac fe weinyddir taliadau gan yr adran a Capita, yn y drefn honno. Bydd taliadau'n cael eu gwneud i bensiynwyr y Siambr Mewnfudo a Lloches drwy system y gyflogres.

## 1.27 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu beirniadol

Bydd amcangyfrifon a dyfarniadau'n cael eu gwerthuso o hyd ac fe'u seilir ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Anaml wrth gwrs y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu yn sgîl hyn yn cyfateb i'r canlyniadau go iawn. Rhoddir sylw isod i'r amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae risg sylweddol iddynt achosi addasiad o bwys i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wedyn.

*Prisio eiddo ac offer*

Cyfleusterau'r llysoedd gan mwyaf yw tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau). Dangosir tir ac eiddo ar sail gwerth teg, a hwnnw wedi'i seilio ar brisiadau proffesiynol. Bydd VOA yn eu prisio'n unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a elwir yn Llyfr Coch.

Bydd y rhan fwyaf o'r adeiladau'n cael eu prisio ar sail cost ddibrisiedig ailadeiladu adeilad modern cyfatebol. Bydd pob adeilad arall yn cael ei fesur ar sail ei werth teg a hwnnw'n cael ei bennu ar sail tystiolaeth seiliedig ar y farchnad. Mae gwerth tir ac adeiladau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn amrywio wrth i gostau adeiladu newid a gwerth tir ac adeiladau ar y farchnad ar y pryd. Mae'r polisi cyfrifyddu ar gyfer tir ac eiddo i'w weld yn nodyn 1.10 ac mae gwybodaeth am y tir a'r adeiladau yn nodyn 6.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor y penderfyniad i gau 142 o lysoedd; 93 o lysoedd ynadon a 49 o Lysoedd Sirol. Yn Rhaglen Diwygio Ystâd y Llysoedd, caeir llysoedd sy'n cael eu tanddefnyddio a lle mae'r cyfleusterau'n wael, gan leihau costau cynnal a chadw rheolaidd yn y dyfodol. Ni fydd y llysoedd hyn yn rhan o ystâd weithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y dyfodol, felly mae'r dull a ddefnyddiwyd i'w prisio wedi'i newid. Yn lle cost ei hailadeiladu wedi'i dibrisio, defnyddir gwerth teg llai costau'r gwerthu a bennir ar dystiolaeth y farchnad. Mae newid y dull prisio fel hyn yn awgrymu bod gwerth yn gostwng yn barhaol, felly mae unrhyw leihad wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol i'r SoCNE, a balans unrhyw Gronfa Ailbrisio'n cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

*Cyfrifyddu lesoedd*

Mae angen defnyddio crebwyll wrth gategoreiddio lesoedd yn y lle cyntaf - ai lesoedd gweithredu ynteu lesoedd cyllid ydynt. Lle bydd les yn cael ei chodi ar dir ac adeiladau gyda'i gilydd, gellir cyfalafu elfennau'r adeilad a'r tir fel lesoedd cyllid ar wahân os ydynt yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer les cyllid. Os na fydd taliadau'r les dan y contract yn cael eu rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y les, rhennir pethau ar sail gwerth y tir a'r adeiladau ar y farchnad pan godwyd y les. Mae'r polisi cyfrifyddu ar gyfer lesoedd wedi'i nodi yn nodyn 1.13.

*Darpariaeth ar gyfer Cyflwr Eiddo*

Cydnabyddir darpariaeth ar gyfer lleihad i eiddo dan lesddaliad i'r graddau bod rhwymedigaethau yn y les sy'n ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud iawn am unrhyw newidiadau i'r eiddo a wnaethpwyd yn ystod cyfnod y les. Lle bydd gofyn cael darpariaeth ar gyfer lleihad, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod darpariaeth sydd gyfwerth â chost adfer cyflwr yr adeilad i'w gyflwr ar ddyddiad dechrau'r les.

Cydnabyddir darpariaeth ar gyfer lleihad pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol yn sgîl digwyddiadau'r gorffennol a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac os bydd modd amcangyfrif y swm hwn mewn ffordd ddibynadwy. Oni ellir amcangyfrif rhwymedigaeth o'r fath mewn ffordd ddibynadwy, fe'i categoreiddir yn rhwymedigaeth wrth gefn. Pan fydd effaith gwerth amser arian yn bwysig, bydd symiau'r ddarpariaeth yn cael eu cyfrifyddu ar sail gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Caiff y gwerth presennol ei gyfrifo drwy ddefnyddio cyfraddau disgownt tymor hir Trysorlys EM, gan fesur hynny ar ddyddiad adrodd ar y fantolen, a'r rheini wedi'u haddasu ar gyfer y risgiau sydd eisoes wedi'u hadlewyrchu yn yr amcangyfrifon ar gyfer y llif arian yn y dyfodol

*Darpariaeth ar gyfer les feichus*

Gwneir darpariaeth ar gyfer les feichus gyda golwg ar gontract les, pan fydd costau anochel cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y contract hwnnw'n fwy na'r budd economaidd a ddisgwylir yn ei sgîl. Lle bydd contract yn cael ei weld yn un beichus, bydd gwerth presennol cyfran feichus y taliad contractaidd yn cael ei fesur ac yn cael ei gydnabod yn ddarpariaeth a'i gwerth

presennol yn cael ei bennu drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt briodol. Y gyfran feichus fydd cyfran taliadau'r les nad ydynt yn cael eu gwrthbwyso gan ryw fudd economaidd.

## 2. Datganiad am y Costau Gweithredol fesul Segment Gweithredu

At ddibenion rheoli, trefnir Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn wyth rhanbarth gweithredol ac yn nifer o feysydd corfforaethol.

At ddibenion adroddiadau ariannol, seilir fformat adroddiadau am y segmentau ar y ffordd y bydd y Prif Benderfynwr Gweithredol yn monitro canlyniadau'r segmentau er mwyn gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau.

Dyma segmentau gweithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yr adroddir yn eu cylch:

- Rhanbarth Llundain
- Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr
- Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr
- Rhanbarth Canoldir Lloegr
- Rhanbarth De-orllewin Lloegr
- Rhanbarth Cymru
- Rhanbarth yr Alban
- Rheng flaen ganolog
- Ystadau
- Eraill

Mesurir costau net y segmentau gweithredu ar yr un sail â'r symiau cyfatebol yr adroddir yn eu cylch yn y datganiadau ariannol.

Mae costau'r rheng flaen ganolog yn cynnwys costau gweithredol y rheng flaen nad ydynt yn cael eu hysgwyddo'n uniongyrchol gan Gyfarwyddiaethau Rhanbarthol megis Cyflogau Barnwrol Uwch a ffioedd, y Tîm Codi Taliadau Cenedlaethol a'r Canolfannau Prosesu Swmp a Gorfodaeth.

Mae eraill yn cynnwys swyddogaethau'r pencadlys, eitemau anariannol sy'n cael eu rheoli'n ganolog ac ad-daliadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder am orbenion.

### 2.1 Refeniw a chanlyniadau'r segmentau

Disgrifir y gwasanaethau y mae'r segmentau yr adroddir yn eu cylch yn cael incwm ohonynt yn nodyn 5. Nid oedd dim trafodion rhwng y segmentau yn ystod y flwyddyn (2012-13: dim)

Mae'r tabl isod yn cyflwyno costau gweithredu net y gweithrediadau fesul segment gweithredu yr adroddir yn eu cylch ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhanbarth Llundain | 256,696 | 275,492 |
| Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr | 107,375 | 112,273 |
| Rhanbarth De-ddwyrain Lloegr | 116,562 | 118,257 |
| Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr | 112,423 | 116,063 |

| | | |
|---|---:|---:|
| Rhanbarth Canoldir Lloegr | 126,553 | 135,632 |
| Rhanbarth De-orllewin Lloegr | 68,063 | 69,698 |
| Rhanbarth Cymru | 57,091 | 55,856 |
| Rhanbarth yr Alban | 23,253 | 23,985 |
| Rheng flaen ganolog | 317,951 | 268,705 |
| Ystadau | 231,390 | 238,866 |
| Eraill | 449,239 | 505,307 |
| **Gwariant crynswth** | **1,866,596** | **1,920,134** |
| **Incwm** | **(637,641)** | **(595,451)** |
| **Gwariant net fesul Datganiad Costau Gweithredu** | **1,228,955** | **1,324,683** |

Mae 'incwm' yn cael ei reoli'n ganolog yn bennaf ac felly mae wedi'i ddangos yn gategori ar wahân.

## 3 Costau a niferoedd y staff a'r farnwriaeth

Mae costau a niferoedd y staff wedi'u rhannu rhwng y rheini sydd i'w priodoli i weithwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r rheini sydd i'w priodoli i aelodau o'r farnwriaeth. Mae pob categori'n cael ei drafod yn y nodiadau a ganlyn, a chyfanswm y costau wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| | | | | 2013-14 | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Gwein | Rhag | Cyfanswm | Gwein | Rhag | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau staff | 3.1 | 16,083 | 483,556 | 499,639 | 16,828 | 519,636 | 536,464 |
| Costau'r farnwriaeth | 3.2 | - | 472,358 | 472,358 | - | 457,483 | 457,483 |
| Costau staff asiantaeth | 3.1 | - | 22,625 | 22,625 | - | 19,470 | 19,470 |
| **Cyfanswm costau'r staff a'r farnwriaeth** | | **16,083** | **978,539** | **994,622** | **16,828** | **996,589** | **1,013,417** |

### 3.1 Mae costau staff yn cynnwys:

| | | | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff asiantaeth a staff contract | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 401,522 | 22,625 | 424,147 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 25,842 | - | 25,842 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 69,000 | - | 69,000 |
| Ymadawiadau gwirfoddol cynnar | 3,087 | - | 3,087 |
| | **499,451** | **22,625** | **522,076** |
| A: secondiadau i mewn | 660 | - | 660 |
| | **500,111** | **22,625** | **522,736** |
| Llai: arian a adenillwyd oherwydd secondiadau allan | (472) | - | (472) |
| **Cyfanswm costau staff** | **499,639** | **22,625** | **522,264** |

| | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff asiantaeth a staff contract | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 417,097 | 19,470 | 436,567 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 27,044 | - | 27,044 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 70,490 | - | 70,490 |
| Ymadawiadau gwirfoddol cynnar | 22,259 | - | 22,259 |
| | **536,890** | **19,470** | **556,360** |
| A: secondiadau i mewn | 663 | - | 663 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **537,553** | **19,470** | **557,023** |
| Llai: arian a adenillwyd oherwydd secondiadau allan | (1,089) | - | (1,089) |
| **Cyfanswm costau staff** | **536,464** | **19,470** | **555,934** |

## 3.1.1 Cynllun pensiwn

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr digronfa yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n paratoi ei gyfrifon ei hun, ond ni all GLIEM ddynodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol ar ei gyfer. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2007. Mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Blwydd-daliadau Sifil Swyddfa'r Cabinet : (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2013-14, roedd £69.0m (2012-13: £70.4m), yn daladwy i'r PCSPS ar ffurf cyfraniadau'r cyflogwr ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 16.7% i 24.3% (2012-13: 16.7% i 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel rheol ar ôl prisio'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n cael eu gosod i dalu cost y buddion a gronnodd yn ystod 2013-14 ac a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i rai sy'n bensiynwyr eisoes. Mae balans cyfraniad y cyflogwr hefyd yn cynnwys cost gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn drwy gydweddiad.

## 3.1.2 Nifer y staff a gyflogid ar gyfartaledd

Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | | | **2013-14** |
|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Staff asiantaeth a staff contract** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 16,999 | - | 16,999 |
| Eraill | - | 830 | 830 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **16,999** | **830** | **17,829** |

| | | | **2012-13** |
|---|---|---|---|
| | **Staff a gyflogir yn barhaol** | **Staff asiantaeth a staff contract** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 17,587 | - | 17,587 |
| Materion eraill | - | 682 | 682 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **17,587** | **682** | **18,269** |

### 3.1.3 Ymadael yn Gynnar o Wirfodd

Dangosir crynodeb o ymadawiadau gwirfoddol cynnar isod:

| Cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau gwirfoddol y cytunwyd arnynt | | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl eu cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** |
| <£10,000 | - | - | 4 | 10 | 4 | 10 |
| £10,000 - £25,000 | - | - | 22 | 88 | 22 | 88 |
| £25,000 - £50,000 | - | - | 16 | 123 | 16 | 123 |
| £50,000 - £100,000 | - | - | 26 | 118 | 26 | 118 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | 5 | 52 | 5 | 52 |
| £150,000 - £200,000 | - | - | - | 13 | - | 13 |
| £200,000 - £250,000 | - | - | - | 2 | - | 2 |
| £250,000 - £300,000 | - | - | - | 1 | - | 1 |
| £300,000 - £350,000 | - | - | - | 1 | - | 1 |
| £350,000 - £400,000 | - | - | - | - | - | - |
| £400,000 - £450,000 | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl eu math** | **-** | **-** | **73** | **408** | **73** | **408** |
| **Cyfanswm cost yr adnodd (£000)** | **-** | **-** | **3,087** | **22,259** | **3,087** | **22,259** |

Mae costau diswyddo a chostau ymadael eraill wedi'u talu'n unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cytuno i'r trefniant ac wedi ymrwymo iddo. Lle bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cytuno ar ymddeoliad cynnar, bydd y costau ychwanegol yn cael eu talu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac nid gan y PCSPS. Telir costau ymddeol oherwydd afiechyd drwy'r cynllun pensiwn, ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl.

## 3.2 Costau a niferoedd y farnwriaeth

Mae aelodau'r farnwriaeth yn annibynnol ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Telir costau eu cyflogres naill ai o'r Gronfa Gyfunol yn achos yr uwch farnwriaeth, neu'n uniongyrchol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer aelodau eraill y farnwriaeth. Mae'r costau i gyd wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM er mwyn sicrhau bod cost lawn y gweithrediadau wedi'u datgelu.

| | | | 2013-14 | | | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflogau'r uwch farnwriaeth** | **Cyflogau aelodau eraill o'r farnwriaeth** | **Sy'n derbyn ffi** | **Cyfanswm** | **Cyflogau'r uwch farnwriaeth** | **Cyflogau aelodau eraill o'r farnwria eth** | **Sy'n derbyn ffi** | **Cyfanswm** |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 125,353 | 101,848 | 131,153 | 358,354 | 125,271 | 103,512 | 115,568 | 344,351 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 15,493 | 12,036 | 13,721 | 41,250 | 15,525 | 12,185 | 12,318 | 40,028 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 40,255 | 32,499 | - | 72,754 | 40,352 | 32,752 | - | 73,104 |
| **Cyfanswm costau cyflogres y farnwriaeth** | **181,101** | **146,383** | **144,874** | **472,358** | **181,148** | **148,449** | **127,886** | **457,483** |

### 3.2.1 Nifer gyfartalog y farnwriaeth

Mae'r symiau yn nodyn 3.2 yn cynnwys costau cyflogau 936 (2012-13: 952) ar gyfartaledd o swyddogion barnwrol a ffioedd ar gyfer 1,487 o aelodau amser llawn cyfwerth sy'n derbyn ffi (2012-13: 1,443). Talwyd costau cyflogau 914 o aelodau eraill (2012-13: 925 o aelodau) o'r uwch farnwriaeth o'r Gronfa Gyfunol.

### 3.2.2 Cynllun Pensiwn Barnwrol

Cynllun buddion-diffiniedig heb ei ariannu a gynhelir gan sawl cyflogwr yw'r Cynllun Pensiwn Barnwrol sy'n paratoi ei Gyfrifon ei hun, ond nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gallu gwybod pa gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2009. Mae'r manylion i'w gweld yng Nghyfrifon adnoddau'r Cynllun Pensiwn Barnwrol yn www.official-documents.co.uk.

Telir pensiynau barnwrol o'r Gronfa Gyfunol os oedd cyflog deiliad y swydd farnwrol yn cael ei dalu o'r gronfa honno, neu o'r Cynllun Pensiwn Barnwrol os oedd y cyflog wedi'i dalu o amcangyfrif cyflenwad yr adran. Cyfrannwyd at y Cynllun Pensiwn Barnwrol ar gyfradd o 32.15% (2012-13: 32.15%). Cynhwysir swm y cyfraniadau hyn yn y tabl yn nodyn 3.2 a ddangosir uchod.

Mae'r manteision sy'n daladwy yn cael eu llywodraethu gan ddarpariaethau naill ai'r Ddeddf Pensiynau Barnwrol 1981 ar gyfer deiliaid y swyddi barnwrol hynny a benodwyd cyn 31 Mawrth 1995, neu Ddeddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993 ar gyfer y rheini sydd newydd eu penodi neu wedi'u penodi i swydd farnwrol wahanol ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny.

Er mai cynllun budd-daliadau diffiniedig yw'r Cynllun Pensiwn Barnwrol, yn unol â FReM 12.2.5, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymdrin â'r cynllun fel petai'n gynllun

cyfraniadau diffiniedig ac mae'n cydnabod y cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr yn draul yn y flwyddyn yr ysgwyddir hwy.

Darperir hawliau pensiwn i farnwyr cyflogedig o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol. Ym mis Medi 2005, cyflwynodd deiliad swydd farnwrol a oedd yn derbyn ffi ac wedi ymddeol hawliad gerbron y Tribiwnlys Cyflogaeth yn hawlio ôl-driniaeth gydradd â deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio bod ganddo hawliau pensiwn o dan y Rheoliadau ar gyfer Gweithwyr Rhan Amser.

Dyfarniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ar 6 Chwefror 2013 oedd bod gan ddeiliad swydd farnwrol sydd wedi ymddeol ac a oedd yn derbyn ffi yr hawl i gael pensiwn ar delerau a oedd yn gyfwerth â'r rheini a oedd yn berthnasol i ddeiliad swydd farnwrol gyflogedig. Roedd y prif achos hwn yn gosod y gynsail ar gyfer achosion eraill a oedd wedi'u hatal. Yn unol â'r cyfrifyddu ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol ar gyflog, ac yn unol â FReM 12.2.5, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyfrifo cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r JPS ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol cymwys sy'n derbyn ffi wrth iddynt godi, ond nid yw'n cydnabod rhwymedigaeth yng nghyswllt ôl-daliadau na'r rhwymedigaeth pensiwn sy'n codi yn sgîl yr hawliad. Felly, mae darpariaeth ar gyfer yr hawl i bensiwn y rhai sy'n derbyn ffi yng Nghyfrifon y JPS.

Mae darpariaethau wedi'u cydnabod yng Nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y rhwymedigaeth i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi yng nghyswllt y Dyfarniad am Wasanaeth Barnwrol, ac elfen ar wahân y rhwymedigaeth pensiwn sy'n berthnasol i farnwyr sy'n derbyn ffi, oherwydd nid yw'r un o'r rhain yn rhwymedigaeth sy'n dod o dan y JPS a'r Deddfau sy'n ei lywodraethu.

# 4 Costau Gweithredu

## 4.1 Dyma'r costau gweithredu eraill:

| | | | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| | **Gweinyddu £000** | **Rhaglen £000** | **Cyfanswm £000** |
| Llety, cynnal a chadw a'r prif wasanaethau | 11 | 251,394 | 251,405 |
| Costau rheithwyr | - | 39,396 | 39,396 |
| Taliadau am wasanaeth mentrau cyllid preifat | - | 23,908 | 23,908 |
| Taliadau am wasanaethau eraill | - | 10,711 | 10,711 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | 95 | 31,200 | 31,295 |
| Costau gwasanaethau dan gontract | 2,118 | 37,966 | 40,084 |
| Gwasanaethau TG | 5,498 | 90,972 | 96,470 |
| Costau ymgynghorwyr | 199 | 6,859 | 7,058 |
| Costau staff eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,545 | 8,486 | 10,031 |
| Costau barnwrol eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,377 | 37,347 | 38,724 |
| Taliadau banc | - | 4,065 | 4,065 |
| Costau eraill | 807 | 2,410 | 3,217 |
| Grantiau cyfalaf | - | (504) | (504) |
| Grantiau eraill | - | 15 | 15 |
| | **11,650** | **544,225** | **555,875** |
| **Lesoedd gweithredu** | | | |
| Costau rhentu eiddo | - | 82,333 | 82,333 |
| Llogi offer a pheiriannau | 1 | 620 | 621 |
| Gwariant arall | 5 | 1,889 | 1,894 |
| | **6** | **84,842** | **84,848** |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Taliadau i archwilwyr allanol - archwilio'r Cyfrifon | - | 350 | 350 |
| Enillion net wrth waredu eiddo ac offer | - | (1,532) | (1,532) |
| (Gwrthdroi lleihad) ar eiddo ac offer | - | (22,061) | (22,061) |
| Lleihad ar asedau anniriaethol | - | 1,796 | 1,796 |
| Lleihad ar asedau a gedwir i'w gwerthu | - | 1,382 | 1,382 |
| Llinell syth taliadau les gweithredu | - | 6,159 | 6,159 |
| Amorteiddio rhagdaliad les gweithredu | - | 5 | 5 |
| Symudiad yn y darpariaethau | - | 20,622 | 20,622 |
| Ad-daliadau rhwng adrannau | 40,843 | 43,381 | 84,224 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg | - | (129) | (129) |
| Dibrisio | - | 105,009 | 105,009 |
| Amorteiddio | - | 17,068 | 17,068 |
| | **40,843** | **172,050** | **212,893** |
| **Cyfanswm costau Gweithredu** | **52,499** | **801,117** | **853,616** |

| | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | **Gweinyddu £000** | **Rhaglen £000** | **Cyfanswm £000** |
| Llety, cynnal a chadw a'r prif wasanaethau | 19 | 236,934 | 236,953 |
| Costau rheithwyr | - | 39,948 | 39,948 |
| Taliadau am wasanaeth mentrau cyllid preifat | - | 22,661 | 22,661 |
| Taliadau am wasanaethau eraill | 5 | 13,600 | 13,605 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | 231 | 31,127 | 31,358 |
| Costau gwasanaethau dan gontract | 4,140 | 30,567 | 34,707 |
| Gwasanaethau TG | 7,213 | 14,019 | 21,232 |
| Costau ymgynghorwyr | 585 | 978 | 1,563 |
| Costau staff eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 1,275 | 8,538 | 9,813 |
| Costau barnwrol eraill (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) | 966 | 36,254 | 37,220 |
| Taliadau banc | - | 3,736 | 3,736 |
| Costau eraill | 1,240 | 2,721 | 3,961 |
| Grantiau cyfalaf | - | 5,809 | 5,809 |
| Grantiau eraill | - | 65 | 65 |
| | **15,674** | **446,957** | **462,631** |
| **Lesoedd gweithredu** | | | |
| Costau rhentu eiddo | - | 78,530 | 78,530 |
| Llogi offer a pheiriannau | 12 | 981 | 993 |
| Gwariant arall | 18 | 1,115 | 1,133 |
| | **30** | **80,626** | **80,656** |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Taliadau i archwilwyr allanol - archwilio'r Cyfrifon | - | 340 | 340 |
| Colledion net wrth waredu eiddo ac offer | - | 1,046 | 1,046 |
| (Gwrthdroi lleihad) ar eiddo ac offer | - | (10,626) | (10,626) |
| Cynnydd yng ngwerth teg yr asedau a ddelir i'w gwerthu | - | 1,801 | 1,801 |
| Cynnydd yng ngwerth teg asedau annirnadwy | - | (216) | (216) |
| Grantiau Cyfalaf | - | 682 | 682 |
| Llinell syth taliadau les gweithredu | - | 13,325 | 13,325 |
| Amorteiddio rhagdaliad les gweithredu | - | 5 | 5 |
| Symudiad yn y darpariaethau | - | 24,139 | 24,139 |
| Ad-daliadau rhwng adrannau | 46,985 | 128,777 | 175,762 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg | - | (62) | (62) |
| Dibrisio | - | 102,010 | 102,010 |
| Amorteiddio | - | 15,368 | 15,368 |
| | **46,985** | **276,589** | **323,574** |
| **Cyfanswm costau Gweithredu** | **62,689** | **804,172** | **866,861** |

### Ad-daliadau adrannol

Mae'r ad-daliad adrannol yn cynrychioli cost y gwasanaethau wedi'u rhannu â'r Weinyddiaeth gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cyfreithiol a barnwrol a chyllid a gweinyddu.

### Taliadau i'r Archwilwyr

Mae costau'r archwiliad a wnaethpwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cydnabod yn gost nad yw'n arian parod. Yn ystod y flwyddyn ni phrynodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM unrhyw wasanaethau nad oeddent yn wasanaethau archwilio. Mae'r gost yn cynnwys £240,000 (2012-13: £210,000) ar gyfer archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac £110,000 (2012-13: £130,000) ar gyfer archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r Datganiad Ymddiriedaeth.

## 4.2 Mae costau cyllid yn cynnwys y canlynol:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llog ar ddiffyg trosglwyddo'r gronfa bensiwn | - | 10,094 |
| Cost ariannu credydwr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol(LGPS) | 5,878 | 13,304 |
| Llog ar rwymedigaeth y cynllun pensiwn drwy gydweddiad | 158 | 193 |
| Datod y gostyngiad ar ddarpariaethau | 1,568 | 4,791 |
| **Cyfanswm costau ariannu nad ydynt yn arian parod** | **7,604** | **28,382** |
| | | |
| Llog benthyciad awdurdodau lleol | 1,674 | 1,828 |
| Cost ariannu ar Fentrau Cyllid Preifat ac asedau ar les | 9,080 | 9,646 |
| **Cyfanswm costau ariannu arian parod** | **10,754** | **11,474** |
| **Cyfanswm costau ariannu** | **18,358** | **39,856** |

# 5 Incwm

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o ffioedd | 506,666 | 477,092 |
| Incwm rhent | 287 | 649 |
| Adenillwyd gan gyrff eraill y llywodraeth | 94,063 | 82,041 |
| Ffioedd Beilïaid | 31,338 | 25,697 |
| Incwm amrywiol | 5,287 | 9,972 |
| **Cyfanswm incwm** | **637,641** | **595,451** |

Incwm sy'n gysylltiedig â Gweinyddu a'r Rhaglen oedd £807k (2012-13: £859k) a £636,834k (2012-13: £594,592k) yn y drefn honno.

### Incwm o ffioedd

Mae incwm o ffioedd yn cynnwys symiau a gafwyd gan y ffrydiau busnes fel y'i dangosir yn nodyn 5.2.

### Incwm rhent

Mae incwm rhent yn cynnwys rhenti eiddo buddsoddi, is-osod a rhenti eraill a delir gan breswylwyr ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

### Ffioedd Beilïaid

Mae'n cynrychioli adennill ffioedd y Beilïaid a delir gan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gasglu arian sy'n ddyledus.

### Incwm amrywiol

Mae incwm amrywiol yn cyfeirio at incwm a gafwyd drwy werthu cyhoeddiadau, hawliadau yswiriant, derbyniadau o beiriannau gwerthu, blychau ffôn a gosod eiddo'n achlysurol.

## 5.1 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw cyfanswm yr incwm yn cynnwys symiau a gasglwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM lle’r oedd yn gweithredu fel asiant i’r Gronfa Gyfunol ac nid fel penadur. Mae holl fanylion yr incwm a gasglodd fel asiant i’r Gronfa Gyfunol yn Natganiad Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a gyhoeddwyd ar wahân ond ochr yn ochr â’r datganiadau ariannol hyn.

## 5.2 Ffioedd a Thaliadau

Yn unol â ‘Managing Public Money’ a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, mae’n ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddatgelu canlyniadau perfformiad ar gyfer meysydd yn ei weithgareddau lle y codir ffioedd a thaliadau. Mae’r dadansoddiad isod at ddibenion datgelu ffioedd a thaliadau ac nid yw’n fwriad iddo fodloni gofynion IFRS 8 ‘Operating Segments’ gan nad yw'n berthnasol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o dan ofynion FReM.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfrifol am y meysydd busnes canlynol: sifil, tribiwnlysoedd, trosedd ac arall. Dim ond y busnes sifil a busnes y tribiwnlysoedd sydd â systemau ar gyfer codi ffioedd. Yr amcan polisi ac ariannol ar gyfer busnes sifil yw ei fod yn adennill costau llawn y prosesau sydd dan sylw llai cost ariannu'r ffioedd sy'n cael eu dileu. Mae'r llywodraeth hefyd yn ystyried a ddylid codi ffioedd uwch, sy'n fwy na chost yr achos, o dan rai amgylchiadau, er mwyn lleihau cost

gweithredu system y llysoedd eto i'r trethdalwr. Byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau diwygio maes o law. Cytunwyd ar dargedau adennill costau ar wahân ar gyfer busnes y tribiwnlysoedd. Pwrpas y system dileu ffioedd yw sicrhau na fydd unigolion yn cael eu hatal rhag defnyddio'r llysoedd os na allant mewn gwirionedd fforddio'r ffi.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyflwyno adroddiadau am y segment busnes sifil a segment busnes y tribiwnlysoedd. Mae busnes sifil yn cynnwys dwy ffrwd fusnes: teulu (gan gynnwys profiant anghynhennus a'r llys gwarchodaeth) a sifil (gan gynnwys busnes sifil yn y llysoedd sirol, yr uwch lysoedd a'r llysoedd ynadon). Mae busnes y tribiwnlysoedd yn cynnwys tair ffrwd fusnes: mewnfudo a lloches, cyflogaeth a thribiwnlysoedd eraill sy'n codi ffioedd (gan gynnwys tiroedd, eiddo preswyl, hapchwarae a chydnabod rhywedd).

Cyflwynwyd ffioedd i'r tribiwnlys cyflogaeth ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'r dull a ddefnyddir i amcangyfrif cost lawn darparu gwasanaethau y codwn ffioedd ar eu cyfer wedi cael ei adolygu hefyd. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn, ac mae ffigurau 2012-13 wedi cael eu hailddatgan fel sy'n briodol.

| | **Incwm Crynswth** | **Incwm a gollwyd drwy ddileu ffioedd** | **Incwm net** | **Gwariant** | **(Gwarged) / diffyg net** | **(Gwarged) / diffyg crynswth** | **Adennill ffioedd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | **Gwirioneddol** | **Targed:** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | % |
| | | | | Nodyn 1 | | | Nodyn 2 | |
| **Busnes sifil** | | | | | | | | |
| Teulu [Nodyn 3] | 161,168 | (13,269) | 147,899 | (204,365) | (56,466) | (43,197) | 79% | 100% |
| Sifil [Nodyn 4] | 348,354 | (5,453) | 342,901 | (413,981) | (71,080) | (65,627) | 84% | 100% |
| **Cyfanswm busnes sifil** | **509,522** | **(18,722)** | **490,800** | **(618,346)** | **(127,546)** | **(108,824)** | **82%** | **100%** |
| **Busnes y tribiwnlysoedd [Nodyn 5]** | | | | | | | | |
| Lloches a Mewnfudo | 10,890 | (626) | 10,264 | (101,113) | (90,849) | (90,223) | 11% | |
| Cyflogaeth | 5,149 | (680) | 4,469 | (76,364) | (71,895) | (71,215) | 7% | |
| Tribiwnlysoedd eraill [Nodyn 6] | 1,159 | (26) | 1,133 | (13,498) | (12,365) | (12,339) | 9% | - |
| **Cyfanswm busnes y tribiwnlysoedd** | **17,198** | **(1,332)** | **15,866** | **(190,975)** | **(175,109)** | **(173,777)** | **9%** | **-** |
| **Cyfanswm busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2013-14** | **526,720** | **(20,054)** | **506,666** | **(809,321)** | **(302,655)** | **(282,601)** | **65%** | **-** |
| **Cyfanswm busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (wedi'i ailddatgan) yn 2013-14 [Nodyn 7]** | **501,057** | **(23,965)** | **477,092** | **(800,035)** | **(322,943)** | **(298,978)** | **63%** | **-** |

**Nodiadau:**

1. Mae'r costau uchod yn cael eu cyfrifo ar sail cost lawn ac yn cynnwys dyraniad o gostau gorbenion gan gynnwys costau'r pencadlys a'r swyddfeydd rhanbarthol.
2. Cyfrifir y targed adennill ffioedd drwy ddefnyddio incwm crynswth o'i gymharu â gwariant.

3. Mae'r Llys Gwarchodaeth a Phrofiant wedi'u cynnwys yn llinell busnes teulu oherwydd bod eu gwaith yn cael ei weinyddu yn rhan o adran deulu'r Uchel Lys.
4. Mae sifil yn cynnwys busnes sifil yn y llysoedd sirol, yr uwch lysoedd a'r llysoedd ynadon.
5. Dim ond y tr biwnlysoedd sy'n codi incwm sydd wedi'u cynnwys yn tabl uchod. Gosodwyd ffioedd yn y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo a'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn wreiddiol ar 25% o'r gost a 33% o'r gost, yn drefn honno, ar gyfer y prosesau hynny y codir ffioedd amdanynt. Nid oedd targedau yn 2013-14 ar gyfer adennill costau cyffredinol yn yr awdurdodaethau hyn.
6. Ymhlith y tribiwnlysoedd eraill, mae tiroedd, eiddo preswyl, hapchwarae a chydnabod rhywedd.
7. Mae'r ffigurau ar gyfer 2012-13 wedi cael eu hailddatgan i adlewyrchu model costau newydd. Crëwyd y model hwn yn ystod 2013-14 i wella tryloywder dyrannu costau ar gyfer gwaith sy'n cael ei brosesu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gorchmynion ffioedd cyfredol wedi'u rhestru isod ac mae'n bosibl eu gweld hefyd yn http://www.justice.gov.uk/courts/fees/si-in-force:

- **Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil (Diwygio) Rhif 2 2013 Rhif1410 {L.13}** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil (Diwygio) 2011 Rhif 586 [L2]
- **Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu (Diwygio) 2013** Rhif1407[L.13} sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu (Diwygio) 2011 Rhif 586 [L2]
- **Gorchymyn Ffioedd Profiant Anghynhen nus (Diwygio) 2013** Rhif 1408 [L.11} sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd Profiant Anghynhennus (Diwygio) 2011 Rhif 588 [L4]
- **Gorchymyn Ffioedd y Llysoedd Ynadon (Diwygio) 2013 Rhif 1409 [L12]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Llysoedd Ynadon (Diwygio Rhif 2) 2010 [1917]
- **Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchodaeth [Diwygio) 2009 [513]** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchodaeth 2007 [1745]
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) 2011 Rhif 2841.**
- **Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Loches ) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 Rhif 2069,**sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiad Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 Rhif 2344
- **Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) (Diwygio) 2013 Rhif 1199** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Siambr Tiroedd (Diwygio) 2010 Rhif 2601
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) (Diwygio) 2010 Rhif 633,** sy'n diwygio Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hapchwarae) (Diwygio) 2010 Rhif 42
- **Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Ffioedd Ymgeisio) (Diwygio) 2012 Rhif 920** sy'n diwygio Gorchmynion Cydnabod Rhywedd (ffioedd Ymgeisio) 2006 Rhif 758 a a 2011 rhif 628,
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013 Rhif 1179** sy'n disodli Rheoliadau'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Lloegr) 2011 Rhif 1007
- **Gorchymyn Ffioedd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a Ffioedd y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth 2013 Rhif 1893** (Daeth ffioedd newydd i rym ar 29 Gorffennaf 2013)

# 6 Eiddo ac offer

| 2013 -14 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir heb gynnwys anheddau** | **Adeiladau heb gynnwys anheddau** | **Tir ar gyfer anheddau** | **Anheddau** | **Technoleg Gwybodaeth** | **Offer** | **Dodrefn gosodion a ffitiadau** | **Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu** | **Cyfanswm** |
| | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodyn 6.2 | Nodyn 6.2 | | | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **17,770** | **60,732** | **32,941** | **64,722** | **2,892,657** |
| Ychwanegiadau | 69 | 9,874 | - | 501 | 50 | 732 | 130 | 50,554 | 61,910 |
| Gwarediadau | - | (5) | - | - | (2,831) | (1,500) | (166) | 28 | (4,474) |
| Ailgategoreiddio | - | 60,746 | - | 581 | (469) | 641 | - | (61,364) | 135 |
| Ailbrisio | 24,834 | 75,425 | 949 | **(256)** | (322) | 2,191 | 199 | - | 103,020 |
| Lleihad | 4,014 | (20,900) | 57 | **(546)** | (389) | - | 19 | (4,484) | (22,229) |
| Wedi ailgategoreiddio yn asedau a ddelir i'w gwerthu | (9,565) | (7,198) | - | - | - | - | - | - | (16,763) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 104 | 642 | - | - | 16,858 | 482 | - | (30) | 18,056 |
| Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | 2,995 | 632 | - | - | - | - | - | - | 3,627 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **30,667** | **63,278** | **33,123** | **49,426** | **3,035,939** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **-** | **-** | **-** | **-** | **7,191** | **38,196** | **20,638** | **-** | **66,025** |
| Cofnodwyd yn ystod y flwyddyn | 451 | 90,801 | 11 | 631 | 2,885 | 7,116 | 3,114 | - | 105,009 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | (2,613) | (1,330) | (117) | - | (4,060) |
| Ailgategoreiddio | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (384) | (46,900) | (11) | (404) | (91) | 1,318 | 141 | - | (46,331) |
| Lleihad | (67) | (43,990) | - | (227) | (14) | - | 7 | - | (44,291) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | 89 | - | - | 507 | - | - | - | 596 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **-** | **-** | **-** | **-** | **7,865** | **45,300** | **23,783** | **-** | **76,948** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **10,579** | **22,536** | **12,303** | **64,722** | **2,826,632** |
| **Ariannu asedau** | | | | | | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 423,544 | 1,912,579 | 6,577 | 10,053 | 22,802 | 17,978 | 9,340 | 49,426 | 2,452,299 |
| Dan lles cyllid | 42,539 | 275,111 | 2,185 | 2,600 | - | - | - | - | 322,435 |
| Contractau Mentrau Cyllid Preifat ar y | 15,370 | 168,887 | - | - | - | - | - | - | 184,257 |

| Fantolen | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2014** | **481,453** | **2,356,577** | **8,762** | **12,653** | **22,802** | **17,978** | **9,340** | **49,426** | **2,958,991** |

| **2012-13** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir heb gynnwys anheddau** | **Adeiladau heb gynnwys anheddau** | **Tir ar gyfer anheddau** | **Anheddau** | **Technoleg gwybodaeth** | **Offer** | **Dodrefn gosodion a ffitiadau** | **Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu** | **Cyfanswm** |
| | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodiadau 6.1, 6.3, 6.4 | Nodyn 6.2 | Nodyn 6.2 | | | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2012** | **457,984** | **2,143,915** | **7,203** | **12,720** | **19,745** | **49,331** | **31,658** | **126,326** | **2,848,882** |
| Ychwanegiadau | 586 | 439 | - | - | 99 | 628 | 436 | 75,969 | 78,157 |
| Gwarediadau | (283) | (1,336) | - | (14) | (9,235) | (2,628) | (135) | (229) | (13,860) |
| Lleihadau | (11,253) | (82,181) | **(123)** | **(882)** | - | - | - | (19,104) | (113,543) |
| Ailgategoreiddio | 355 | 113,382 | - | 458 | 5,038 | (102) | 230 | (118,208) | 1,153 |
| Ailbrisio | 26,759 | 93,026 | 676 | 91 | 2,123 | 1,282 | 752 | | 124,709 |
| Wedi ailgategoreiddio yn asedau a ddelir i'w gwerthu | (17,785) | (30,647) | - | - | - | - | - | - | (48,432) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | - | - | - | - | - | 12,221 | - | (32) | 12,189 |
| Trosglwyddiadau i mewn gan gyrff cyhoeddus eraill | 2,639 | 763 | - | - | - | - | - | - | 3,402 |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **17,770** | **60,732** | **32,941** | **64,722** | **2,892,657** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2012** | 1 | 1 | - | - | 11,628 | 32,193 | 17,227 | - | 61,050 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 388 | 87,816 | 11 | 532 | 2,399 | 7,777 | 3,087 | - | 102,010 |
| Gwarediadau | (1) | (93) | - | - | (7,487) | (2,447) | (75) | - | (10,103) |
| Ailgategoreiddio | (2) | (34) | - | - | - | - | - | - | (36) |
| Lleihad | (48) | (30,590) | - | (142) | - | - | - | - | (30,780) |
| Ailbrisio | (338) | (57,100) | (11) | (390) | 651 | 673 | 399 | - | (56,466) |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **-** | **-** | **-** | **-** | **7,191** | **38,196** | **20,638** | **-** | **66,025** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **10,579** | **22,536** | **12,303** | **64,722** | **2,826,632** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012** | **457,983** | **2,143,914** | **7,203** | **12,720** | **8,117** | **17,138** | **14,431** | **126,326** | **2,787,832** |
| **Ariannu asedau** | | | | | | | | | |
| Mewn perchnogaeth | 401,202 | 1,778,546 | 5,731 | 9,644 | 10,579 | 22,535 | 12,303 | 64,722 | 2,305,262 |
| Dan les cyllid | 42,374 | 280,840 | 2,025 | 2,729 | - | 1 | - | - | 327,969 |
| Contractau Mentrau Cyllid Preifat ar y | 15,426 | 177,975 | - | - | - | - | - | - | 193,401 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fantolen | | | | | | | | | |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2013** | **459,002** | **2,237,361** | **7,756** | **12,373** | **10,579** | **22,536** | **12,303** | **64,722** | **2,826,632** |

Nodiadau:

6.1 Yn gynwysedig o dan dir ac adeiladau heb gynnwys anheddau y mae asedau ar gontractau mentrau cyllid preifat sydd â llyfrwerth net o £184.2m (2012-13: £193.4m) a dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn o £4.6m (2012-13: £4.5m); wedi'u cynnwys hefyd y mae asedau ar les cyllid sydd â llyfrwerth net o £317.9m (2012-13: £323.2m) a dibrisiant a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn o £15.7m (2012-13: £14.6m). O fewn adeiladau ac eithrio anheddau mae £88.2m (2012-13: £89.4m) yn cyfeirio at welliannau lesddaliad.

6.2 O dan dir ar gyfer anheddau y mae lesoedd cyllid sydd â llyfrwerth net o £2.2 miliwn (2012-13: £2.0m) a dibrisiant a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn o £0.01m (2012-13: £0.01m). Wedi'u cynnwys o dan Anheddau mae asedau dan lesoedd cyllid sydd â llyfrwerth net o £2.6m (2012-13: £2.7m) a dibrisiant a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn o £0.4m (2012-13: £0.2m).

6.3 Mae'r holl asedau heblaw 'Tir ac Adeiladau (ac eithrio anheddau)' ac 'Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu' yn cael eu prisio drwy ddefnyddio Mynegai Prisio'r Cynhyrchwyr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

6.4 Fel rhan o adolygiad parhaus o'r ffordd orau o ddefnyddio ystâd y llysoedd, mae hyfywedd y cynlluniau datblygu ar nifer o safleoedd yn cael ei adolygu. Mae'r adolygiad hwn wedi arwain at gydnabod lleihad o £4.5m yn yr eiddo a'r offer (2012-13: £19.0m) yn y SoCNE i adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth yr asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

## 7 Asedau a ddelir i'w gwerthu

Fel rhan o'r adolygiad parhaus ar resymoli'r llysoedd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i gynllun i werthu nifer o safleoedd sydd dros ben (tir ac adeiladau) a ddefnyddid gynt i ddarparu gwasanaethau llys. Dechreuwyd mynd ati i ddod o hyd i brynwyr a chwblhau gwerthiant pob un o'r safleoedd ac mae asiantau tai'n marchnata'r safleoedd hyn. Mae'r eiddo ar gael i'w gwerthu yn eu cyflwr presennol ac mae'n debygol iawn y byddant yn cael eu gwerthu o fewn blwyddyn ar ôl dyddiad categoreiddio'r asedau'n asedau a ddelir i'w gwerthu yn y SoFP.

Cynhwysir yr elw net ar werthu asedau a ddelir i'w gwerthu ar 31 Mawrth 2012 o £2.3 miliwn (31 Mawrth 2013 - £1.7m) yn y golled net ar werthu eiddo a chyfarpar o fewn Costau Rhaglenni Eraill yn y SoCNE.

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | | **18,349** | **5,405** |
| Asedau wedi ailgategoreiddio o eiddo ac offer | 6 | 16,763 | 48,431 |
| Cynnydd yng ngwerth teg yr asedau a ddelir i'w gwerthu | 4.1 | - | 283 |
| Lleihad | 4.1 | (1,382) | (2,084) |
| Gwarediadau | | (15,876) | (33,686) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | | **17,854** | **18,349** |

# 8 Asedau anniriaethol

| | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|
| | Technoleg gwybodaeth | Asedau sydd wrthi'n cael hadeiladu | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **105,836** | **158** | **105,994** |
| Ychwanegiadau | 271 | 68 | 339 |
| Gwarediadau | - | (359) | (359) |
| Ailgategoreiddio | 477 | (612) | (135) |
| Lleihad | (271) | (1,526) * | (1,797) |
| Ailbrisiadau | (2,584) | - | (2,584) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 16,742 | 2,292 | 19,034 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **120,471** | **21** | **120,492** |
| | | | |
| **Amorteiddio** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **52,395** | **-** | **52,395** |
| Cofnodwyd yn ystod y flwyddyn | 17,068 | - | 17,068 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ailgategoreiddio | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (1,168) | - | (1,168) |
| Trosglwyddiadau o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 2,514 | - | 2,514 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **70,809** | **-** | **70,809** |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2013** | **53,441** | **158** | **53,599** |
| | | | |
| **Ariannu asedau:** | | | |
| Mewn perchnogaeth | **49,662** | **21** | **49,683** |
| Dan les cyllid | - | - | - |
| Contractau Mentrau Cyllid Preifat | - | - | - |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2014** | **49,662** | **21** | **49,683** |

*Yn ystod 2013-14, lleihad yn y gwariant datblygu ar roi system TG sydd ar gael eisoes. GAPS2, ar waith mewn maes busnes ychwanegol ar ôl ail-arfarnu manteision economaidd yr achos busnes.

| | 2012-13 | | |
|---|---|---|---|
| | Technoleg Gwybodaeth | Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2012** | **83,597** | **8,035** | **91,632** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | | (19) | (19) |
| Ailgategoreiddio* | 9,730 | (9,968) | (238) |
| Ailbrisio | 12,509 | - | 12,509 |
| Trosglwyddiadau o adrannau/asiantaethau eraill | | 2,110 | 2,110 |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **105,836** | **158** | **105,994** |
| | | | |
| **Amorteiddio** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2012** | **33,167** | **-** | **33,167** |
| Cofnodwyd yn ystod y flwyddyn | 15,368 | - | 15,368 |
| Gwarediadau | (1) | - | (1) |
| Ailgategoreiddio | | | |
| Ailbrisio | 3,861 | - | 3,861 |
| Trosglwyddiadau o adrannau/asiantaethau eraill | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **52,395** | **-** | **52,395** |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2013** | **53,441** | **158** | **53,599** |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2012** | **50,430** | **8,035** | **58,465** |
| | | | |
| **Ariannu asedau:** | | | |
| Mewn perchnogaeth | **53,441** | **158** | **53,599** |
| Dan les cyllid | - | - | - |
| Contractau Mentrau Cyllid Preifat | - | - | - |
| **Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2013** | **53,441** | **158** | **53,599** |

* Ar ôl cwblhau nifer o brosiectau meddalwedd a gategoreiddiwyd yn asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu, trosglwyddwyd yr asedau i TG. Fel rhan o asesiad mynd yn fyw, dynodwyd £238k o galedwedd TG a'i ailgategoreiddio'n Eiddo ac Offer a'i ddatgelu o dan Dechnoleg Gwybodaeth.

Mae'r llyfrwerthoedd net a gweddill oes amorteiddio asedau materol unigol o fewn asedau anniriaethol wedi'u rhestru isod.

| | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r ased** | **Llyfrwerth net** | **Gweddill y cyfnod amorteiddio (blynyddoedd)** | **Llyfrwerth net** | **Gweddill y cyfnod amorteiddio (blynyddoedd)** |
| | £000 | | £000 | |
| Systemau Busnes Gweithredol y Llysoedd Ynadon | 6,511 | 3 | 9,524 | 4 |
| Rhaglen uwchraddio meddalwedd y system rheoli achosion | 22,053 | 3 | 23,742 | 4 |
| Gwasanaeth Trawsgrifio Recordiadau Sain Digidol (DARTS) - lledaenu'r meddalwedd | 8,325 | 3 | 11,146 | 4 |

## 9 Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 'Financial Instruments:  Disclosures' yn ei gwneud hi'n ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wynebir gan endid wrth gyflawni ei busnes.

Gan fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cael ei ariannu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, nid yw'n agored i risg ariannol na risg y farchnad i'r un graddau ag y bydd endid busnes. Bydd offerynnau ariannol hefyd yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer yn creu neu'n newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM bwerau i fenthyg na buddsoddi cronfeydd dros ben. Bydd ei asedau a'i rwymedigaethau ariannol yn codi yn sgîl ei weithgareddau beunyddiol ac nid ydynt yn cael eu dal i ymateb i risgiau sy'n codi yn sgîl y gweithgareddau hyn. Felly, nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn agored i risgiau sylweddol i'w hylifedd nac i risgiau sy'n codi yn sgîl cyfraddau llog neu arian cyfred tramor.

Mae risgiau credyd yn codi o asedau ariannol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sy'n cynnwys arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod, symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill ac asedau ariannol eraill. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn agored i risg credyd yn sgîl y posibilrwydd bod gwrthbleidiau'n torri rhwymedigaethau eu contract gan arwain at golled ariannol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Ychydig iawn o risg credyd sy'n gysylltiedig â symiau derbyniadwy Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gan fod balansau'r rhan fwyaf o 'r dyledwyr gyda chyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth. Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â symiau derbyniadwy hefyd yn cael ei monitro gan y rheolwyr yn rheolaidd drwy adolygu i ba raddau y mae'r symiau derbyniadwy'n heneiddio. Y golled fwyaf y gallai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fod yn agored iddi yw i werth cario'i asedau ariannol o fewn y SoFP.

### Gwerthoedd teg

Mae gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2013 yn amcangyfrif eu llyfrwerth.

Mae gwerth teg symiau diffyg trosglwyddiadau pensiwn y credydwr sy'n daladwy i'r LGPS wedi deillio o ddisgowntio'r taliadau arian parod yn y dyfodol a wneir i ddileu'r rhwymedigaeth. Ystyrir y disgowntio'n berthnasol i'r cyfrifon. Cyfeirier at nodyn 14.1 i gael gwybod rhagor.

## 10 Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 10,018 | 9,124 |
| Symiau derbyniadwy eraill: | | |
| TAW adferadwy | 10,695 | 9,798 |
| Dyledwyr rhyng-adrannol | 29,452 | 29,129 |
| Rhagdaliadau a refeniw cronnus | 29,097 | 32,526 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 4,592 | 33,483 |
| **Cyfanswm y symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **83,854** | **114,060** |

Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn:

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Symiau derbyniadwy eraill | | 53 | 79 |
| Rhagdaliadau | | 135 | 140 |
| **Cyfanswm y symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | | **188** | **219** |

### 10.1 Dadansoddiad o'r balansau derbyniadwy yn ôl math o sefydliad

| | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| | Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn | Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyrff eraill llywodraeth ganol | 46,917 | - | 49,027 | - |
| Awdurdodau lleol | 1,621 | 135 | 1,998 | 140 |
| Cyrff y GIG | 2 | - | 3 | - |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 922 | - | 2,868 | - |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 34,392 | 53 | 60,164 | 79 |
| **Cyfanswm symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill** | **83,854** | **188** | **114,060** | **219** |

## 11 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **(57,394)** | **11,995** |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn balansau arian parod | 83,085 | (69,389) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **25,691** | **(57,394)** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cedwid y balansau a ganlyn ar 31 Mawrth yng:** | | |
| Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 25,603 | (57,500) |
| Arian mewn llaw | 62 | 74 |
| Imprestau | 26 | 32 |
| **Cyfanswm arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | **25,691** | **(57,394)** |

## 12 Symiau masnach a symiau taladwy eraill

Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol eraill | 16,778 | 17,622 |
| Symiau masnach taladwy | 3,630 | 2,450 |
| Symiau taladwy eraill | 19,032 | 21,609 |
| Credydwyr rhyng-adrannol | 44,080 | 56,869 |
| Symiau cronnus a refeniw gohiriedig | 137,599 | 135,625 |
| Credydwr ar gyfer diffyg trosglwyddo pensiwn: symiau'n daladwy i'r LGPS | 26,456 | 2,404 |
| Lesoedd cyllid | 110 | 96 |
| Priodoli elfen lesoedd cyllid contractau mentrau preifat ar y fantolen | 8,926 | 8,926 |
| **Cyfanswm y symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **256,611** | **245,601** |

Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwerth cyfalaf contractau mentrau cyllid preifat | 122,236 | 131,162 |
| Symiau taladwy eraill | 115,331 | 111,996 |
| Credydwr ar gyfer diffyg trosglwyddo pensiwn: symiau'n daladwy i'r LGPS | 173,970 | 200,778 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | 10,270 | 17,316 |
| **Cyfanswm y symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | **421,807** | **461,252** |

### 12.1 Dadansoddiad o'r symiau'n daladwy fesul math o sefydliad

| | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **Symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn** |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyrff eraill llywodraeth ganol | 84,988 | - | 89,166 | - |
| Awdurdodau lleol | 32,580 | 206,855 | 22,039 | 236,854 |
| Cyrff y GIG | 24 | - | 28 | - |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 451 | - | 385 | - |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 138,568 | 214,952 | 133,983 | 224,398 |
| **Cyfanswm y symiau masnach a symiau taladwy eraill** | **256,611** | **421,807** | **245,601** | **461,252** |

## 13 Nodiadau am y Datganiad Llif Arian

Dyma grynodeb o'r costau tybiannol a'r costau nad ydynt yn arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Costau tybiannol:** | | |
| Costau barnwrol y gronfa gyfunol - cyflogau misol ac wythnosol | 125,353 | 125,665 |
| Costau barnwrol y gronfa gyfunol - costau nawdd cymdeithasol | 15,493 | 15,525 |
| Taliadau i archwilwyr allanol | 350 | 340 |
| Ad-daliadau adrannol | 84,224 | 175,762 |
| **Costau tybiannol:** | **225,420** | **317,292** |

| | | |
|---|---|---|
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | |
| (Elw)/colled net wrth waredu eiddo ac offer | (1,532) | 1,046 |
| Gostyngiad/(cynnydd) yng ngwerth eiddo ac offer | (26,545) | (10,626) |
| Lleihad ar eiddo ac offer | 4,484 | - |
| Lleihad ar asedau anniriaethol | 1,526 | |
| Gostyngiad/(cynnydd) yng ngwerth teg asedau anniriaethol | 270 | (216) |
| Gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau a gedwir i'w gwerthu | 1,382 | 1,801 |
| Amorteiddio rhagdaliad les gweithredu | 5 | 5 |
| Grantiau cyfalaf - trosglwyddo eiddo | - | 682 |
| Llinell syth taliadau les gweithredol | 6,159 | 13,325 |
| Symudiad yn y darpariaethau | 20,781 | 24,262 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg | (129) | (62) |
| Dibrisiant | 105,009 | 102,010 |
| Amorteiddio | 17,068 | 15,368 |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | **128,478** | **147,595** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm costau tybiannol a chostau nad ydynt yn arian parod** | **353,898** | **464,887** |

### 13.1 Cysoni eiddo ac offer

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Ychwanegiadau | | | |
| Eiddo ac offer | 6 | 61,910 | 78,157 |
| A: | | | |
| Cynnydd mewn croniadau cyfalaf | | 4,560 | 13,817 |
| **Cyfanswm ychwanegiadau fesul Datganiad Llif Arian** | | **66,470** | **91,974** |

## 14 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystlon

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Darpariaeth ar gyfer diffyg trosglwyddo pensiynau | 14.1 | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | 14.2 | 112,394 | 109,434 |
| Darpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn drwy gydweddiad | 14.3 | 4,493 | 3,887 |
| Darpariaeth ar gyfer Cyflwr Eiddo | 14.4 | 19,507 | 8,800 |
| Darpariaethau eraill | 14.5 | 8,850 | 5,569 |
| **Cyfanswm y darpariaethau** | | **145,244** | **127,690** |

Bydd y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystlon yn ddyledus fel a ganlyn:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Blwyddyn | 11,866 | 11,347 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 39,127 | 35,762 |
| Dros bum mlynedd | 94,251 | 80,581 |
| **Cyfanswm y darpariaethau** | **145,244** | **127,690** |

### 14.1 Darpariaeth ar gyfer diffyg trosglwyddo pensiynau

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **-** | **182,464** |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | - | 12,099 |
| Llog a datod y gostyngiad ar y diffyg trosglwyddo pensiwn | - | 10,094 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (136,120) |
| | **-** | **68,537** |
| Swm wedi ailgategoreiddio i symiau masnach a symiau taladwy eraill | - | (68,537) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **-** | **-** |

Roedd Deddf y Llysoedd 2003 yn deddfu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau a chyfrifoldebau llysoedd ynadon i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Yn sgîl hyn, trosglwyddwyd tua 8,000 o weithwyr a oedd o dan gontractau cyflogaeth y Pwyllgorau Llysoedd Ynadon lleol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac roedd gofyn newid eu trefniadau pensiwn. Daeth y staff a drosglwyddwyd yn aelodau o'r PCSPS ar 1 Ebrill 2005. Rhoddwyd opsiynau iddynt drosglwyddo'u buddion cronedig i'r PCSPS.

Dewisodd tua 6,000 o staff drosglwyddo'u gwasanaeth cronnus. Dewisodd y gweddill barhau i gadw eu buddion pensiwn cronedig gyda'r LGPS perthnasol. Nid yw'r LGPS yn gweithredu fel un gronfa. Yn hytrach, cyfres o gronfeydd sy'n cael eu gweinyddu'n lleol ydynt.

Ar ôl i'r gweithwyr drosglwyddo o'r awdurdod lleol a oedd yn gweinyddu'r cynllun i'r PCSPS, roedd gofyn i'r LGPS nodi beth oedd sefyllfa ariannu net sylfaenol y gweithwyr a oedd wedi

trosglwyddo. Os oedd diffyg net yn sgîl hynny oherwydd bod yr LGPS wedi cael ei danariannu'n hanesyddol, yna roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn atebol am ddiffyg yr LGPS yng nghyswllt gweithwyr. Serch hynny, os oedd gan yr LGPS ddigon o arian i dalu'r rhwymedigaethau a gedwid, yna, byddai cyfran berthnasol yr ased net yn cael ei throsglwyddo i'r PCSPS.

Fel rhan o'r cytundeb, cytunodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i ariannu'r diffyg net a ysgwyddwyd gan y PCSPS dros gyfnod o 10 mlynedd ar yr amod bod digon o arian ar gael, gan gynnwys y goblygiadau o ran llog sy'n codi yn sgîl gwneud hyn. Ar 31 Mawrth 2013, cytunwyd ar y gwerthoedd trosglwyddo terfynol ar gyfer holl gronfeydd yr LGPS. Ar gyfer y cronfeydd hynny, lle y cytunwyd ar werthoedd trosglwyddo positif, mae taliadau untro wedi'u gwneud i'r PCSPS ar gyfer gwerth y symiau trosglwyddo positif hynny. Ar gyfer y cronfeydd lle y cytunwyd ar werthoedd trosglwyddo negatif, bydd cyfres o 10 taliad blynyddol, sydd gyfwerth â gwerth y symiau trosglwyddo negatif y cytunwyd arnynt, yn cael eu talu i gronfeydd perthnasol yr LGPS.

## 14.2 Darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---:|---:|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **109,434** | **107,411** |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 7,218 | 5,873 |
| Datod y gostyngiad | 4,131 | 4,791 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (8,389) | (8,641) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **112,394** | **109,434** |

Darparwyd ar gyfer costau heb eu hariannu buddion ymddeol yn gynnar staff penodol yn y llysoedd ynadon. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli gwerth presennol costau'r budd sy'n daladwy i staff ar delerau Crombie ac ar delerau ymddeol yn gynnar llywodraeth leol.

Cynhwysir darpariaeth hefyd yn y costau ymadael yn gynnar ar gyfer costau ymddeol yn gynnar heb eu hariannu ar gyfer staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sydd yn y PCSPS. Mae darpariaeth wedi'i gwneud hefyd ar gyfer costau sy'n berthnasol i'r rhaglen ad-drefnu a moderneiddio.

Mae cyfradd llog o 4.35% (2012013: 4.10%) wedi cael ei defnyddio i asesu costau llog rhwymedigaeth y cynllun ac mae'r amcandaliadau yn y dyfodol wedi cael eu disgowntio ar gyfradd o 1.8% (2012-13: 2.35%).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar a gofnodir uchod ar wahân i gostau'r cynllun ymadael yn gynnar o wirfodd a gofnodir yn nodyn 3.1.3.

## 14.3 Cynllun pensiwn drwy gydweddiad

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | **3,887** | **4,012** |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 159 | 123 |
| Taliadau llog | 158 | 193 |
| Colled / (enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun | 504 | (233) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (215) | (208) |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **4,493** | **3,887** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynlluniau pensiwn cydweddol yn ymwneud â thri chynllun pensiwn ar gyfer y tribiwnlys Digolledu am Anafiadau Troseddol, y Siambr Mewnfudo a Lloches a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl. Mae gan y cynlluniau hyn 1 aelod, 13 aelod a 31 aelod yn y drefn honno.

Prisiwyd rhwymedigaethau'r cynlluniau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2014 ac mae costau cysylltiedig ar gyfer llog a gwasanaethau cyfredol wedi'u cofnodi yn y SoCNE.

Gelwir y cynlluniau'n 'gynlluniau pensiwn cydweddol' am eu bod yn debyg i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil Fodd bynnag, maent wedi'u hariannu drwy ddarpariaethau yn y cyllid a ddyfarnwyd i'r Adran ac mae taliadau pensiwn yn cael eu gweinyddu gan yr Adran a'u gwneud drwy'r system gyflogres.

## 14.4 Cyflwr Adeiladau

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | 8,800 | 3,067 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 11,318 | 5,733 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (611) | - |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **19,507** | **8,800** |

## 14.5 Darpariaethau eraill

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Ar ddechrau'r cyfnod** | 5,569 | 5,373 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 9,164 | 434 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (3,320) | (238) |
| Datod y gostyngiad | (2,563) | - |
| **Ar ddiwedd y cyfnod** | **8,850** | **5,569** |

## 15 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod nas cynhwyswyd fel arall yn y cyfrifon hyn. | - | - |
| Eiddo ac offer | 6,443 | 16,463 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau cyfalaf** | **6,443** | **16,463** |

## 16 o lesoedd gweithredu

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn lesio amryw o diroedd ac adeiladau o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu. Cyfleusterau llysoedd yw tiroedd ac adeiladau'n bennaf ac mae lesoedd yn para rhwng o 3 i 125 o flynyddoedd. Nid oes opsiynau prynu yn y lesoedd gweithredu, er bod cymalau cynnydd a thelerau adnewyddu yn rhai ohonynt. Negodir â'r lesydd i adnewyddu lesoedd yn unol â darpariaethau cytundebau'r lesoedd unigol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn lesio gwahanol offer a cheir o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu. Mae cyfnodau'r lesoedd rhwng 1 a 14 o flynyddoedd.

Mae'r gwariant ar lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu a gofnodwyd yn y SoCNE yn ystod y flwyddyn wedi'i ddatgelu yn nodyn 4.

Mae cyfanswm y taliadau sylfaenol ar lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu fel a ganlyn ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol :

| | | | 2013-14 | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfansw m** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| **O fewn blwyddyn fan hwyraf** | 76,993 | 706 | 76,699 | 85,442 | 739 | 86,181 |
| **Ar ôl blwyddyn ond o fewn pum mlynedd** | 263,908 | 815 | 264,723 | 299,947 | 1,164 | 301,111 |
| **Ar ôl pum mlynedd** | 961,699 | - | 961,699 | 1,157,990 | - | 1,157,990 |
| Cyfanswm yr ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu | 1,302,600 | **1,521** | 1,304,121 | **1,543,379** | **1,903** | **1,545,282** |

## 17 Lesoedd cyllid

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn lesio amryw o adeiladau o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu.

Mae cyfanswm y taliadau sylfaenol ar lesoedd yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu fel a ganlyn ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol :

| | | | **2013-14** | | | **2012-13** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn fan hwyraf | 798 | - | 798 | 947 | - | 947 |
| Ar ôl blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 3,126 | - | 3,126 | 3,869 | - | 3,869 |
| Ar ôl pum mlynedd | 23,723 | - | 23,723 | 160,896 | - | 160,896 |
| Llai : yr elfen log | (17,267) | - | (17,267) | (148,300) | - | (148,300) |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,380** | **-** | **10,380** | **17,412** | **-** | **17,412** |

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid ar gyfer y cyfnodau a ganlyn yn cynnwys:

| | | | **2013-14** | | | **2012-13** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Tir ac adeiladau** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn fan hwyraf | 109 | - | 109 | 96 | - | 96 |
| Ar ôl blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 478 | - | 478 | 506 | - | 506 |
| Ar ôl pum mlynedd | 9,793 | - | 9,793 | 16,810 | - | 16,810 |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **10,380** | **-** | **10,380** | **17,412** | **-** | **17,412** |

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn lesio amryw o adeiladau o dan gytundebau lesoedd gweithredu na ellir eu diddymu.  Cyfleusterau llysoedd yw'r adeiladau'n bennaf ac mae cyfnodau eu lesoedd yn amrywio o 15 i 999 o flynyddoedd. Nid oes opsiynau prynu yn y lesoedd gweithredu, er bod cymalau cynnydd a thelerau adnewyddu yn rhai ohonynt.  Negodir â'r lesydd i adnewyddu lesoedd yn unol â darpariaethau cytundebau'r lesoedd unigol.

## 18 Mentrau cyllid preifat

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gwneud wyth trefniant menter cyllid preifat ar gyfer consesiynau gwasanaeth. Rhoddir crynodeb o bob contract menter cyllid preifat isod:

| Enw'r prosiect | Dyddiad dechrau'r contract | Hyd (blynyddoedd) | Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar /oddi ar | Gwerth cyfalaf cychwynnol (£m) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerwysg | Tachwedd 2002 | 30 | Ar | 20.1 | Darparu ystafell llys sy'n cynnwys pedwar llys troseddol, un llys sifil a phedair ystafell i gynnal gwrandawiadau'r Barnwr Rhanbarth. Ar ddiwedd cyfnod y contract bydd yr adeilad yn dychwelyd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM heb gost. |
| East Anglia | Hydref 2002 | 25 | Ar | 34.5 | Darparu canolfannau Llys y Goron yn Ipswich a Chaergrawnt. Mae pum ystafell llys troseddol yn Ipswich; mae tair ystafell llys troseddol yng Nghaergrawnt. Ar ddiwedd cyfnod y contract bydd yr adeiladau yn Ipswich a Chaergrawnt yn dychwelyd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM heb gost. |
| Sheffield | Tachwedd 2002 | 25 | Ar | 7.7 | Darparu Canolfan Gwrandawiadau Teulu yn Sheffield. Ar ddiwedd cyfnod y contract mae opsiwn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gaffael yr is-les am ei gwerth ar y farchnad agored neu £2.0 miliwn, pa un bynnag yw'r isaf. |
| Llysoedd Ynadon Swydd Derby | Awst 2001 | 27 | Ar | 29.5 | Darparu adeiladau â gwasanaethau i lysoedd yr ynadon yn New Mills, Chesterfield a Derby. Gellir ymestyn cyfnod y contract (os llwyddir i gytuno ar delerau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr) o hyd at bum mlynedd. |
| Llysoedd Ynadon Henffordd a Chaerwrangon | Mawrth 2000 | 25 | Ar | 30.6 | Darparu adeiladau â gwasanaethau i lysoedd yr ynadon yn Bromsgrove, Kidderminster, Caerwrangon a Redditch. Gellir ymestyn cyfnod y contract am 10 mlynedd arall. |
| Llys Ynadon Manceinion | Mawrth 2001 | 25 | Ar | 32.9 | Darparu llys sydd â 18 ystafell llys. |
| Llys Ynadon Humberside | Mawrth 2000 | 25 | Ar | 21.6 | Darparu adeiladau â gwasanaethau ar gyfer llysoedd yr ynadon yn Hull, Beverley a Bridlington. Wedi i'r contract ddod i ben, mae opsiwn i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gymryd yr asedau'n ôl am swm nominal o £3.0 miliwn. |
| Llys Ynadon Avon a Gwlad yr Haf | Awst 2004 | 27 | Ar | 46.6 | Darparu adeilad â gwasanaethau i lysoedd yr ynadon a'r swyddfeydd ym Mryste, Weston-Super-Mare a Flax Bourton. |

## 18.1 Contractau ar y Fantolen

Rhoddir manylion y taliadau lesoedd cyllid a briodolir yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau a ganlyn:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhenti nad ydynt yn ddyledus o fewn blwyddyn | 16,505 | 17,041 |
| Rhenti sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 60,666 | 62,808 |
| Rhenti sy'n ddyledus ar ôl pum mlynedd | 114,814 | 129,178 |
| | **191,985** | **209,027** |
| Llai yr elfen log | (60,823) | (68,939) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **131,162** | **140,088** |

Rhoddir manylion elfen y tâl gwasanaeth isaf yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau a ganlyn:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 21,412 | 20,308 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 85,648 | 81,231 |
| Tâl gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl pum mlynedd | 180,846 | 191,754 |
| **Cyfanswm** | **287,906** | **293,293** |

## 18.2 Symiau a gofnodir yn y SoCNE

Y cyfanswm a gofnodwyd yn y SoCNE gyda golwg ar yr elfen gwasanaeth ar gyfer contractau mentrau cyllid preifat a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth eraill a gydnabyddir yn y SoFP oedd £34.6m (2012-13: £36.3m).

## 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

**Hawliadau deiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi:**

Darperir hawliau pensiwn i farnwyr cyflogedig o dan y Cynllun Pensiwn Barnwrol. Ym mis Medi 2005, cyflwynodd deiliad swydd farnwrol a oedd yn derbyn ffi ac wedi ymddeol hawliad gerbron y Tribiwnlys Cyflogaeth yn hawlio ôl-driniaeth gydradd â deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig drwy hawlio bod ganddo hawliau pensiwn o dan y Rheoliadau ar gyfer Gweithwyr Rhan Amser.

Dyfarniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ar 6 Chwefror 2013 oedd bod gan ddeiliad swydd farnwrol sydd wedi ymddeol ac a oedd yn derbyn ffi yr hawl i gael pensiwn ar delerau a oedd yn cyfateb i'r rheini a oedd yn berthnasol i ddeiliad swydd farnwrol gyflogedig. Roedd y prif achos hwn yn gosod y gynsail ar gyfer achosion eraill a oedd wedi'u hatal. Ailgyflwynwyd yr achos i'r Tribiwnlys Cyflogaeth i benderfynu faint o bensiwn y mae gan ddeiliad y swydd farnwrol yr hawl iddo.

Yn ystod 2013-14, cynhaliwyd sawl gwrandawiad yn y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth i fynd i'r afael â faint o'r pensiwn yr oedd deiliaid swyddi barnwrol yn gymwys i'w hawlio.

Ar sail dyfarniad Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig a'r dyfarniadau diweddaraf gan y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, amcangyfrifwyd y rhwymedigaeth i'r grŵp o farnwyr oedd yn derbyn ffi y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys yr hawl i bensiwn, gydag elfen ar wahân o'r rhwymedigaeth am bensiynau sy'n berthnasol i farnwyr sydd wedi ymddeol sy'n derbyn ffi, a Dyfarniad Gwasanaeth Barnwrol sy'n talu iawndal i bobl sydd wedi ymddeol am y dreth a dalwyd ar symiau pensiwn untro a hwnnw'n cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol.

Mae'r darpariaethau a gydnabyddir gan y JPS a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i setlo'r hawliadau hyn ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau hyn yn Nodyn 3.2.2.

Yn ogystal â hawl i bensiwn, roedd yr hawliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr achosion a ataliwyd yn cynnwys hawliau nad oeddent a wnelo â phensiynau ond a oedd yn berthnasol i delerau ac amodau cyflogaeth deiliaid swyddi barnwrol a oedd yn derbyn ffi, megis gwyliau a thâl salwch, taliadau ar gyfer hyfforddiant a ffioedd cofnodi, cynnydd mewn ffioedd dyddiol a ffioedd canslo lle nad oedd trefniadau'n cael eu hanrhydeddu.

Ymdriniwyd â'r hawliadau hyn ar gyfer pethau nad oedd a wnelont â phensiynau yng ngwrandawiad rhagarweiniol y Tribiwnlys Cyflogaeth a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr 2013 ac fe gafwyd dyfarniadau ynghylch pa hawliau di-bensiwn y gellid eu hawlio a pha fathau o ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n gymwys i wneud hawliadau o'r fath. Felly, mae'r rhwymedigaeth wrth gefn a ddatgelwyd yn y flwyddyn flaenorol bellach wedi'u crisialu ac, ar sail dyfarniad y Tribiwnlys Cyflogaeth, paratowyd amcangyfrif o'r rhwymedigaeth ddi-bensiwn i'r grŵp o farnwyr sy'n derbyn ffi y mae'r hawlwyr cymwys yn perthyn iddo. Mae'r hawliau di-bensiwn hyn wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Cyflwynwyd nifer fawr o hawliadau a oedd wedi'u hatal ac apeliadau'n weddill nad oeddent wedi'u clywed cyn diwedd y cyfnod adrodd neu cyn llunio fersiwn derfynol y cyfrifon hyn. Mae'r hawliadau hyn yn cael eu hystyried yn rhwymedigaethau wrth gefn o hyd. Ni wnaethpwyd unrhyw amcangyfrif am yr achosion a ataliwyd, oherwydd mai amgylchiadau unigol yr hawlydd a fydd yn penderfynu a gaiff achos a ataliwyd hyd yn oed ei glywed, ac, wrth ystyried nifer yr hawliadau a ataliwyd a’r apeliadau sy'n sefyll, nid oedd hyn yn ymarferol.

**Rhwymedigaethau wrth gefn eraill:**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymwneud â nifer o achosion cyfreithiol sy'n ymdrin â hawliadau ex gratia, iawndaliadau a hawliadau eraill. Amcangyfrifir mai cost setlo'r

rhain i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fydd £20.8m (2012-13: £3.8m). Mae a wnelo'r rhwymedigaeth wrth gefn fwyaf arwyddocaol â hawliad am golledion gwerth £16.4m (2012-13: £dim). Cyflwynwyd papurau hawlio iawndal yn ffurfiol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae amddiffyniad llawn i'r hawliad wedi'i gyflwyno.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn terfynu nifer o lesoedd cyn eu dyddiad dod i ben. Disgwylir mai cost y terfyniadau hyn, os digwyddant, fydd £dim (2012-13: £26k)

Canlyniad yr her yn yr Uchel Lys ym mis Gorffennaf 2005 yw nad yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gallu cael rheolaeth ar nifer o eiddo y bwriedid iddynt ddod o fewn Cynllun Trosglwyddo Eiddo 31 Mawrth 2005. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn wynebu rhwymedigaeth wrth gefn am yr eiddo hynny nad yw'n eu rheoli eto.

Oni all Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM drosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth yr eiddo hyn, mae'n wynebu dyletswyddau posibl o ran lletya'r partïon a fydd maes o law'n berchen ar yr hawliau i'r eiddo ac a fydd yn rheoli'r buddion economaidd gwaelodol. Ar sail gwerth rhent yr eiddo ar 31 Mawrth 2007, amcangyfrifir y gallai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fod yn agored i gostau ychwanegol hyd at £73k y flwyddyn (2012-13: £0.3m) a bod y rhwymedigaeth wrth gefn (cyfanswm mwyaf) er 1 Ebrill 2005 yn £0.7m (2012-13: £2.6m).

Nid oes gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddim rhwymedigaethau wrth gefn eraill nad oes modd eu mesur.

## 20 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cynnal trafodion perthnasol â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac ag endidau eraill y mae'r Weinyddiaeth yn cael ei hystyried yn rhiant endid iddynt. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd wedi cynnal trafodion perthnasol â nifer o adrannau eraill y llywodraeth ac â chyrff y llywodraeth ganolog. Yn unol â gofynion FReM ni adroddwyd ynglŷn â'r trafodion hyn.

Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau yw'r Registry Trust Limited. Mae'n cadw Cofrestr dyfarniadau'r Llys Sirol ar ran yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Roedd y refeniw a gafwyd gan y Registry Trust Limited yn y flwyddyn yn £0.6m (2012-13: £0.5m) a chyfanswm y balans sy'n ddyledus i wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gan ddyledwyr ar 31 Mawrth 2014 oedd £0.2m (2012-13: £0.2m).

Yn ystod 2013-14 a 2012-13, nid oes yr un Aelod o'r Bwrdd nac unrhyw barti cysylltiedig arall wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM nifer o drefniadau gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i chyrff adrannol sy'n cael eu categoreiddio'n ad-daliadau rhyngadrannol. Taliadau am ddefnyddio asedau a gwasanaethau eraill yw'r rhain ac maent yn cael eu dangos fel gwariant yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr bob blwyddyn wrth iddynt godi. Nid yw'n ymarferol gwahanu'r taliadau hyn mewn ffordd ddibynadwy rhwng y rheini sy'n berthnasol i asedau a'r rheini sy'n berthnasol i wasanaethau eraill. Nid yw'r trefniadau hyn yn cynnwys dyddiad gorffen diffiniedig. Mae'r taliadau hefyd yn cynnwys taliadau am elfennau'r trefniadau nad oes a wnelont a'r les.

## 21 Balansau trydydd partïon

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cadw nifer o falansau arian parod gwahanol ar ran trydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys arian mechnïaeth ac arian a ddelir ar

ran defnyddwyr y llys sy'n cael eu derbyn a'u dal yn ystod hynt yr achos. Ar 31 Mawrth 2014, gwerth y rhain oedd £17,360 k (2012-13: £10,841k) ac nid ydynt wedi eu cydnabod yn y cyfrifon, yn unol â gofynion FReM.

## 22 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

**Adroddiadau ariannol**

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the Reporting Period', ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiadau am y Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan gaiff y Cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Dehonglir mai'r un dyddiad yw hwn â dyddiad Ardystiad ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd digwyddiadau o'r fath yr oedd angen eu datgelu na'u haddasu yn y Cyfrifon.

## 23 Atebolrwydd

Cynhwysir y datgeliadau a ganlyn i gydymffurfio â gofynion adroddiadau cyfrifyddu'r llywodraeth.

- Adroddwyd bod 1,911 (2012-13: 1,568) o achosion o golledion arian parod, sef cyfanswm o £354k (2012-13: £517k). Mae a wnelo'r rhain yn bennaf ag enghreifftiau o anghysonderau bychain wrth roi derbynebau am arian parod ar lefel y llysoedd.
- Yn ystod y flwyddyn, diddymwyd gwerth £7k (2012-13: £72k) a oedd yn gysylltiedig â dwy ddyled gan ystyried nad oedd modd adennill yr arian. Roedd y swm hwn cyn hynny wedi'i ystyried yn draul lleihad yn y SoCNE.
- Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd 1,865 (2012-13: 2,065) o daliadau arbennig, sef cyfanswm o £1,341k (2012-13: £1,761k). Taliadau arbennig yw'r rheini sy'n mynd y tu hwnt i'r rheolau gweinyddol neu rai nad oes gwarchodaeth statudol na rhwymedigaeth gyfreithiol ar eu cyfer.
- Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd 2 daliad (2012-13: 3) yng nghyswllt llog a dalwyd o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, sef cyfanswm o £1k (2012-13: £1k).
- Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd colled ddeongliadol gwerth £1,727k gyda golwg ar ledaenu rhaglen feddalwedd a gwtogwyd ar ôl ail-arfarnu buddion economaidd yr achos busnes.
- Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM adolygiad o'r safleoedd a gafaelwyd o'r blaen er mwyn gallu darparu ar gyfer prosiectau adeiladu llysoedd posibl yn y dyfodol. Dechreuodd y prosiectau i gyd cyn Adolygiad o Wariant 2010. Mae'r dadleuon busnes o blaid y prosiectau hyn wedi cael eu hasesu eto yng ngoleuni'r newidiadau yn y gofynion gweithredol. Ar ôl ail-arfarnu buddion economaidd yr achosion busnes, ni fydd rhai o'r prosiectau'n mynd rhagddynt bellach ar y fformat a gynlluniwyd. Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu prisio eto yn unol â gofynion y polisi cyfrifyddu ac mae rhywfaint o'r costau caffael wedi'u datgan yn golledion deongliadol fel a ganlyn:
  - Cydnabuwyd colled ddeongliadol gwerth £23,488k gyda golwg ar wyth prosiect adeiladu llysoedd nas cwblhawyd yn eu fformat gwreiddiol ar ôl ail-arfarnu'r achosion busnes. Adroddwyd am eu hasedau o dan y pennawd 'Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu' gyda lleihad o £19,005k yn ystod 2012-13 a lleihad o £4,483k arall yn 2013-14.
  - Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd colled ddeongliadol o £4,389k gyda golwg ar sicrhau les ar safle tir ar gyfer prosiect adeiladu llys nas cwblhawyd ar ei fformat gwreiddiol ar ôl ail-arfarnu'r buddion economaidd. Cofnodwyd a datgelwyd y lleihad ar y tir dan les cyllid yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009-10.
  - Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd colled ddeongliadol o £17,921k gyda golwg ar sicrhau les ar safle tir ar gyfer prosiect adeiladu llys nas cwblhawyd ar ei fformat gwreiddiol ar ôl ail-arfarnu'r buddion economaidd.

## 24 Datganiad am y Cyfrif Digolledu am Anafiadau Troseddol ar 31 Mawrth 2014

Mae'r datganiad hwn wedi'i gynnwys yn unol â'r cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol ag adran 6(3)(a) (ii) o Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a pharagraff 4 o Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2001, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban yn unol ag adran 88(2) o Ddeddf yr Alban 1998 i adrodd am y costau a ddaeth i ran Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wrth iddo asesu hawliadau dan y Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol yn yr Alban.

| | | **2013-14** | | **2012-13** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm* | | (319) | | (349) |
| Costau staff : | | | | |
| Costau'r gyflogres staff | 710 | | 765 | |
| Costau'r gyflogres farnwrol | 1,412 | | 1,429 | |
| Cyfanswm costau'r gyflogres | | 2,122 | | 2,194 |
| Costau gweithredu eraill | | 1,410 | | 1,386 |
| Cost net gweithrediadau | | **3,213** | | **3,231** |

* Yn cynnwys 319k (2012-13: £349 yn gyfraniad gan Weithrediaeth yr Alban tuag at achosion yr Alban

# Atodiadau

Atodiad A: Ffynonellau data ac ansawdd y data

Mae'r atodiad hwn yn rhoi manylion cryno'r ffynonellau data ar gyfer y ffigurau a roddir yn yr adroddiad hwn ynghyd â thrafodaeth fer am ansawdd y data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y 'Court Statistics Quarterly' a'r 'Quarterly Statistics for the Tribunals' ar wefan GOV.UK yn https://www.gov.uk/government/collections/court-statistics-quarterly ahttps://www/gov/uk/government/colletions/tribunals-statistics

Llysoedd sirol (nid y llysoedd teulu)

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynhyrchu drwy ddefnyddio'r System Gwybodaeth Reoli, cyfleuster casglu data sy'n tynnu data o systemau gweinyddol y llysoedd. Mae data'r llysoedd sirol yn y System Gwybodaeth Reoli wedi dod o system weinyddol 'CaseMan', a ddefnyddir gan staff y llysoedd at ddibenion rheoli achosion. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth o safon am ddigwyddiadau o bwys a'u dyddiadau wrth i achos fynd ar ei hynt drwy system y llysoedd. Rhai o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ystadegol yw adnabod a dileu cofnodion dyblyg o'r un digwyddiad mewn achos a gwiriadau bod data wedi'u casglu ar gyfer pob llys er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn.

Llysoedd teulu

Daeth y data am y llysoedd teulu'n bennaf o system weinyddol y llysoedd sirol, FamilyMan (drwy MIS), a ddefnyddir gan staff y llysoedd at ddibenion rheoli achosion ac mae'n cynnwys gwybodaeth o safon am hynt achos drwy'r llysoedd teulu. Daw rhywfaint o ddata hefyd o Gronfa Ddata Perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Rhai o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ystadegol yw adnabod a dileu cofnodion dyblyg o'r un digwyddiad mewn achos a gwiriadau bod data wedi'u casglu ar gyfer pob llys er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn.

Llys y Goron

Daeth y data am Lys y Goron o system weinyddol Llys y Goron (CREST) (drwy MIS), a ddefnyddir gan staff y llys at ddibenion rheoli achosion. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth o safon am ddigwyddiadau o bwys a'u dyddiadau wrth i achos fynd ar ei hynt drwy system y llysoedd. Rhai o'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ystadegol yw adnabod a dileu cofnodion dyblyg, gwirio anghysonderau ymddangosiadol a gwirio bod y data'n gyflawn.

Llysoedd Ynadon

Daw'r ystadegau am achosion sydd wedi'u cwblhau o Gronfa Ddata Perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a ledaenwyd i bob llys ynadon yn ystod 2007-2008, ac mae'n cael ei fwydo gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar System Wybodaeth Reoli Libra a thrwy gasglu data â llaw. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth o safon am lwythi achosion y llysoedd ynadon. Rhaid i'r data a ddarperir gan y llysoedd gael eu gwirio a'u dilysu gan staff y llys cyn eu cyflwyno i Gronfa Ddata Perfformiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Mae'r data sy'n cael eu casglu'n ganolog yn cael eu gwirio eto gan gynnwys ymchwilio i anghysonderau ymddangosiadol ynddynt.

Tribiwnlysoedd

Daw'r data am y tribiwnlysoedd yn yr adroddiad hwn o Ystadegau Swyddogol o nifer o ffynonellau gweinyddol. Caiff eu hansawdd eu gwirio ac fe'u cysonir. Er y cymerir gofal wrth brosesu a dadansoddi'r data, mae'n bosibl bod gwallau ynddynt sy'n gynhenid mewn unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr a dyma'r data gorau sydd ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

ISBN 978-1-4741-0729-7

9 781474 107297